

Adroddiad Blynyddol 2020-21



**Comisiynydd
Plant Cymru**

Children's
Commissioner
for Wales

Cynnwys	2
1. Rhagair gan yr Athro Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru	4
2. Uchafbwyntiau eleni	7
3. Coronafeirws a Ni	10
4. Sut rydyn ni wedi cyflawni ein hymrwymiadau	17
5. Gwaith a barn ein paneli ymgynghorol	49
6. Y Ffordd Gywir	53
7. Ein 'cerdyn adroddiad'	59
8. Crynodeb o argymhellion	106
9. Prosesau sefydliadol	115

**Roedd rhaid i ni wneud
yn siwr bod Cymru'n
amddiffyn ei phlant, a
dyna oedd y sbardun ar
gyfer fy staff bob dydd.**



1. Rhagair gan yr Athro Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru

Ym mis Mawrth 2020, rhoddwyd Cymru o dan gyfnod clo oherwydd y Coronafeirws. Roedd hynny'n golygu bod bywyd pawb ohonon ni'n newid yn fawr. Yn achos plant a phobl ifanc, roedd yn golygu bod rhaid i'w ffordd o ddysgu, chwarae a sicrhau cefnogaeth newid dros nos.

Er bod pawb ohonom wedi profi newid ac anhawster, fel fîm roedden ni'n teimlo'n gryfach ac yn fwy ymroddedig nag erioed i sicrhau bod y Llywodraeth yma yng Nghymru yn rhoi'r lle blaenaf a chanolog i blant yn ei gwaith. Mae hynny wedi golygu ein bod wedi newid ein dull o weithio gyda'r Llywodraeth, yn aml ochr yn ochr, yn rhoi cefnogaeth ar faterion hawliau plant, ond bob amser yn cynnal ein rôl graffu trwy amlygu diffygion neu fylchau yn y gefnogaeth pan fydden ni'n eu gweld. Roedd rhaid i ni wneud yn siŵr bod Cymru'n amddiffyn ei phlant, a dyna oedd y sbardun ar gyfer fy nhîm o staff bob dydd. Roedden ni'n ymdrechu i fod yn adeiladol, yn gytbwys ac i roi sicrwydd i'r rhai yr ydyn ni yma i'w gwasanaethu. Fe fydd yna adeg i adolygu sut bu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn diogelu hawliau plant yn ystod y pandemig; nid 2020 oedd yr adeg honno.

Er i ni gael ein bendithio â'r lefelau isaf erioed o salwch eleni, roedd gan lawer o'm fîm o staff rai o'u cyfrifoldebau gofalu a'u heriau eu hunain i'w hwynebu yn ystod y pandemig. Ond er gwaethaf gwahanol bwysau arnom, llwyddwyd i gyflawni ein hamcanion gwaith cyn y pandemig a llawer iawn mwy. Cyflawnwyd pob amcan a nodwyd, aeth pob elfen o'n gwaith ymlaen heb ddiwrnod o oedi, a chroesawodd pob aelod o staff gyfle i wneud gwaith ychwanegol er mwyn sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed gan y bobl bwerus. Roedd hynny'n cynnwys y ffaith ein bod wedi arwain, ddwywaith, yr arolwg mwyaf yn y Deyrnas Unedig o brofiadau plant a phobl ifanc o'r pandemig yn ystod dau gyfnod clo – lle buon ni'n gweithio mewn partneriaeth â'r Llywodraeth ac eraill – ac yn sicrhau bod y canlyniadau'n dylanwadu ar ganllawiau a mesurau diogelwch ar lefel genedlaethol a lleol.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'n holl gyflawniadau yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021 – blwyddyn 2 o'n cynllun tair blynedd diweddaraf – ac mae'n cloi â chyfres o newidiadau pwysig y mae angen i'r Llywodraeth eu rhoi ar waith yn ddi-oed.

Er bod plant i weld yn wynebu llai o risgiau iechyd yn sgîl Covid-19, mae eu bywydau wedi wynebu aflonyddu na welwyd ei debyg erioed. Hoffwn gloi'r sylwadau hyn trwy dalu teyrnged i ymdrechion arwrol gweithwyr rheng flaen sydd wedi cefnogi, meithrin a gofalu am ein plant, a'u haddysgu eleni. A dyma neges i'r 700,000 o blant a phobl ifanc sy'n galw Cymru'n gartref: rydych chi wedi bod yn ddewr, yn gadarn ac yn amyneddgar eleni, ac er nad yw ein holl waith o bosib yn amlwg i chi, mae'r tîm a minnau wedi gwrandao arnoch chi, a byddwn ni'n rhoi pwysau ar y rhai sydd â phŵer bob dydd i'ch diogelu chi a'ch hawliau.

Sally Holland
Comisiynydd Plant Cymru

**...rydych chi wedi bod yn ddewr,
yn gadarn ac yn amyneddgar
eleni, ac er nad yw ein holl waith
o bosib yn amlwg i chi, mae'r tîm
a minnau wedi gwrandao arnoch
chi, a byddwn ni'n rhoi pwysau
ar y rhai sydd â phŵer bob dydd
i'ch diogelu chi a'ch hawliau.**

**Uchafbwyntiau
eleni**



2. Uchafbwyntiau eleni

Ein blwyddyn mewn rhifau

Dyma beth gyflawnodd 26 aelod o staff yn ystod y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2021

44,000

Casglu barn 44,000 o blant a phobl ifanc ledled Cymru trwy ein harolygon 'Coronafeirws a Ni'

694

Ymgysylltu'n bersonol ag o leiaf 694 o blant a phobl ifanc ledled Cymru mewn digwyddiadau ar-lein, gweithdai a chyfarfodydd

55

Cynnal grwpiau ffocws gyda 55 o bobl ifanc ledled Cymru mewn 'diwrnod gwranddo' ym mis Tachwedd, i asesu effaith cyfyngiadau'r 'cyfnod clo byr' yng Nghymru ym mis Hydref

167

Casglu barn 167 o benaethiaid ysgolion a cholegau ar gynhwysiad digidol yn ystod un wythnos ym mis Ionawr

10,000

Sicrhau bron 10,000 o bleidleisiau yn etholiad Senedd paralel cyntaf y wlad i bobl ifanc 11-15 oed

864

Cynnal gwersi hawliau plant ar-lein i 864 o blant a phobl ifanc

30

Ymateb i 30 o leiaf o ymgynghoriadau'r Senedd, Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill, gan greu newid amlwg mewn nifer o enghreifftiau o bolisiau newydd a deddfwriaeth

800

Cynnal sesiynau hyfforddi ar hawliau plant i fwy nag 800 o gyfranogwyr

663

Rheoli 663 o achosion trwy ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor

11

Cyhoeddi 11 adroddiad thematig ar bynciau o gynhwysiad yn y cyfnod sylfaen i adroddiad i Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn

449

Sicrhau sylw i'r sefydliad o leiaf 449 o weithiau mewn cyfryngau darlledu a phrintiedig

148

Gweithio gydag o leiaf 148 o weithgorau a sefydliadau ar ystod o faterion hawliau plant a chynyddu ein hymgysylltiad â rhai sefydliadau hollbwysig, gan gynnwys consortia addysg, cyrff trydydd sector ac undebau athrawon

380

Bu 380 o ysgolion (25% o ysgolion Cymru) yn ymgysylltu'n rhagweithiol â'n cynlluniau llysgenhadon eleni, er gwaethaf holl ofynion ychwanegol y pandemig

200

Anfon o leiaf 200 o ymatebion wedi'u teilwra i ymholiadau unigol gan bobl ifanc, rhieni a gofawyr ynghylch effaith polisiau Covid ar eu bywydau

Prif gyflawniadau

Mae ein prif gyflawniadau rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021 yn cynnwys:

Chwarae rôl bwysig yn **casglu data** gyda phlant a phobl ifanc yn ystod y pandemig: Dau arolwg Coronafeirws a Fi, adroddiad diwrnod gwranddo ac arolwg ac adroddiad cynhwysiad digidol

Dylanwadu ar ystod eang o fesurau, gan gynnwys plant yn dychwelyd i'r ysgol, newidiadau i drefniadau cymwysterau a galluogi plant mewn gofal i fod mewn cysylltiad â'u teuluoedd

Cynnal **adolygiad ffurfiol** cyntaf y swyddfa o sut bu Llywodraeth Cymru'n ymarfer ei swyddogaethau

Datblygu ffyrdd newydd o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc gan ddefnyddio technoleg ddigidol, gan gynnwys ymgysylltu'n fyw ag ysgolion i gyflwyno gweithdai a gweminarau, fideos i gefnogi Hawl y Mis, a chynnwys ar gyfer ein hwb gwybodaeth ar weithgareddau i'w gwneud gartref gyda phlant. Buon ni hefyd yn gweithio gyda grŵp o bobl ifanc ag anableddau dysgu i adolygu a gwella ein gwaith hygyrch i blant

Adrodd i'r CU: Cyflwynwyd dau adroddiad i Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn, ochr yn ochr â'n cymheiriaid yn y Deyrnas Unedig

Darparu dau **gyflwyniad ysgrifenedig** i'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, ac ymddangos fel tyst yn yr Ymchwiliad Annibynnol i'r Ymchwiliad i Gam-drin Plant yn Rhywiol mewn Ysgolion Preswyl

Creu a chynnal hwb gwybodaeth gyda gwybodaeth gywir, gyfredol a hygyrch ynghylch y pandemig

'Dim Drws Anghywir': Mae'r adroddiad yn nodi pam mae angen dull gweithredu 'dim drws anghywir' ar Gymru yng nghyswllt iechyd meddwl a llesiant, ac yn rhoi enghreifftiau o arfer da ledled Cymru lle mae hyn yn dechrau digwydd.

Prosiect Pleidleisio: Cynhaliwyd etholiad paralel unigryw i gyd-ddigwydd ag etholiad Senedd Cymru ym mis Mai 2021, gan sicrhau bron 10,000 o bleidleisiau ar draws Cymru

'Blociau Adeiladu': Mae'r adroddiad hwn yn amlygu canfyddiadau ein hymchwiliad i waharddiadau mewn addysg Cyfnod Sylfaen (3-7 oed) ledled Cymru, a ddatgelodd fod naw plentyn, ar gyfartaledd, fesul awdurdod, wedi cael eu gwahardd fwy nag unwaith, a bod un plentyn wedi cael ei wahardd 18 gwaith mewn cyfnod o un flwyddyn

Cynnal bord gron **b/Byddar i glywed** yn uniongyrchol am brofiadau plant b/Byddar a'u teuluoedd

Ac o fewn ein sefydliad:

Cynyddu amllder ein cyfarfodydd gyda'n grŵp o 47 o ymgynghorwyr ifanc 11-18 oed i sesiynau misol ar-lein, a defnyddio'u cyngor amhrisiadwy i lywio ein blaenoriaethau

Galluogi ein holl staff i **weithio gartref** heb amharu ar ein gwasanaethau

Cefnogi ein staff trwy gyfnodau anodd yn y pandemig â chyfres o fentrau arloesol gan ein grŵp hyrwyddwyr llesiant

Cychwyn dull gweithredu newydd ar gyfer datblygu ein hunain fel sefydliad gwrth-hiliol

Coronafeirws a
Ni



3. Coronafeirws a Ni

Gwta bythefnos wedi dechrau blwyddyn newydd ein cynllun gwaith, roedd ein swyddfa ar gau, yn union fel swyddfeydd, ysgolion a cholegau ar draws y wlad, oherwydd pandemig byd-eang y Coronafeirws. Fel bob blwyddyn, roedd barn plant a phobl ifanc a'r bobl sy'n gofalu amdany'n nhw neu â gofal amdanynt wedi llywio a dylanwadu ar ein cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn. Fe ddewisom ni gadw at y gyfres o brosiectau roedden ni wedi'i chynllunio'n wreiddiol, a chyflwynir y rheiny i gyd yn y ffordd arferol yn yr adroddiad blynyddol hwn.

Ym mis Medi 2020 fe gyhoeddod ni'r adroddiad **Coronafeirws a Ni** oedd yn cynnwys ein hasesiad o waith y Llywodraeth i gynnal hawliau plant ar yr adeg honno, ac yn amlinellu ein gwaith yn ystod pum mis cyntaf yr argyfwng. Hyd yn oed bryd hynny, doedden ni ddim yn disgwyl i gyfnodau clo a chyfyngiadau pellach fod wedi cael effaith mor amlwg ar fywydau pawb ohonom a'n gwaith ar hyd y flwyddyn gyfan, ond oherwydd y camau gwnaethon ni eu cymryd o'r cychwyn, fe lwyddon ni i barhau i weithio i gefnogi plant a phobl ifanc yn ystod y flwyddyn.

Ym mis Medi 2021 fe gyhoeddod ni Coronafeirws a Ni: 2il argraffiad Medi 2020-Medi 2021. Ceir adroddiad llawn yno ar ein camau gweithredu yng nghyswllt y pandemig, ond yma rydyn ni'n crynhoi'r uchafbwyntiau.

Yn yr adroddiad cyntaf, fe wnaethon ni nodi ein bod ni wedi cyflwyno'r pedair blaenoriaeth canlynol i ni ein hunain yn gynnar, yn ystod wythnos gyntaf datgan bod pandemig yn y Deyrnas Unedig. Dyma grynodedb byr o'r hyn rydyn ni wedi parhau i'w wneud i gyflawni'r blaenoriaethau hyn ers mis Medi.

1. Gwneud yn siŵr bod gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd wybodaeth a chyngor clir a dibynadwy.

Ers mis Medi 2020 rydyn ni wedi:

- Paratoi i ddiweddarau ein **hwb gwybodaeth** am y Coronafeirws wrth i reoliadau a datblygiadau newydd ddod i'r amlwg. Mae hyn wedi cynnwys tudalen 'un stop' ar gymwysterau ac apeliadau; yn ogystal â chyngor penodol i blant sydd â phrofiad o ofal, gofalwyr ifanc a'r rhai sydd ag anghenion ychwanegol;
- Datblygu **tudalen newydd Haf o Hwyl ar y we** yn amlinellu chwarae rhydd, gweithgareddau a drefnwyd a chyfleoedd i wirfoddoli ar gyfer plant a phobl ifanc yn ystod yr haf, wedi'u trefnu fesul awdurdod lleol;
- Gweithio gydag eraill i gynorthwyo gyda chyfathrebu clir i bobl ifanc ar faterion hanfodol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru;
- Parhau i ddarparu cyngor ac arweiniad i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd a fu'n cysylltu â'n gwasanaeth **Ymchwiliadau a Chyngor**.

2.

wirio bod plant y gallai fod angen mwy o gefnogaeth arnynt nag eraill yn ddiogel ac yn derbyn eu hanghenion

Ers mis Medi 2020 rydyn ni wedi:

- Cadw mewn cysylltiad agos â'n lleoliadau 'caeedig' yng Nghymru (sefydliad troseddwr ifanc, cartref diogel i blant, ac unedau iechyd meddwl i gleifion mewnol), gan gynnwys gwrando'n uniongyrchol ar blant ifanc yn y sefydliadau hynny. Rydyn ni wedi parhau i'w cefnogi trwy godi materion gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Llywodraeth wrth iddyn nhw godi;
- Codi materion rheolau ynysu a chyswllt gyda theuluoedd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a chyflawni newidiadau cadarnhaol;
- Amlygu materion a chyflawni newidiadau yn y canllawiau ar gyfer plant sy'n cael eu haddysgu gartref;
- Cyflawni newidiadau pellach mewn rheolau hunanyysu ar gyfer plant ag anabledd a rhai heb erddi;
- Cyhoeddi **adroddiadau** ar effaith ychwanegol cyfnodau clo ar blant ag anabledd a phlant o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol;
- Ymchwilio ac **adrodd** ar fynediad digidol i blant sy'n dysgu gartref.
- Cyhoeddi **adolygiad** ffurfiol o benderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â symud ymlaen gyda newidiadau rheoliadol a gynlluniwyd mewn perthynas â dewis addysgu gartref a diogelu mewn ysgolion annibynnol oherwydd pwysau'r pandemig.

3.

Gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn cael gwrandawriad

Ers mis Medi 2020 rydyn ni wedi:

- Ailadrodd ein harolwg **Coronafeirws a Fi** i bobl ifanc 3-18 oed ym mis Ionawr 2021, gan sicrhau 20,000 o ymatebion mewn llai na phythefnos;
- Cynnal ‘diwrnod gwrandao’ gyda phobl ifanc y bu’r Cyfnod Clo Byr yn effeithio fwyaf arnyn nhw yr hydref diwethaf, ac **adrodd** ar ein canfyddiadau;
- Parhau i gynnal cyfarfodydd misol gyda’n panel amrywiol, Cymru gyfan o 47 o bobl ifanc 11-18 oed, ac anfon crynodebau rheolaidd o’u barn a’u profiadau i’r llywodraeth;
- Galluogi pobl ifanc Cymru i greu eu hadroddiad eu hunain, gan roi cyngor ynghylch sut dylai llywodraethau ymateb i’r pandemig, gan eu galluogi i gymryd rhan mewn prosiect Ewrop gyfan a fydd yn cynhyrchu adroddiad Ewropeaidd dan arweiniad pobl ifanc ym mis Medi 2021.

4

Helpu'r Llywodraeth a gwasanaethau eraill i glywed am brofiadau a barn plant a phobl ifanc, ac ymateb iddyn nhw.

- Cyhoeddi **canlyniadau** ein harolwg Coronafeirws a Fi ym mis Ionawr 2021 yn gyflym, a chyn hynny rhannu'n gyfrinachol ganlyniadau cenedlaethol gyda'r Llywodraeth ar y diwrnod gwaith nesaf ar ôl i'r arolwg gau. Anfonwyd canlyniadau wedi'u teilwra'n lleol at awdurdodau lleol yn fuan wedyn;
- Lobio'n llwyddiannus am £5m ychwanegol o gyllid gan y Llywodraeth ar gyfer 'Haf o Hwyl' er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc o bob oed wedi cael mynediad at ddarpariaeth ddi-dâl o ansawdd uchel ar hyd yr haf;
- Parhau i adrodd yn fynych i'r Llywodraeth am dueddiadau a materion unigol sy'n effeithio ar blant a adroddwyd i'n swyddfa trwy ein gwasanaeth gwaith achosion annibynnol;
- Ymateb yn unigol i gannoedd o ymholiadau ynghylch rheoliadau'r pandemig gan aelodau o'r cyhoedd;
- Cynnull sesiynau 'bord gron' rhithwir rhwng y Llywodraeth a phobl ifanc, ar fyr rybudd, i roi cyngor ar frys ynghylch trefniadau arholiadau a llacio cyfyngiadau Covid;
- Darparu cyngor ysgrifenedig, yn aml o fewn oriau i'r cais, i swyddogion y Llywodraeth ar ddwsinau o reoliadau drafft cysylltiedig â Covid a chyfresi o ganllawiau, er mwyn sicrhau bod hawliau plant wedi cael eu hystyried;
- Mae ein gwaith ar Coronafeirws a Ni, gan gynnwys sut mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r canfyddiadau, wedi cael ei enwi fel enghraifft enwedig o dda o ymglymiad plant mewn prosesau gwneud penderfyniadau ynghylch y pandemig, gan Sefydliad Iechyd y Byd, yn ei hadroddiad '**Third high level meeting on Schooling during the Covid19 pandemic**'.

Mae mwy o wybodaeth am y newidiadau rydyn ni wedi dylanwadu drwy sicrau bod y llywodraeth wedi gwrando ar bobl ifanc yn yr adroddiad, sydd ar gael yma.

Beth wnaethon ni i amddiffyn ein tîm

Gweithio yn ystod y pandemig

Yn dilyn blwyddyn lwyddiannus o weithio o bell, rydyn ni wedi dysgu llawer amdanom ein hunain. Rydyn ni'n ffodus ein bod ni'n dîm clos sydd â pherthnasoedd gwaith cadarn. Mae'r cwlwm yma wedi'n helpu'n aruthrol i gefnogi ein gilydd trwy'r pandemig a pharhau i gyflawni ein rhaglen waith, ochr yn ochr ag ymateb i geisiadau brys am gyngor.

Mae gennym ni dîm gwych o Hyrwyddwyr Llesiant, a sefydlwyd mewn ymateb i'n gwaith Amser i Newid Cymru, sydd wedi rhoi o'u hamser yn wirfoddol i'n cadw mewn cysylltiad a chadw gwên ar ein hwynebau. Rydyn ni'n falch iawn o'r fenter sylfaenol hon, a gallwch chi ddarllen mwy am ein hyrwyddwyr yn y **blog** yma a mwy am ein menter ymwybyddiaeth lechyd mis Mawrth **yma**.

Rydyn ni'n sylweddoli ein bod ni, yn wahanol i lawer o wasanaethau gweithwyr allweddol, yn ffodus ein bod yn medru parhau â'n gwaith o'n cartrefi. Fodd bynnag, roedd gan lawer o'n staff gyfrifoldebau gofal gartref a oedd wedi cynyddu'n aruthrol. Fe wnaethon ni'n siŵr ein bod ni'n cefnogi'r unigolion dan sylw trwy eu galluogi i gael hyd i batrwm gwaith hyblyg oedd yn gweithio iddyn nhw. Buon ni hefyd yn galluogi rhai o'n staff i dreulio peth amser bob wythnos yn gwirfoddoli i helpu eu cymunedau lleol â chyflenwadau bwyd a chymorth arall. Cawson ni ein calonogi gan ein lefelau salwch isaf erioed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ochr yn ochr â'r ffaith na fu colli tir o ran cynhyrchiant.

Mae ein datganiad llywodraethu yn ein adran Cyfrifon yn amlygu rhai newidiadau eraill a wnaethon ni i sicrhau ein bod ni'n gweithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddiogel fel tîm o staff eleni.

Newidiadau tymor hwy

Rydyn ni wedi ymgynghori'n helaeth â'n staff ynghylch patrymau gwaith yn y dyfodol a manteision busnes cynaliadwy gweithio o bell, ac rydyn ni wedi datblygu ein Polisi Gweithio Gartref cyntaf a'n polisi cyntaf ar Weithio Ystwyth a Hyblyg.

Rydyn ni wedi gwneud penderfyniad mawr i leihau maint ein swyddfeydd, gan fod ein prydles i gael ei hadnewyddu ym mis Gorffennaf 2021. Rydyn ni wedi ymrwymo i safle ym Mhort Talbot sy'n hanner maint ein hen adeilad, ac yn ymyl gorsaf reilffordd ar y brif lein, ynghyd ag ymrwymiad i symud at ateb dibapur ar gyfer ein cofnodion.

Er gwaethaf gwahanol
bwysau arnom,
llwyddwyd i gyflawni
ein hamcanion gwaith
cyn y pandemig a
llawer iawn mwy.



4. Sut rydyn ni wedi cyflawni ein hymrwymiaadau

Blwyddyn 2 o'n cynllun tair blynedd cyfredol (2019 – 2022)

Bob tair blynedd mae'r Comisiynydd yn **cyhoeddi** cynllun tair blynedd, yn amlinellu beth fydd ein gwaith er mwyn gwella cyfleoedd plant mewn bywyd yng Nghymru. Datblygwyd ein cynllun diweddaraf, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019, o dystiolaeth ymchwil am fynediad plant at eu hawliau yng Nghymru a'n hymgyngoriad ninnau â phlant ac oedolion yng Nghymru.

Ar sail siarad â mwy na 10,000 o blant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gofalu amdany'n nhw ac yn gweithio drostyn nhw, ac adolygu'r dystiolaeth orau sydd ar gael, fe nodon ni bedair uchelgais i'r fîm eu cyflawni yn ystod y tair blynedd o 2019-2022. Dyma nhw:

1. **Cymru: gwlad lle mae hawliau'n cael eu gwireddu.**
2. **Diogelu hawliau, ble bynnag rydych chi.**
3. **Dysgu, deall a phrofi hawliau.**
4. **Bod yn atebol i blant yng Nghymru.**

Gallwch chi ddarllen copi o'n cynllun tair blynedd **yma**. Roedd adroddiad blynyddol y **llynedd** yn dangos beth roedden ni wedi'i gyflawni yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun tair blynedd. 2020-21 oedd ail flwyddyn y cynllun.

Isod ceir manylion y prosiectau y gwnaethon ni ymrwymo i'w cyflawni a'u cwblhau eleni, a rhai o uchafbwyntiau ein gwaith o ddydd i ddydd:

Cymru: gwlad lle mae hawliau'n cael eu gwireddu

Pa broblem soniodd plant a phobl ifanc wrthyn ni amdani?

Dyw ein gwasanaethau cyhoeddus ddim yn diwallu anghenion ein plant a'n pobl ifanc yn effeithiol o hyd. Mae rhaid i blant a'u teuluoedd gael hyd i ffordd trwy systemau cymhleth, ac yn aml maen nhw'n wynebu rhwystrau oherwydd eu bod nhw ddim yn ffitio i gategorïau twt neu ddim yn derbyn cymorth nes bod eu sefyllfa'n argyfwng. Mae hyn yn broblem yn arbennig yn ein gwasanaethau iechyd meddwl a'n gwasanaethau i blant anabl. Roedd pobl ifanc, rhieni a gweithwyr proffesiynol yn ein hymgyngoriad yn cyfleu'r neges hon yn gryf.

Dyma beth wnaethon ni am y sefyllfa:

Adrodd i Bwyllgor y CU
ar Hawliau'r Plentyn

Bob 5 mlynedd, mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gofyn am dystiolaeth gan Gomisiynwyr Plant y Deyrnas Unedig a sefydliadau eraill ynghylch i ba raddau mae llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig yn llwyddo o ran hawliau plant.

Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaethon ni **gyhoeddi dau adroddiad** ar y cyd â Chomisiynwyr yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon, i'r Pwyllgor eu hystyried. Roedd y cyntaf yn adroddiad gyda rhestr o'r pethau roedd pawb ohonon ni'n teimlo oedd y materion pwysicaf roedd plant a phobl ifanc yn y Deyrnas Unedig yn eu hwynebu, i'r Pwyllgor ei ystyried; tra bod yr ail yn adroddiad ar brofiadau pobl ifanc, a lywiyd trwy ymgynghori â phobl ifanc ar draws y Deyrnas Unedig.

Dyma rai o'r materion allweddol gafodd eu nodi yn yr adroddiad cyntaf:

- Effaith y pandemig ar hawliau plant yn y Deyrnas Unedig
- Yr angen i lywodraethau gyflwyno deddfau newydd sy'n golygu bod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig yn cael ei ymgorffori'n llawn i gyfraith Cymru, sy'n golygu bod angen i bob corff cyhoeddus ddangos sut maen nhw'n cyflawni gofynion y Confensiwn
- Yr angen i lywodraethau daclo tlodi plant.

Dyma rai o'r pethau dywedodd plant a phobl ifanc wrthyn ni eu bod nhw'n bwysig iddyn nhw:

- Dim digon o ymwybyddiaeth o hawliau plant
- Dyw pob plentyn a pherson ifanc ddim yn cael eu trin yn deg, a dyw eu barn ddim yn cael ei pharchu'n briodol
- Mae angen i lywodraethu weithredu ynghylch argyfwng yr hinsawdd
- Mae angen i lywodraethau wneud mwy i ddiogelu plant rhag trais; i gefnogi plant ag anabledau, sydd angen help gyda'u hiechyd meddwl, sy'n byw mewn tlodi neu sy'n dioddef camwahaniaethu mewn modd arall, oherwydd ethnigrwydd neu rywioldeb, er enghraifft.

Bellach mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi eu **Rhestr eu hunain o Faterion** ar sail beth ddwedson ni ac eraill wrthyn nhw. Roedden ni'n falch o weld llawer o'r materion a godwyd yn y ddau adroddiad ar y Rhestr hon. Y cam nesaf fydd bod llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig yn ymateb i argymhellion y Pwyllgor, ac mae'n rhaid iddyn nhw wneud hynny erbyn mis Mehefin 2022.

Gwaith o ddydd i ddydd

Rydyn ni'n dal i weithredu oddi mewn i fframwaith hawliau plant ein hunain.

Prif bwrpas ' **Y Fford Gywir**: Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru' yw annog cyrff a sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru i fabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant a fydd, yn ei dro, yn helpu i gyflawni newidiadau gwirioneddol yn ansawdd bywyd pob dydd plant, a chyfle cyfartal i gyflawni eu potensial. Rydyn ni wedi ymrwymo i lynu at bum egwyddor y fframwaith ein hunain. Gallwch chi ddarllen mwy am y cynnydd rydyn ni wedi'i wneud ar dudalen 52.

Rydyn ni'n dal i roi pwysau ar y Llywodraeth ac eraill i gyflawni eu haddewidion i blant a phobl ifanc, trwy ein gwaith polisi a materion cyhoeddus.

Mae ein cerdyn adroddiad ar dudalen 59 ymlaen. yn amlgu'r gwaith dylanwadu sylweddol a gyflawnwyd gan ein tîm polisi o 5 ymgynghorydd eleni.

Dysgu, deall a phrofi hawliau

Pa broblem soniodd plant a phobl ifanc wrthyn ni amdani?

Mae plant, rhieni a gweithwyr proffesiynol yn galw'n gryf am sicrhau bod ysgolion yn ganolfannau rhagoriaeth ar gyfer llesiant, cynhwysiant, ac er mwyn paratoi plant Cymru i fod yn ddinasyddion sy'n gwneud cyfraniadau cadarnhaol i'r gymdeithas. Mae hynny'n golygu eu bod yn cael cefnogaeth emosiynol, eu bod yn dysgu am gydberthynas iach ag eraill ac yn profi hynny, a'u bod yn deall ac yn parchu hawliau dynol pobl o wahanol gefndiroedd.

Datgelodd ein hadolygiad o'r dystiolaeth a'n hymgyngoriad fod bwlio'n dal yn destun pryder i blant a phobl ifanc.

Dyma beth wnaethon ni am y sefyllfa:

Blochau Adeiladu

Mewn ymateb i duedd a nodwyd trwy ein gwasanaeth ymchwiliadau a chyngor, cynhaliodd y fîm ymchwiliad o waharddiadau mewn addysg Cyfnod Sylfaen (3-7 oed) ledled Cymru. Roedd y gwaith yn cynnwys dadansoddiad o 21 o achosion, arolwg o bob awdurdod lleol yng Nghymru, grwpiau ffocws gyda gweithwyr addysg proffesiynol a gwaith cyfranogol. Mae **'Blochau Adeiladu: Cynhwysiant yn y Cyfnod Sylfaen'** yn cyflwyno canfyddiadau'r gwaith ymchwil yma, ac yn datgelu **768 o achosion o waharddiadau yr adroddwyd amdanynt mewn perthynas â phlant Cyfnod Sylfaen yn 2018-9**. Mae'r ffigur gwirioneddol yn debygol o fod yn uwch, gan na ddarparwyd data gan bob awdurdod lleol.

Datgelodd ymchwiliadau hefyd fod **naw plentyn Cyfnod Sylfaen fesul awdurdod, ar gyfartaledd, wedi cael eu gwahardd fwy nag unwaith**, a bod un plentyn wedi cael ei wahardd 18 gwaith yn ystod un cyfnod o flwyddyn. Gallwch chi ddarllen mwy am y gwaith yma ar dudalen 87.

Prosiect Pleidleisio

Fe wnaethon ni gynllunio a chynnal yr etholiad paralel cyntaf erioed i'r Senedd eleni ar gyfer pobl ifanc 11-15 oed. Cafodd bron 10,000 o bleidleisiau eu bwrw mewn 36 o'r 40 etholaeth yng Nghymru, sy'n golygu bod mwy nag 1 o bob 20 person ifanc 11-15 oed yng Nghymru wedi cymryd rhan. Crewyd safle benodol – www.projectvote.wales – ac roedd yn cynnwys adnoddau hygyrch wedi'u teilwra i baratoi pobl ifanc i gymryd rhan yn yr etholiad paralel. Cafodd yr adnoddau a'r cyflwyno eu datblygu a'u peilota mewn ymgynghoriad â phobl ifanc a grŵp cyfeirio o ysgolion oedd yn gwasanaethu cymunedau amrywiol. Rydyn ni'n ddiolchgar iawn am eu hymroddiad yng nghanol heriau'r pandemig, yr oedd ysgolion yn ymdopi â nhw ar y pryd.

Roedd ein pecyn o gefnogaeth i ysgolion yn cynnwys:

- Gwersi dwyieithog, rhyngweithiol, parod i'w cyflwyno. Fe wnaethon ni hefyd ddatblygu gwersi hygyrch i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Gweminarau am ddim i bobl ifanc, gan gynnwys sesiwn 'Marw i Bleidleisio' ar hanes pleidleisio gyda'r Athro Laura McAllister.
- Deunyddiau creadigol i ddysgu am etholiadau a'r Senedd i blant o bob oed.

Dyma beth adborth gan athrawon a fu'n cymryd rhan:

"Mae gan y myfyrwyr lawer mwy o ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth, ac maen nhw'n cwestiynu'r syniad y dylech chi'n syml ddilyn patrwm eich rhieni wrth bleidleisio. Mae hyn wedi bod yn eithriadol o bwerus o ran rhoi cyfrifoldeb cymdeithasol iddyn nhw a'u helpu i weld gwerth pleidleisio."

"Cipolwg ffres ar wleidyddiaeth i'm pobl ifanc 14/15 oed. Cawson nhw gyfle i deimlo'n bwysig a'u bod yn cael eu clywed."

Gwaith o ddydd i ddydd

'Fi yw Fi'

Nod yr adnodd hon, a grewyd yn sgîl ein gwaith blaenorol ar fwlio, a phrotestiadau Mae Bywydau Du o Bwys (BLM) yn 2020, oedd taclo stereoteipiau a dathlu amrywiaeth Cymru. Roedd ein panel pobl ifanc yn awyddus i hyrwyddo mwy o waith ar amrywiaeth a goddefgarwch, ac fe fuon nhw'n cyflawni rôl allweddol trwy roi cyngor ar y gwaith hwn.

Mae'r **adnodd** yn cynnwys cynllun gwerau a fideos o grwpiau o bobl ifanc sydd â gwahanol nodweddion yn trafod y stereoteipiau maen nhw'n eu hwynebu fel aelod o'r grŵp dan sylw, yn ogystal â phethau maen nhw'n mwynhau eu gwneud fel unigolion. Defnyddiwyd yr adnodd fel rhan o Dasg Arbennig yr hydref i'n hysgolion Llysgenhadon a'n cynlluniau Llysgenhadon Cymunedol. Cafodd plant eu hannog i ddefnyddio'r adnoddau a chreu rhywbeth i ddathlu eu hunaniaeth eu hunain mewn ymateb i'r hyn roedden nhw wedi'i weld.

Cafodd yr adnodd hwn ei ddefnyddio'n eang mewn ysgolion a grwpiau cymunedol yn hydref 2020, ac mae'n dal ar gael ar ein gwefan.

Byddwn ni'n parhau i recriwtio i'n cynlluniau Llysgenhadon Gwych, Llysgenhadon Myfyrwyr a Llysgenhadon Cymunedol ac yn eu cefnogi.

Rydyn ni'n cynnal **tri chynllun** di-dâl sy'n grymuso plant a phobl ifanc i ddod yn Llysgenhadon i'r Comisiynydd yn eu hysgol neu eu grŵp cymunedol. Mae Llysgenhadon yn chwarae rôl arweiniol wrth hyrwyddo hawliau plant a rôl y Comisiynydd. Mae'r cynlluniau hefyd yn galluogi miloedd o blant a phobl ifanc i fwydo i waith y swyddfa trwy Dasgau Arbennig (ffordd systematig o ymgynghori ag ystod o blant a phobl ifanc a chael ein llywio ganddyn nhw ynghylch materion sy'n gysylltiedig â gwaith thematig y swyddfa).

Eleni roedd 336 o ysgolion Llysgenhadon Gwych (cynradd) a 44 o ysgolion Llysgenhadon Myfyrwyr (uwchradd) wedi ymuno â'n cynlluniau, a hynny er gwaethaf y galwadau ychwanegol ar ysgolion yn sgîl pandemig y Coronafeirws. Fe wnaethon ni ofyn i ysgolion ailgofrestru yn ystod haf 2020 i sicrhau bod gennym ni ddarlun cywir o nifer yr Ysgolion Llysgenhadon sy'n weithredol.

Fe wnaethon ni ddal ati i osod tasgau tymhorol yn ystod y flwyddyn ysgol, ac fe gawson ni ymateb gwych i bob un o'r tair tasg. Buon ni hefyd yn cynnal sesiynau ffrydio byw gyda'r Comisiynydd, yn lle ein digwyddiadau hyfforddi wyneb yn wyneb arferol, a bu 93 o ysgolion cynradd ac 11 o ysgolion uwchradd yn ymuno yn y rhain.

Fe gynhalion ni sesiwn yn ystod tymor yr hydref 2020 i athrawon o'n hysgolion Llysgenhadon uwchradd gwrdd â'r Comisiynydd er mwyn tynnu sylw at unrhyw heriau roedden nhw'n eu hwynebu ar ôl dychwelyd i addysgu wyneb yn wyneb.

Bu ein hysgolion Llysgenhadon a'n grwpiau llysgenhadon cymunedol yn chwarae rôl hanfodol yn ein cyfres o arolygon 'Coronafeirws a Fi' eleni, gan ein galluogi i gasglu barn plant a phobl ifanc ar draws y wlad.

Gwaith o ddydd i ddydd

Hybu hawliau plant ymhlith gweithwyr proffesiynol

Cymwysterau Cymru

Gofynnodd Cymwysterau Cymru am ein cyngor wrth ddatblygu achos busnes ar gyfer sefydlu grŵp ymgynghorol pobl ifanc. Ar ôl i hyn gael ei gymeradwyo, fe wnaethon ni gwrdd â staff o Cymwysterau Cymru i gynnig cyngor ar elfennau ymarferol cynnal panel ymgynghorol pobl ifanc, gan gynnwys sicrhau bod y panel yn amrywiol ac yn gynhwysol, gan rannu enghreifftiau o'n ffurflen gais a'n cylch gorchwyl. Buon ni'n cynnal adolygiad cymheiriaid o'u hysbyseb, eu ffurflen gais, a dogfennau eraill cyn eu cyhoeddi, ac yn cwrdd â staff i roi cyngor ar hyfforddiant a pholisiau diogelu.

Ambiwllans Sant Ioan Cymru

Buon ni'n gweithio gyda thîm Ambiwllans Sant Ioan Cymru i greu pecynnau gweithgaredd ar gyfer eu grwpiau Moch Daear a Chadetiaid. Roedd hyn yn dilyn ymlaen o lwyddiant bathodynau Sgowtiaid a Geidiau Cymru, a ddatblygwyd gan y swyddfa y llynedd. Bu staff cyfranogiad hefyd yn cyflwyno hyfforddiant hawliau plant ar-lein i arweinyddwyr Ambiwllans Sant Ioan Cymru. Fel rhan o'r hyfforddiant, bu'r arweinyddwyr yn ystyried yr hawliau sy'n berthnasol iddyn nhw yn eu rôl, a sut gallen nhw gefnogi plant a phobl ifanc i ddysgu mwy am eu hawliau.

Hyfforddiant i staff Addysg mewn cysylltiad â Gwasanaeth Seicoleg Gwent

Gan weithio mewn partneriaeth â Thîm Seicoleg Gwent fel rhan o'n prosiect Ymddygiad a Chynhwysiad, creodd ein swyddogion cyfranogiad sesiwn hyfforddi unigryw ar hawliau plant ac anghenion seicolegol. Mae'r hyfforddiant yn canolbwyntio ar ddatblygiad plant, gan gynnwys theori ymlyniad ac ystyried hawliau plant yn y cyd-destun hwnnw. Yn dilyn digwyddiad peilot, cyflwynwyd yr hyfforddiant i athrawon o'r gwasanaeth addysg integredig EAS yng Ngwent, a bydd yn cael ei gynnig i gonsortia eraill yn ystod y flwyddyn sy'n dod.

Hyfforddiant i athrawon Consortia Addysg

Mae'r tîm wedi darparu hyfforddiant ar hawliau plant i gonsortia addysg ledled Cymru. Fe wnaethon ni gyflwyno hyfforddiant dwyieithog ar hawliau plant i wasanaeth effeithiolrwydd a gwella ysgolion gogledd Cymru, GwE, gan gynnwys 40 o athrawon GwE ac yna ar wahân i fwy na 50 o athrawon GwE oedd newydd gymhwyso. Bu'r tîm hefyd yn cyflwyno sesiwn ar Lais y Disgybl i staff o'r holl gonsortia rhanbarthol yn ystod Wythnos Genedlaethol Ffocws ar y Grant Datblygu Disgyblion (PDG).

Hyfforddiant i athrawon ysgolion Dydd a Phreswyl

Cyflwynwyd sesiwn hyfforddi unigryw hanner diwrnod ar wreiddio diwylliant o hawliau plant mewn ysgol i dîm staff ysgol gyfan mewn ysgol fawr oedd â disgyblion dydd a phreswyl. Roedd yr ysgol wedi gofyn am yr hyfforddiant wedi i ni ymwneud ag achos i'r gwasanaeth ymchwiliadau a chyngor yn yr ysgol.

Gwaith o ddydd i ddydd

Hawl y Mis

Er mwyn hybu CCUHP, addasodd y fîm ddull gweithredu Hawl y Mis sy'n cael ei ddefnyddio mewn llawer o ysgolion ledled Cymru fel ffordd ddefnyddiol o amlygu a chysylltu rhai erthyglau o CCUHP ar draws amserlen y flwyddyn.

Mae staff cyfranogiad wedi creu fideos misol diddorol sy'n cwmpasu'r holl gyfnodau allweddol. Mae'r fideos yn canolbwyntio ar hawl wahanol bob mis, ac yn gosod gweithgaredd, her neu gwestiwn i'w ystyried ar gyfer y plant.

Gwaith cyfathrebu

Mae bod yn ffynhonnell gwybodaeth ddibynadwy a hygyrch a bod yn llefarydd dibynadwy, hygyrch ar faterion sy'n effeithio ar fywydau plant yn ddwy elfen hollbwysig o'n gwaith cyfathrebu.

Yn ystod y flwyddyn ddigynsail hon, buon ni'n ymdrechu i wneud y canlynol:

- Darparu gwybodaeth ddibynadwy, hygyrch, wedi'i diweddarau i blant a'u teuluoedd trwy hwb gwybodaeth, ac annog eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Chymwysterau Cymru, i wneud yr un peth. Rhai o uchafbwyntiau'r gefnogaeth hon oedd cynhadledd fyw i'r wasg gan Lywodraeth Cymru, a ddarledwyd ar BBC Wales i bobl ifanc, lle bu'r Gweinidog Addysg yn ymateb i gwestiynau gan bobl ifanc, gyda chynnwys wedi'i fwriadu ar gyfer dysgwyr gan Brif Weithredwr Cymwysterau Cymru;
- Rhoi golwg gytbwys ar y newidiadau i'n bywydau yn ystod cyfweiliadau â'r cyfryngau. Eleni, fe welson ni gynnydd mewn diddordeb gan allfeydd cyfryngau cenedlaethol y Deyrnas Unedig, o ganlyniad i'r dull datganoledig o ddelio â'r pandemig. Ymhlith sylw a roddwyd i ni 400+ o weithiau, ymddangosodd y Comisiynydd ar BBC Breakfast, BBC News Channel, Start the Week ar Radio 4, ac mewn erthygl yn y Guardian.
- Fe wnaethon ni benderfyniad ymwybodol eleni i beidio â sôn yn gyhoeddus yn y cyfryngau am yr holl faterion oedd yn destun pryder i ni, er mwyn osgoi achosi braw a dryswch. Yn hytrach, buon ni'n gweithio gyda'r sefydliadau oedd yn gwneud penderfyniadau hanfodol ar y materion hyn i sicrhau newid, a buon ni'n codi llais yn gyhoeddus pan oedden ni'n teimlo y gallai gwneud hynny ddylanwadu ar newid.
- Hyrwyddo barn plant ym mhopeth a wnaethon ni, a chefnogi eraill i wneud yr un peth. O ganlyniad i'r gefnogaeth hon, fe wnaethon ni gynnal sesiwn Holi ac Ateb ar arholiadau i'r Gweinidog Addysg gyda phobl ifanc, a chynyddu ein hymgysylltiad â'n panel ymgynghorol pobl ifanc i lefel fisol (yn hytrach na phob chwarter).

Diogelu hawliau, ble bynnag rydych chi

Pa broblem soniodd plant a phobl ifanc wrthyn ni amdani?

Daeth pwysigrwydd cadw plant yn ddiogel rhag niwed neu gamdriniaeth i'r amlwg fel prif flaenoriaeth neu flaenoriaeth ar y brig ar draws y rhan fwyaf o grwpiau oedran yn Beth Nawr, o blant 3 oed hyd at weithwyr proffesiynol.

Roedd pryder cyffredinol hefyd ynghylch grwpiau o blant sy'n wynebu cyfleoedd anghyfartal oherwydd tlodi, anabledd, anawsterau iechyd meddwl a phroblemau teulu, o Beth Nawr ac ymgynghoriadau wyneb yn wyneb gyda phlant ac oedolion.

Datgelodd ein hadolygiad o'r dystiolaeth anghydraddoldeb oedd yn cael ei achosi gan dlodi hefyd fel her sylweddol i Gymru, ochr yn ochr â heriau cefnogi iechyd meddwl plant a'r rhai ag anableddau.

Dyma beth wnaethon ni:

Dim Drws Anghywir – dod â gwasanaethau ynghyd i ddiwallu anghenion plant

Ym mis Mehefin 2020, fe wnaethon ni gyhoeddi ein hadroddiad: **Dim Drws Anghywir – dod â gwasanaethau ynghyd i ddiwallu anghenion plant.**

Mae'r adroddiad yn nodi pam mae ar Gymru angen dull 'dim drws anghywir' o ymdrin â iechyd meddwl a llesiant, ac mae'n cynnwys enghreifftiau o arfer da ledled Cymru lle mae hyn yn dechrau digwydd. Mae dull 'dim drws anghywir' yn golygu bod gwasanaethau'n cydweithio i sicrhau, pan fydd plant yn gofyn am help, beth bynnag yw'r rhesymau am eu trallod, na ddylen nhw glywed eu bod wedi dod i'r lle anghywir, na theimlo eu bod wedi curo ar y 'drws anghywir'. Yn hytrach, dylen nhw gael eu cefnogi gan wasanaethau sy'n dod ynghyd i ddiwallu eu hanghenion yn ddi-fwlch.

Canfu'r adroddiad nad oedd digon o ffocws ar anghenion plant a phobl ifanc, a bod angen llawer o welliant, ond bod rhai pethau calonogol yn digwydd ym mhob rhanbarth.

Gwnaeth yr adroddiad gyfres o argymhellion i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) yng Nghymru. BPRhau sy'n gyfrifol am sicrhau bod gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol ac eraill yn cydweithio er lles y boblogaeth yn eu hardal. Fe wnaeth argymhellion hefyd i Lywodraeth Cymru ynghylch sut i'w cefnogi i wneud gwelliannau.

Bydd y Comisiynydd yn cwrdd â phob BPRh yn haf/hydref 2021 i ddarganfod beth maen nhw'n ei wneud i gyflawni ein hargymhellion. Hefyd bydd pobl ifanc yn cael cyfle i graffu'n uniongyrchol ar y Byrddau yn yr hydref.

Yn 2021/22 byddwn ni'n cydweithio'n agos â'r Rhaglen T4CYP a'u fframwaith NYTH ar gyfer BPRhau. Dull systemau cyfan o ymdrin â iechyd meddwl a llesiant yw fframwaith NYTH, ac mae'n rhannu egwyddorion dull gweithredu Dim Drws Anghywir.

Adolygiad o sut bu Llywodraeth Cymru yn ymarfer ei swyddogaethau: Addysgu Gartref ac Ysgolion Annibynnol

Elfen greiddiol o'n cynllun strategol tair blynedd cyfredol yw parch at hawliau plant ym mhob lleoliad addysg. Mewn adroddiadau blynyddol dilynol rydyn ni wedi nodi pryderon ynghylch diffyg gweithredu o ran canllawiau statudol ar gyfer dewis addysgu gartref, ac yn adroddiad y llynedd fe fuon ni'n cofnodi pryderon ynghylch diogelu hawliau plant mewn ysgolion annibynnol.

O ganlyniad, bu'n rhaid i'r swyddfa fynd ati i ddefnyddio ein pwerau cyfreithiol yn ffurfiol, er mwyn adolygu sut bu Llywodraeth Cymru yn 'ymarfer eu swyddogaethau' (camau gweithredu/hepgoriadau) pan gawson ni wybod ym mis Mehefin 2020 na fyddai gwaith yn y ddau faes yma'n symud ymlaen oherwydd y pandemig. Ni chynhaliwyd asesiad effaith ar hawliau plant, na'u hystyried, cyn gwneud y penderfyniad hwn.

>>>

Adolygiad o sut bu Llywodraeth Cymru yn ymarfer ei swyddogaethau: Addysgu Gartref ac Ysgolion Annibynnol

Elfen greiddiol o'n cynllun strategol tair blynedd cyfredol yw parch at hawliau plant ym mhob lleoliad addysg. Mewn adroddiadau blynyddol dilynol rydyn ni wedi nodi pryderon ynghylch diffyg gweithredu o ran canllawiau statudol ar gyfer dewis addysgu gartref, ac yn adroddiad y llynedd fe fuon ni'n cofnodi pryderon ynghylch diogelu hawliau plant mewn ysgolion annibynnol.

O ganlyniad, bu'n rhaid i'r swyddfa fynd ati i ddefnyddio ein pwerau cyfreithiol yn ffurfiol, er mwyn adolygu sut bu Llywodraeth Cymru yn 'ymarfer eu swyddogaethau' (camau gweithredu/hepgoriadau) pan gawson ni wybod ym mis Mehefin 2020 na fyddai gwaith yn y ddau faes yma'n symud ymlaen oherwydd y pandemig. Ni chynhaliwyd asesiad effaith ar hawliau plant, na'u hystyried, cyn gwneud y penderfyniad hwn.

Hwn oedd y tro cyntaf i'r Swyddfa ddefnyddio'r pŵer penodol hwn yng nghyswllt Llywodraeth Cymru. Gan fod yr ymateb i'r pandemig yn parhau, fe benderfynon ni gynnal yr adolygiad ar ffurf ymarferiad cyflym ar bapur, a gychwynnodd ym mis Medi 2020 a dod i ben ym mis Rhagfyr 2020. Rhannwyd adroddiad drafft gyda Llywodraeth Cymru yn gynnar ym mis Ionawr 2021, a chyhoeddwyd yr adroddiad ac atodiadau llawn o'r gwaith a wnaed ym mis Chwefror 2021.

Roedd y dull gweithredu hwn yn golygu bod modd i ni gynnal yr Adolygiad hwn ochr yn ochr â'n gwaith craidd a phrosiect oedd eisoes wedi'i gynllunio ar gyfer y flwyddyn, ac yn golygu hefyd nad oedden ni'n torri ar draws ymateb y Llywodraeth i'r pandemig. Roedd hefyd yn rhoi cyfle i ni adolygu papurau cyfamserol a oedd yn dangos sut gwnaed penderfyniadau, yn hytrach na gofyn am dystiolaeth newydd ar adeg yr Adolygiad a allai fod wedi cyflwyno darlun neu ddull gweithredu gwahanol. Canfu'r Adolygiad nad oedd y Llywodraeth wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau cyfreithiol o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, i ddiogelu a chynnal hawliau plant yn eu gwaith. Roedden nhw wedi cyflawni llawer o weithgaredd, ond yn y pen draw nid oedd unrhyw newidiadau wedi cael eu cyflwyno i ddiogelu plant yn y lleoliadau hyn, ac i sicrhau eu bod yn cael mynediad i'w holl hawliau.

Cyflwynwyd cyfres o argymhellion, gan gynnwys: newid deddfwriaethol i'r ddau faes polisi, ystyried sut mae'r Llywodraeth yn gweithio ar draws adrannau i gynnal hawliau plant, sut maen nhw'n symud ymlaen gydag ymgynghoriadau polisi, sut mae gwersi o Adolygiadau Ymarfer Plant yn destun gweithredu, a sut mae angen addasu pwerau'r Comisiynydd ei hun er mwyn cefnogi'n llawn ymarfer ei rôl fel pencampwr plant annibynnol ym mhob lleoliad ledled Cymru.

Derbyniodd y Llywodraeth y rhan fwyaf o'r argymhellion yn eu hymateb ffurfiol i'r adolygiad ym mis Mawrth 2021. Er nad oedd modd derbyn rhai o'r argymhellion yn llawn bryd hynny heb wneud ymrwymadau ar ran y Llywodraeth newydd, mae'r ffaith bod Llywodraeth Lafur wedi parhau yng Nghymru yn golygu bod modd symud ymlaen yn gyflym gyda gwaith a oedd eisoes wedi cychwyn. Roedden ni hefyd yn falch o weld ailsefydlu grŵp o uwch-swyddogion o fewn y Llywodraeth i drafod materion trawsbynciol a sicrhau nad yw pethau'n syrthio rhwng dwy adran neu ddau bortffolio.

Byddwn ni'n parhau i bwysu ar y Llywodraeth newydd am newidiadau cyflym yn y ddau faes polisi yma, ac mae hynny'n cynnwys trafodaeth barhaus ar yr argymhellion oedd heb eu derbyn.

Prosiect

Allbynnau

Cefnogi plant a phobl ifanc b/Byddar

Mae'r gymuned f/Fyddar wedi rhannu eu rhwystredigaeth gyda ni, dros nifer o flynyddoedd, nad yw anghenion y gymuned yn derbyn sylw. Fe wnaethon ni benderfynu cynnal sesiwn bord gron gyda gweithwyr proffesiynol a phlant a phobl ifanc o'r gymuned f/Fyddar ym mis Chwefror, pryd y gofynnwyd i'r rhai oedd yn bresennol rannu eu profiadau a'u barn ynghylch cynnydd, rhwystrau sy'n parhau a bylchau yn y ddarpariaeth.

Wedi'r ford gron, fe wnaethon ni gysylltu â Llywodraeth Cymru i rannu'r adborth gawson ni a gofyn iddyn nhw am ddiweddariad ar y gwaith roedden nhw wedi bod yn ei wneud mewn perthynas â'r materion a godwyd, yr oedden ni wedi tynnu sylw atyn nhw'n wreiddiol yn adroddiad blynyddol 2016/17.

Fe ddefnyddion ni hefyd wybodaeth roedden ni wedi'i derbyn yn ystod y cyfarfod i helpu i lywio ein hymatebion ymgynghori i ddau ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru: "Canllawiau Cwricwlwm i Gymru: iaith arwyddion Prydain" a "Cymwys ar gyfer y dyfodol – dweud eich dweud".

Yn olaf, fe fuon ni'n trafod gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (EWC) y pryderon oedd wedi cael eu codi gyda ni ynghylch safon ac ansawdd BSL ar gyfer gweithwyr proffesiynol addysg arbenigol.

5Hawl / 5Rights

Eleni gwelwyd Pwyllgor y CU ar Hawliau Plant yn mabwysiadu Sylw Cyffredinol ar hawliau plant ar-lein. Mae'r Sylw'n gwneud hi'n gwbl glir am y tro cyntaf bod hawliau plant yn gweithredu o fewn y byd digidol.

Fe wnaethon ni ddarparu cyllid i Sefydliad 5Rights greu fersiwn pobl ifanc o Sylw Cyffredinol rhif 25 a chynghori'r Sefydliad ynghylch creu fersiwn hygrych ohono. Bydd yr adnoddau'n cael eu cyfieithu i sawl iaith, gan gynnwys y Gymraeg.

Gwaith o ddydd i ddydd

Rydyn ni'n parhau i wrando ar blant a phobl ifanc a allai fod yn arbennig o agored i niwed trwy ein cynllun Llysgenhadon Cymunedol.

Mae ein **rhaglen** Llysgenhadon Cymunedol hefyd wedi parhau eleni, er gwaethaf cyfyngiadau a heriau'r cyfnod clo. **Llysgenhadon Cymunedol** yw plant a phobl ifanc sydd wedi gwirfoddoli fel aelodau o'u grŵp cymunedol lleol neu eu grŵp diddordeb arbennig. Mae hyn yn cynnwys fforymau ieuentid, grwpiau gofawyr ifanc a grwpiau ar gyfer plant sydd â phrofiad o ofal. Maen nhw wedi bod o gymorth mawr yn bwydo i mewn i lawer o'n prosiectau eleni, gan gynnwys prosiect monitro'r CU, Y Ffordd Gywir i Ofal Cymdeithasol, Dyma Fi , a sesiynau hawl i holi gyda'r Gweinidog Addysg, Kirsty Williams. Rydyn ni wedi addasu ein gwaith i sicrhau ein bod ni'n dal mewn cysylltiad â grwpiau, ac wedi cwrdd ar-lein, gan anfon heriau a gweithgareddau hawliau atyn nhw, a pharhau i helpu i addysgu plant a phobl ifanc am eu hawliau.

Rydyn ni'n dal i gadeirio'r Ford Gron ar Gam-drin ac Ecsbloetio Plant yn Rhywiol.

Mae'r swyddfa'n dal i gynnal bord gron amlasiantaeth ddwywaith y flwyddyn, yn rhoi sylw i Gam-drin Plant yn Rhywiol, gyda ffocws penodol ar ecsbloetio plant yn rhywiol.

Yn ystod eleni, cafwyd cyflwyniadau gan Lywodraeth Cymru ar eu hymgyrch ddiogelu yn 2020 ac ar eu gwaith Gwydnwch Digidol mewn Addysg, gan Uned Atal Trais Heddlu De Cymru ar eu gwaith hwythau, gan sawl heddlu ynghylch y gefnogaeth i deuluoedd pan gaiff rhiant ei arestio yng nghyswllt delweddau anwedus, a chan bartneriaid prosiect yr ymchwiliad Understanding the Triggers - the Correlation between Vulnerability, Criminality and Exploitation of Children yn ardal Gwent.

Mae cyflwyniadau o'r fath wedi llywio gwaith y sefydliadau cyfranogol, ac maen nhw'n parhau i ysgogi trafodaeth a rhannu gwybodaeth ar draws y grŵp.

Mae'r Swyddfa wedi cyfrannu'n ogystal at astudiaeth ddichonoleb y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar arolwg plant yn mesur cam-drin plant yn y Deyrnas Unedig. Cafodd ein hymateb i'r ymgynghoriad ei lywio gan drafodaethau o'r ford gron. Fe wnaethon ni amlygu pwysigrwydd cynnwys plant yn y trafodaethau mewn ffordd sensitif er mwyn llywio'n llawn a oedden nhw am fod yn rhan o'r ymgynghori ar y pwnc hwn, a sut. Fe wnaethon ni godi'r angen hefyd am sicrhau bod unrhyw waith o'r fath yn cael ei integreiddio â'r cwricwlwm newydd yng Nghymru, neu'n cydweddu ag ef, a hefyd ag unrhyw fecanweithiau arolygon plant sydd eisoes yn bodoli.

Rydyn ni hefyd wedi bod mewn trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth Cymru ynghylch cefnogaeth i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin rhywiol, gan gynnwys plant. Yn dilyn ymweliad â'r Goleudy (Lighthouse), gwasanaeth amlasiantaeth i blant a phobl ifanc sydd wedi profi unrhyw fath o gam-drin rhywiol yn Llundain, rydyn ni wedi bod yn archwilio'r ddarpariaeth gyfredol yma yng Nghymru, gyda golwg ar greu math tebyg o wasanaeth, sy'n cynnig dull gweithredu plentyn-ganolog, arweiniad a chefnogaeth i helpu plant a phobl ifanc i gael adferiad. Gyda chymorth aelodau ein bord gron, rydyn ni wedi cyflwyno cymhariaeth o'r ddarpariaeth bresennol yng Nghymru (Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) Ynys Saff) a SARC Gogledd Cymru â'r ddarpariaeth yn y Goleudy. Rydyn ni wedi nodi'n arbennig fylchau yn y gallu i gefnogi anghenion therapiwtig plant a theuluoedd yn dilyn digwyddiad, ehangder y gwasanaethau ar y safle, diffyg amgylchedd croesawgar i blant, a chefnogaeth aciwt i bobl ifanc hyd at 25 oed o dan rai amgylchiadau.

>>>

Gwaith o ddydd i ddydd

Rydyn ni'n dal i gadeirio'r Ford Gron ar Gam-drin ac Ecsbloetio Plant yn Rhywiol.

Mae pryderon ynghylch mynediad plant at ddarpariaeth SARC yn agos at eu cartref ac mewn modd prydlon wedi derbyn sylw mewn adroddiadau blynyddol blaenorol; nawr bod cyfle i greu darpariaeth newydd yng Nghaerdydd mae'n hanfodol ein bod yn archwilio'r holl bosibiliadau er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth a'r gofal gorau posibl i blant yn yr amgylchiadau anodd hyn.

Yn olaf, o ganlyniad i rannu gwybodaeth amlasiantaeth, rydyn ni wedi gallu cefnogi ymgyrch 'Close the Loophole' yr NSPCC. Nod yr ymgyrch yw dileu'r sefyllfa afreolaidd lle gallai oedolyn mewn swydd ag ymddiriedaeth, megis hyfforddwr chwaraeon, fod mewn perthynas â pherson ifanc 16 neu 17 oed o'u clwb, er gwaethaf gwaharddiadau ar sefyllfaoedd tebyg i swyddi fel athrawon. Rydyn ni'n falch o nodi bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cyhoeddi ym mis Mawrth 2021 eu bod yn bwriadu estyn cyfraith Swyddi ag Ymddiriedaeth (Positions of Trust) i hyfforddwyr chwaraeon ac arweinwyr ffydd.

Yn ogystal â gwaith y ford gron, darparodd y Comisiynydd ddau gyflwyniad ysgrifenedig i'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA) ac ymddangosodd fel tyst yn Ymchwiliad Ysgolion Preswyl IICSA ym mis Tachwedd 2020, ochr yn ochr â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

Ymchwiliadau annibynnol

Ymchwiliadau Annibynnol

Rydyn ni wedi mynd ar ôl argymhelliaid yn adroddiad y llynedd ynghylch ymchwiliadau annibynnol pan gyhuddir aelod o staff ysgol o ymddygiad neu ymarweddiad amhriodol. Mae pob awdurdod lleol bellach wedi cadarnhau bod ganddyn nhw wasanaethau yn eu lle y gallan nhw gael mynediad iddynt, ac y byddan nhw'n gwneud hynny os bydd honiad yn codi yng nghyswllt aelod o staff yr ysgol. Roedd hon yn agwedd bwysig a gododd yn sgîl ymchwiliad **Clywch** y swyddfa hon, felly roedden ni'n falch o dderbyn y cadarnhad hwn y bydd yr ymchwiliadau annibynnol yn parhau.

Bod yn atebol i blant yng Nghymru

Pa broblem soniodd plant a phobl ifanc wrthyn ni amdani?

Mae'r gyfraith a sefydlodd y swyddfa yn datgan y dylai'r Comisiynydd ddiogelu a hybu hawliau a lles plant yng Nghymru. Yn ein barn ni, os yw'r Comisiynydd yn wir i fod yn bencampwr plant, mae'n rhaid iddi fod yn atebol i blant y wlad am y penderfyniadau a'r camau gweithredu a allai effeithio ar eu bywydau.

Dyma beth wnaethon ni am y sefyllfa:

Prosiect

Allbynnau

Adolygiad Llety

Rydyn ni wedi penderfynu symud i ganolfan newydd yn 2021. Mae gennym ni dîm prosiectau ar draws y sefydliad sy'n cydweithio i sicrhau bod y sefydliad yn cyflawni gwerth am y bunt gyhoeddus, yn lleihau ei effaith ar ein planed a'n hinsawdd, ac yn caniatáu i'r staff weithio mewn ffyrdd mwy hyblyg.

Gwaith o ddydd i ddydd

Adnoddau hygrych

Adnoddau Hygrych a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Chlwb Ieuenctid Cynhwysol Pen-y-bont ar Ogwr

Mae dau aelod o'n fîm Cyfranogiad wedi bod yn mynychu Grŵp Ieuenctid cynhwysol YMCA Pen-y-bont ar Ogwr yn rheolaidd, ac maen nhw wedi gallu gwella'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o anghenion dysgu'r bobl ifanc. Gan weithio ochr yn ochr ag aelodau'r clwb, maen nhw wedi addasu rhai o'n hadnoddau hygrych cyfredol, yn ogystal â diweddarau ein canllawiau ar gyfer sesiynau ADY.

Ymgysylltu â'r Senedd Ieuenctid

Mae'r Comisiynydd a'i thîm wedi parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â'n Senedd Ieuenctid yn ystod 2020-21. Roedd hyn yn cynnwys gwaith partneriaeth ar y ddau arolwg Coronafeirws a Fi.

Bu'r Comisiynydd yn cymryd rhan mewn sesiwn graffu ffurfiol gyda'r Senedd Ieuenctid ym mis Tachwedd 2021.

Cyhoeddi Coronafeirws a Ni

Mae ein hadroddiadau Coronafeirws a Ni wedi'u llunio i sicrhau bod y Comisiynydd a'i thîm wedi bod yn atebol i blant, pobl ifanc a'r cyhoedd yn gyffredinol yn ystod y pandemig, ac maen nhw'n rhoi cipolwg ar ein hymateb i'r pandemig.

Cefnogi plant a phobl ifanc unigol i gael mynediad i'w hawliau: ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor

Mae ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor yn un cyfrinachol, di-dâl, yng ngofal tri swyddog Ymchwiliadau a Chyngor ymroddedig. Ei fwriad yw cynghori a chefnogi plant a phobl ifanc neu'r rhai sy'n gofalu amdanyh nhw ac yn gweithio drostyn nhw, os byddan nhw'n teimlo bod plentyn wedi derbyn triniaeth annheg. Bu 663 o bobl yn cysylltu â'r gwasanaeth yn 2020-21, yn aml yn codi pryderon ynghylch mwy nag un mater.

Ar ben hynny, fe wnaethon ni ymateb yn ysgrifenedig i fwy na 200 o ymholiadau gan aelodau unigol o'r cyhoedd a gysylltodd â ni ynghylch rheolau a pholisïau yn ymwneud â'r pandemig. Roedd hynny'n golygu bod angen i'r fîm ddarparu cyngor cywir, wedi'i ddiweddarau, ynghylch y newidiadau parhaus i gyngor y llywodraeth (yn y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru) a chanllawiau mewn perthynas â'r pandemig. Cafodd y materion a godwyd gyda ni eu bwydo'n uniongyrchol i'r llywodraeth, naill ai trwy gysylltiad uniongyrchol â Gweinidogion a swyddogion neu trwy fynychu a chyfranogi mewn cyfarfodydd rheolaidd Llywodraeth Cymru i randdeiliaid.

Gwelwyd cynnydd yn nifer yr unigolion a fu'n cysylltu â ni o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, er gwaethaf gostyngiad yn nifer yr achosion newydd pan gychwynnodd y cyfnod clo cyntaf ddiwedd mis Mawrth 2020.

Pa faterion bu pobl yn cysylltu â ni yn eu cylch?

Mater	Achosion 2020/21	Achosion 2019/20
Addysg	369	424
Cwynion	82	90
Anghenion Addysgol Arbennig	82	102
Cyngor	77	79
Lleoliadau	17	26
Bwlio	5	21
Gwasanaethau Cymdeithasol	288	410
Cwynion	102	136
Cyngor	52	64

Mater	Achosion 2020/21	Achosion 2019/20
Darparu gwasanaeth	29	61
Lleoliadau	30	51
Eiriolaeth	29	
Diogelu	22	
Iechyd	80	109
Cwynion	18	31
Darparu gwasanaeth	19	17
CAMHS	12	24
Cyngor	16	14
Yr Amgylchedd	85	83
Cyfreithiol	79	91
Awdurdod lleol, materion eraill, gan gynnwys chwarae a'r amgylchedd	74	14
CAFCASS	13	12
Tai	12	35
Yr Heddlu	11	16
Lloches	1	9

Beth mae'r ffigurau hyn yn ei ddweud wrthyn ni?

Roedd yn drawiadol yn ystod y cyfnod yma, o gymharu â nifer yr achosion a gawson ni yn y swyddfa, oedd yn fwy eleni na'r llynedd, bod nifer y materion gwahanol a godwyd gyda ni gan bob unigolyn wedi gostwng yn eitha sylweddol. Allwn ni ond dyfalu beth achosodd hynny, ond effaith debygol y Coronafeirws a'r cyfnod clo ar unigolion oedd eu bod yn fwy tebygol o ganolbwyntio ar un mater penodol, a dymuno datrys hynny, yn hytrach na gofyn am help gyda nifer o faterion.

Yn ystod y cyfnod adrodd yma, bu'r fîm hefyd yn mireinio sut roedd gwybodaeth am faterion achosion yn cael ei chofnodi yn ystod y flwyddyn, er mwyn sicrhau ein bod ni'n casglu data mwy cyfoethog am faterion penodol. Mae casglu data o'r fath yn ein galluogi i nodi'n hawdd natur y mater penodol sy'n cael ei godi gyda ni, ac yn ein cynorthwyo i ddadansoddi achosion a thueddiadau, sy'n cael ei rannu gyda chydweithwyr rheoli a pholisi.

Sut bu pobl yn cysylltu â ni

Ffôn – 278

E-bost – 368

Llythyr – 13

**Unigolyn yn gofyn am gymorth
yn ystod digwyddiad ar-lein
neu gyfarfod – 4**

Beth mae'r ffigurau hyn yn ei ddweud wrthyn ni?

Er bod mwyafrif y cysylltiadau â'n gwasanaeth gwaith achosion yn dod trwy oedolion ar ran plentyn, fe welson ni nifer y plant a'r bobl ifanc oedd yn cysylltu â ni ynghylch eu sefyllfa bersonol yn dyblu, o 18 y llynedd i 37 eleni. Mae'n debygol mai'r rheswm am hyn yw'r cynnydd yn ein presenoldeb ar-lein yn ystod y flwyddyn, a dau arolwg sylweddol o farn plant a phobl ifanc ynghylch y Coronafeirws, oedd yn rhoi cyhoeddusrwydd eang i waith y swyddfa. Mewn rhai achosion, pan fydd oedolion yn cysylltu â ni yn y lle cyntaf ynghylch plentyn, bydd ein fîm yn siarad â'r plentyn neu'r person ifanc wedi hynny.

Roedd y ffigurau eraill yn cyfateb yn fras i flynyddoedd blaenorol.

Enghreifftiau o'r canlyniadau a gyflawnwyd gan ein gwasanaeth ymchwiliadau a chyngor:

Cydweithio i ddiwallu anghenion addysgol plentyn ag ADY.

PROBLEM:

Cysylltodd rhieni â ni oherwydd bod eu plentyn wedi bod allan o'r ysgol am rai misoedd, ac wedi bod ar amserlen lai cyn hynny, oedd yn golygu nad oedd y plentyn wedi bod yn derbyn addysg briodol nac amser llawn am gyfnod sylweddol.

Roedd ysgol ddalgyrch leol y plentyn wedi penderfynu na allen nhw ddiwallu anghenion y plentyn, ond ar y cychwyn roedd Adran Gynhwysiad yr awdurdod addysg lleol am gynnal y plentyn yno, gyda pheth cefnogaeth ychwanegol. Roedd y rhieni'n cytuno â'r ysgol na fyddai'r plentyn yn cael cefnogaeth briodol yn yr ysgol, gan fod yr ysgol wedi methu ymdopi â rheoli amserlen lai gyda chefnogaeth yn flaenorol.

Hefyd roedd yr asesiad statudol a gynhaliwyd, i asesu anghenion dysgu ychwanegol y plentyn, yn cymryd amser hir i'w gwblhau, ac roedd wedi mynd heibio i'r terfynau amser statudol.

GWEITHREDU:

Fe fuon ni'n cyfathrebu â gweithwyr addysg proffesiynol yn yr Adran Gynhwysiad mewn ymgais i symud pethau ymlaen. Fe drafodon ni'n fanwl gyda'r rhieni beth roedden nhw'n teimlo fyddai'n diwallu anghenion eu plentyn. Gyda hynny mewn golwg, fe wnaethon ni hwyluso cyfarfod rhwng gweithwyr addysg proffesiynol a'r rhieni, a chefnogi'r rhieni yn y cyfarfod, lle gofynnwyd am ein barn ninnau yn ogystal.

CANLYNIAD:

Cytunwyd ar leoliad arbenigol i'r plentyn, gyda darpariaeth interim yn yr ysgol brif ffrwd i'w helpu i bontio'n ôl i fyd addysg. Derbyniodd y rhieni ddatganiad arfaethedig o AAA. Fe wnaethon ni esbonio wrth y rhieni beth oedd y ffordd orau o ddadansoddi'r datganiad arfaethedig er mwyn penderfynu a fyddai'n diwallu anghenion eu plentyn, a'r ffordd orau o gyfleu unrhyw faterion oedd yn ymwneud â'r datganiad i'r gweithwyr proffesiynol perthnasol.

HYD EIN HYMWNEUD Â'R SEFYLLFA – 5 Mis

Cyfathrebu rhwng rhieni a gweithwyr iechyd proffesiynol ar draws dau Fwrdd Iechyd Lleol.

PROBLEM:

Cysylltodd rhieni â ni oherwydd bod angen llawdriniaeth ar frys ar eu plentyn. Roedd y llawdriniaeth yn hanfodol i atal colli clyw parhaus. Roedd y rhiant am i'r llawdriniaeth ddigwydd mewn bwrdd iechyd nad oedd yn lleol, gan fod y plentyn wedi cael profiad arbennig o wael yn y bwrdd iechyd lleol, ac roedd meddwl am orfod mynd yno eto yn peri trallod.

Roedd y plentyn, sydd ag anabledd dysgu, wedi cael mynediad i ymweliadau ac apwyntiadau niferus blaenorol yn y bwrdd iechyd oedd yn cael ei ffafrio, ac roedd yn gyfforddus yn mynd yno. Fodd bynnag, roedd bwrdd iechyd lleol y plentyn wedi enwebu bwrdd iechyd cyfagos i gyflawni'r llawdriniaeth, ac ymddangosai fod hynny wedi digwydd heb ystyried anghenion y plentyn. Nid oedd y rhiant wedi cael unrhyw gyfathrebu ystyrion gyda'r ymgynghorydd na'r bwrdd iechyd lleol mewn perthynas â'u pryderon. O ganlyniad, ymddangosai fod y mater hwn wedi bod yn llusgo ymlaen ers cryn amser, gan ychwanegu at bryderon y plentyn a'r rhieni, oedd yn poeni fwyfwy am golli clyw yn barhaus.

Fodd bynnag, roedd y bwrdd iechyd dynodedig wedi cysylltu â'r teulu, ac oherwydd bod y pandemig yn parhau, cynigiwyd cyfarfod zoom rhwng yr ymgynghorydd a'r plentyn, ond teimlai'r rhiant fod hynny'n amhriodol o ystyried anabledd dysgu'r plentyn a'r colli clyw.

GWEITHREDU:

Ar ran y teulu, fe wnaethon ni gysylltu â'r Rheolwr Atgyfeiriadau yn y Bwrdd Iechyd Lleol i ganfod beth oedd y sefyllfa ar y pryd, ac fe gawson ni glywed bod cyllid wedi'i gytuno bellach er mwyn i'r llawdriniaeth ddigwydd yn y bwrdd iechyd oedd yn cael ei ffafrio, a bod yr ymgynghorydd a wnaeth yr atgyfeiriad wedi cael gwybod hynny, ond nad oedd wedi dweud wrth y teulu.

Yna fe wnaethon ni gysylltu â'r bwrdd iechyd derbyn a'u hysbysu am y sefyllfa, ac fe wnaethon nhw gysylltu â'r ymgynghorydd dan sylw a'u cynorthwy-ydd personol.

CANLYNIAD:

Cysylltwyd â'r rhieni, bron ar unwaith, i gadarnhau y byddai'r llawdriniaeth yn digwydd dan ofal yr ymgynghorydd yr oedd y plentyn yn adnabod. Roedd y teulu'n fodlon ar y canlyniad yma.

HYD EIN HYMWNEUD Â'R SEFYLLFA – 2 Wythnos

Ymyrryd i ddatrys gwahaniaethau rhwng gwasanaethau iechyd a chymdeithasol oedd yn effeithio ar ofal person ifanc.

PROBLEM:

Cysylltodd person ifanc â ni i helpu gyda phroblem lleoliad. Roedden nhw'n aros i gael eu rhyddhau o ddarpariaeth iechyd meddwl yn ysbyty'r bwrdd iechyd lleol. Roedd anghytundeb rhwng gwasanaethau cymdeithasol a iechyd o ran pwyl oedd yn gyfrifol am drefnu llety symud ymlaen.

GWEITHREDU:

Bu ein swyddog Ymchwiliadau a Chyngor yn siarad â'r ddau wasanaeth ac yn gofyn am wahoddiad i gyfarfod amlasiantaeth i drafod yr achos. Yn y cyfarfod fe wnaethon nhw awgrymu bod cyfarfodydd amlasiantaeth rheolaidd yn cael eu cynnal i symud y mater ymlaen ac i sicrhau bod dealltwriaeth gyffredin o anghenion a iaith. Roedd rhywfaint o'r anghytuno rhwng gwasanaethau cymdeithasol a iechyd wedi codi oherwydd gwahaniaethau yn sut roedden nhw'n disgrifio ac yn deall cysyniadau allweddol, er enghraifft "gofal preswyl".

CANLYNIAD:

Cafwyd hyd i leoliad priodol gyda chefnogaeth, cytunwyd ar gyllid, a rhoddwyd pecynnau pontio a gofal yn eu lle.

AMSER: 5 mis

Syrthio i'r bylchau rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol a Iechyd

PROBLEM:

Cysylltodd rhiant â'r swyddfa wedi cynhyrfu'n fawr oherwydd eu bod yn methu cael mynediad at ymyrraeth briodol ar gyfer eu plentyn, oedd yn meddwl am hunanladdiad ac wedi ceisio lladd ei hun. Roedd nifer o gyrff statudol a thrydydd sector yn ymwneud â'r person ifanc, neu wedi bod, ond roedd rhai gwasanaethau wedi cael eu tynnu'n ôl ac roedd gan eraill amserau aros hir iawn i ddefnyddio'r gwasanaeth. Ar adeg yr alwad, dywedodd y rhiant nad oedd y person ifanc yn derbyn unrhyw gefnogaeth uniongyrchol er gwaetha'r hunan-niweidio gweithredol.

GWEITHREDU:

Bu'r Swyddog Ymchwiliadau a Chyngor yn cysylltu â'r gwahanol wasanaethau roedd y galwr wedi darparu manylion ar eu cyfer, er mwyn deall natur y problemau a ddisgrifiwyd. Roedd diffyg cyfathrebu effeithiol rhwng gwasanaethau a systemau atgyfeirio digyswllt wedi cyfrannu at y sefyllfa ddisymud. Cododd y swyddog y pryderon hyn gyda Bwrdd Clinigol y Cyfarwyddwyr yn y Bwrdd Iechyd Lleol a Phennaeth Gwasanaethau Plant yn yr awdurdod lleol.

CANLYNIAD:

Darparwyd cefnogaeth ac asesiadau iechyd meddwl priodol i'r person ifanc gan y gwasanaethau cymdeithasol, a chychwynnodd addysg y broses asesu statudol. Defnyddiodd y Comisiynydd yr achos enghreifftiol hwn, yn gwbl ddiennw, mewn cyfarfod gydag arweinwyr iechyd a gofal cymdeithasol uwch, a Gweinidogion iechyd meddwl a gofal cymdeithasol, i bwysu o blaid dull gweithredu 'Dim Drws Anghywir'.

Hyd ein hymwneud â'r sefyllfa: 5 Wythnos

Trafnidiaeth Ysbyty

PROBLEM:

Roedd rhiant wedi cael cyfarwyddyd i ddal trê'n i gasglu ei plentyn o ysbyty iechyd meddwl gofal dwys yn Lloegr, ac i ddod yn ôl gyda nhw ar y trê'n i Gymru, gan nad oedd trafndiaeth ar gael i gleifion, a doedd dim car gan y rhieni. Roedd y rhieni'n anhapus am hyn oherwydd bod teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus yn gwneud eu plentyn yn nerfus iawn.

GWEITHREDU:

Fe gysyllton ni â Thîm Allgymorth Argyfwng yr awdurdod lleol a thrafod na fyddai hyn o reidrwydd er lles pennaf y person ifanc. Codwyd y mater gydag uwch-reolwyr, a gytunodd i ddarparu trafndiaeth ddiogel i'r person ifanc.

CANLYNIAD:

Daeth y person ifanc adref ar drafnidiaeth ddiogel wedi i'r swyddfa ymyrryd.

HYD EIN HYMWNEUD Â'R SEFYLLFA: 1 diwrnod

Llais y Plentyn, rhannu gwybodaeth a lleoliad CAMHS priodol

PROBLEM:

Cysylltodd rhiant â'r swyddfa oherwydd eu bod nhw'n credu nad oedd llais ei plentyn yn cael ei glywed. Roedd eu plentyn wedi gwneud ymgeisiau difrifol i hunan-niweidio ac roedd lleoliad yn broblem. Ymddangosai fod anghytundeb rhwng yr amrywiol asiantaethau oedd yn ymwneud â gofal y person ifanc ynghylch y ffordd fwyaf priodol ymlaen, ac nad oedd gwybodaeth gywir yn cael ei rhannu mewn cyfarfodydd allweddol lle roedd penderfyniadau'n cael eu gwneud.

GWEITHREDU:

Bu Swyddog Ymchwiliadau a Chyngor yn siarad â'r person ifanc i ganfod eu dymuniadau a'i teimladau. Yna buon nhw'n cysylltu ag ysgol y person ifanc, gwasanaethau cymdeithasol a iechyd i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol, gywir yn cael ei rhannu rhwng sefydliadau er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch lleoliad priodol.

CANLYNIAD:

Cafodd llais y person ifanc ei glywed, a dylanwadodd hynny ar symudiad i leoliad lle roedden nhw'n gyfforddus, a lle roedd mewnbyn therapiwtig ar gael iddyn nhw.

HYD EIN HYMWNEUD Â'R SEFYLLFA: 1 Mis

Profiad person ifanc mewn argyfwng iechyd meddwl

SEFYLLFA:

Ysgrifennodd person ifanc 16 oed at y Comisiynydd i rannu eu stori am brofi argyfwng iechyd meddwl. Roedd y person ifanc wedi dilyn cyngor a roddwyd, a mynd i'r adran Damweiniau ac Achosion Brys. Yna cawson nhw eu hanfon ymlaen i'r uned achosion brys oedolion. Ar ôl 2 awr, cafodd y person ifanc wasanaeth brysbennu, a dywedwyd y gallen nhw fynd adre. Fe wrthododd y person ifanc wneud hynny, achos doedden nhw ddim yn teimlo'n ddiogel. Dywedwyd wrth y person ifanc am aros tan y bore i weld gweithiwr proffesiynol. Pan oedden nhw yn yr ystafell aros dros nos, fe welodd y person ifanc yr heddlu'n atal oedolion gwryw, a hefyd oedolyn yn achosi difrod i'r adeilad. Yna cafodd y person ifanc chwalfa yng nghanol yr ystafell aros.

Fe ddywedodd y person ifanc wrthyn ni eu bod nhw'n credu y dylai fod rhywle y gall ardegwyr fynd mewn argyfwng, heblaw lleoliad Damweiniau ac Achosion Brys oedolion.

GWEITHREDU:

Doedd y person ifanc ddim eisiau i ni fynd ar ôl unrhyw faterion unigol, ond roedden nhw am rannu eu stori er mwyn atal eraill rhag profi'r un peth. Fe rannodd y Comisiynydd hanes y person ifanc gyda'r Gweinidog Iechyd Meddwl, ac fel rhan o'n prosiect Dim Drws Anghywir ar ofal iechyd meddwl plant, rhannwyd eu stori (ynghyd â dwy stori arall) gyda phob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) yng Nghymru, yn gofyn iddyn nhw ymateb a nodi sut byddai eu gwaith Dim Drws Anghywir yn ymateb i'r materion hyn.

CANLYNIAD:

Ar ôl rhannu hyn gyda'r BPRhau, rydyn ni'n falch o ddweud bod nifer o'r byrddau wedi rhoi gwybod i ni eu bod nhw'n adolygu gofal mewn argyfwng i bobl ifanc, gan gynnwys rhai cynlluniau cynnar ar gyfer cefnogaeth newydd wedi'i theilwra i ardegwyr. Byddwn ni'n parhau i herio BPRhau ynghylch y gefnogaeth maen nhw'n ei darparu mewn argyfwng fel rhan o'u cynlluniau Dim Drws Anghywir.

Achosion cysylltiedig â COVID

Mae'r achosion enghreifftiol sy'n dilyn yn dangos yr ystod eang o faterion cysylltiedig â Covid y bu ein fim yn cefnogi plant a theuluoedd gyda nhw eleni.

Prydau Ysgol am ddim

PROBLEM:

Yn ystod cyfarfod, fe wnaethon ni drefnu bod grŵp o bobl ifanc yn cwrdd â Gweinidog o Lywodraeth Cymru, a nododd cyfranogydd ifanc nad oedd ei rhiant wedi bod yn derbyn unrhyw daliadau i gael prydau ysgol am ddim. Roedden nhw'n credu bod ganddyn nhw hawl i dderbyn y taliadau o dan drefniadau eu hawdurdod lleol ar gyfer prydau ysgol am ddim yn ystod cyfnodau clo, pan fyddai plant yn cael eu haddysgu gartref. Doedd y teulu ddim wedi derbyn taliadau ers chwe mis. Roedd y teulu'n byw mewn ardal awdurdod lleol wahanol i'r un lle roedd yr ysgol. Roedd diffyg taliadau yn achosi caledi i'r teulu. Wedi'r cyfarfod, cynigiodd y Comisiynydd gefnogi'r person ifanc.

GWEITHREDU:

Cysylltodd Swyddog Ymchwiliadau a Chyngor â'r awdurdod lleol ar ran y teulu, a chynhaliodd ymchwiliad i'r mater, gan ddod i'r casgliad bod gan y teulu hawl i daliadau, a threfnu taliad i'r teulu ar unwaith. Darpariaeth ar draws y ffin oedd wedi bod yn gyfrifol am y dryswch ynghylch taliadau, a hefyd newidiadau i bolisi'r awdurdod lleol rhwng y cyfnod clo cyntaf a'r cyfnodau clo dilynol.

CANLYNIAD:

Cysylltodd y swyddog â'r rhiant, a gadarnhaodd fod yr awdurdod lleol wedi cysylltu â nhw ac ymddiheuro, a'u bod yn awr yn derbyn taliadau priodol.

HYD EIN HYMWNEUD Â'R SEFYLLFA: 1 Diwrnod

Cyfnodau hunanynysu COVID ar ward iechyd meddwl yn dilyn ymweliadau allanol

PROBLEM:

Gofynnodd nyrs gymunedol allen ni helpu gyda'r cyfnod o ynysu oedd yn angenrheidiol i berson ifanc ar ward iechyd meddwl i gleifion mewnol adeg eu derbyn i'r ward, neu wrth ddychwelyd o apwyntiad meddygol allanol. Roedden nhw'n pryderu bod hyn yn cael effaith niweidiol bellach ar iechyd meddwl y person ifanc.

GWEITHREDU:

Cododd ein fîm y pryder gyda'r ysbyty.

CANLYNIAD:

Lleihau cyfnod ynysu'r person ifanc yma o 14 diwrnod i 5 diwrnod. Newidiodd yr ysbyty eu polisi fel bod pobl ifanc yn cael eu profi wrth eu derbyn, a bod angen iddyn nhw ynysu dim ond hyd nes eu bod yn derbyn canlyniad prawf negyddol.

HYD EIN HYMWNEUD Â'R SEFYLLFA: 5 diwrnod

Materion TG a gwaith ysgol

PROBLEM:

Cysylltodd rhiant â'r swyddfa oherwydd bod eu plant yn methu lawrlwytho gwaith ysgol ar ffôn symudol y rhieni na'u cyfrifiadur eu hunain. Roedd yr ysgol wedi'u cynghori i argraffu'r gwaith, ond doedd dim argraffydd gan y rhiant. Roedd y rhiant wedi methu codi'r pryderon hyn gyda phennaeth yr ysgol.

GWEITHREDU:

Cysylltodd swyddog ymchwiliadau a chyngor â phennaeth yr ysgol, a'u sicrhodd y bydden nhw'n ymchwilio i'r mater.

CANLYNIAD:

Cysylltodd y rhiant â ni i ddweud y bydd y plant yn awr yn cael copïau papur o'r gwaith a anfonir gan yr ysgol, a'u bod wedi benthyg gliniadur fydd yn eu galluogi i lawrlwytho gwaith ysgol a osodir gan yr ysgol.

HYD EIN HYMWNEUD Â'R SEFYLLFA: 1 wythnos

"Hoffwn i ddweud diolch o galon am gysylltu â'r ysgol, mae i weld wedi creu gwyrthiau ac wedi eu sbarduno i weithredu mewn ffyrdd dwy ddim yn credu fyddai wedi digwydd heb eich help chi, rwy'n wir yn gwerthfawrogi"

(ymateb gan riant ar e-bost)

Ymweliadau â phlant mewn gofal preswyl a maeth ar ddydd Nadolig

PROBLEM:

Dywedwyd wrth blant a phobl ifanc mewn gofal mewn awdurdod lleol eu bod nhw'n methu gweld eu teulu ar ddydd Nadolig mewn uned breswyl na lleoliadau maeth. Gallai plant ddychwelyd i gartref y teulu os oedd hynny'n briodol. Roedd yr awdurdod lleol wedi gosod gwaharddiad cyffredinol ar bob ymweliad o'r fath. Ni fyddai pob plentyn yn gallu dychwelyd i gartref y teulu, ac roedden nhw'n dibynnu ar eu teulu i ymweld â nhw yn eu lleoliad. Mewn un achos roedd hyn yn golygu y byddai plentyn mewn Cartref Plant heb gwmni o gwbl (heblaw am y staff gofal) yn ystod y Nadolig.

GWEITHREDU:

Cysylltodd Swyddog Ymchwiliadau a Chyngor â Phennaeth Gwasanaethau Plant yr awdurdod lleol a thrafodwyd y mater mewn cyfarfod uwch-reolwyr. Anfonodd y swyddog ganllawiau diweddaraf Llywodraeth ynghylch ymweliadau ag unedau preswyl at Bennaeth y Gwasanaeth.

CANLYNIAD:

Cytunodd yr awdurdod lleol i gynnal asesiad risg ar blant unigol a sicrhau eu bod yn cael cyfle i weld eu teulu os oedd hynny'n briodol. Cafodd y plentyn dan sylw asesiad, a chytunwyd ar gyswllt â'r teulu ar ddydd Nadolig.

HYD EIN HYMWNEUD Â'R SEFYLLFA – 1 diwrnod

Adborth gan bobl y buon ni'n eu cefnogi

"Fel gweithiwr gofal iechyd proffesiynol fy hun, y cyfan galla i ddweud yw bod y mewnbwn a roddwyd wedi rhagori ar ein holl ddisgwyliadau, a byddwn i'n argymhell bod unrhyw berson ifanc sy'n cael trafferth ymdopi yn y system ofal yn cysylltu â chi. Diolch i chi [Swyddog], rydych chi'n wir wedi gwneud gwahaniaeth"

(Rhiant cu oedd wedi codi pryderon ynghylch diffyg cefnogaeth i'w hwyres)

"Diolch [Swyddog] rydych chi wedi bod yn wych, o'r funud gynta buoch chi'n cefnogi ac yn rhoi gwybodaeth, pan oeddwn i'n bryderus dros ben ac yn teimlo mod i'n troi fel chwyrlligwgan. Rydw i wedi ymlâdd ac yn teimlo'n siomedig ynof fy hun, achos rydw i bob amser wedi gallu trefnu popeth a'i roi yn ei le. Nawr rwy'n cael bod rhestr siopa yn her."

"Roedd [Swyddog] yn barod iawn i helpu, ac fe fu o gymorth mawr i fi trwy ddadansoddi dull gweithredu a fyddai'n gynhyrchiol ac yn gefnogol wrth feddwl am y canlyniadau i'r person ifanc dan sylw. Gofynnodd [Swyddog] rai cwestiynau cysylltiedig â'r achos a gwrando'n wirioneddol ar beth roeddwn i'n dweud cyn awgrymu ffyrdd o ddod o hyd i ateb."

Diolch i chi [Swyddog] am fod yn llais i mi pan oeddwn i wedi colli fy llais fy hun"

(Rhiant a gysylltodd â'r swyddfa ynghylch nifer o broblemau roedden nhw'n eu hwynebu o ran cefnogaeth briodol ar gyfer eu plentyn di-eiriau)

"Fe greodd y gefnogaeth a'r gofal proffesiynol a gynigiodd [Swyddog] i'm hwyres argraff fawr arna i. Fe wnaeth hi ymateb yn wych, ac roedd hi'n fwy na pharod i deithio'r filltir ychwanegol i gynnig arweiniad a chymorth ymarferol. Mae hynny wedi bod yn amhrisiadwy, ac rwy'n credu bydd yr help yn aros gyda hi. Mae'n bwysig iawn bod fy wyres wedi teimlo ei bod yn cael gwrandawriad a chefnogaeth, ac mae hynny wedi mynd yn bell at newid ei barn am weithwyr proffesiynol a 'bod dim ots gan neb', fel ei bod hi'n gallu cyfathrebu'n fwy effeithiol â'i gweithiwr cymdeithasol."

Fe wnaethoch chi'n eglur y byddai rhai pethau'n digwydd, a byddai hynny'n dda.

"Roedd yn gymorth mawr ac yn tawelu fy meddwl wrth i [Swyddog] wrando ar fy mhryderon ac yna helpu i amlinellu'r camau nesaf – fe helpodd hi fi i 'ddatod y cwlwm', fel mae hi'n disgrifio. Roeddwn i'n gwerthfawrogi'r negeseuon e-bost a'r galwadau ffôn a anfonodd hi wedyn at weithwyr proffesiynol. I fi fel rhiant, sydd mor rhagweithiol yng ngofal fy mab, roeddwn i'n cael bod gorfod troi at bobl fel chi er mwyn symud pethau ymlaen yn fy nadrymuso'n fawr – serch hynny fe wnaeth [Swyddog] fy helpu i deimlo ei bod hi'n deall fy rhwystredigaeth, a mod i ddim yn gorymateb. Diolch"

(Rhiant oedd wedi cysylltu â'r swyddfa am gynllun triniaeth iechyd meddwl i'w plentyn)

**Mae ein paneli
ymgynghorol
dal yn cael effaith
gadarnhaol ar
ein gwaith.**



5. Gwaith a barn ein paneli ymgynghorol

Defnyddiwch un gair i ddisgrifio sut ry' chi wedi teimlo bod yn rhoi panel?



Mae'r panel ymgynghorol pobl ifanc wedi parhau i ddatblygu a ffynnu, ac wedi ehangu i 47 o aelodau eleni ar ôl recriwtio a hyfforddi 25 o aelodau newydd yn gynharach eleni. Mae'r panel hefyd wedi symud yn llwyddiannus o 3 chyfarfod undydd wyneb yn wyneb y flwyddyn i gyfarfodydd misol ar-lein, fel bod gennym ni ffynhonnell gyfoethog o farn a safbwyntiau ynghylch y materion cyfredol sy'n effeithio ar bobl ifanc yng Nghymru.

Dyma safbwynt cadeirydd ein panel ymgynghorol o oedolion, Margaret Provis:

"Os yw eleni wedi dangos unrhywbeth i ni am ein Comisiynydd a'i thîm, mae wedi dangon pa mor benderfynol mae nhw am warchod hawliau plant yng Nghymru ac, yn bwisg, pa mor wydn ma eu systemau a'u prosesau sydd yno i gefnogi'r gwaith. Mae'r swmp ac ansawdd y gwaith sydd wedi'i gwblhau gyda'r tîm bach yma eleni yn neilltuol.

"Fel panel, rydyn ni wedi bod yn hynnod falch o arweiniad y Comisiynydd, yn gwrandao a gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc a'r rheiny oedd yn gwneud o'u gorau i wneud y penderfyniadau gorau yn ystod amser mor anodd. Mae'r timoedd bach wedi bod yn ystywth ac arloesol ac yn aml yn gweithio mor gyflym ar faterion oedd yn effeithio ar blant yn ystod y pandemig. Mae'r gwaith yma wedi galluogi'r Comisiynydd a'r staff i sicrhau fod barn plant a phobl ifanc yn cael eu clywed gan rheiny oedd yn ganolog i greu polisiau.

"Yn ogystal â'r gwaith ddaeth yn sgil y pandemig, mae'r Comisiynydd a'r staff wedi cwblhau uchelgeisiau eraill gan gynnwys Prosiect Pleidlais. Eto, fe welwyd y sefydliad yn torri tir newydd i gynnig cyfle i bobl ifanc gael mynediad i'w hawliau. Mae'r canlyniadau yn wefreiddiol.

"Prif amcan paneli'r Comisiynydd yw i fod fel seinfwrdd i Sally a'r staff. Rydyn ni'n falch ein bod ni wedi medru chwarae rôl fach yn eu cefnogi eleni eto i greu newid ym mywydau plant Cymru."

Eleni mae aelodau'r Panel wedi cyfrannu at y prosiectau a'r digwyddiadau amrywiol canlynol:

Cyfweiliadau gyda'r cyfryngau: bu sawl aelod o'r panel yn cymryd rhan mewn cyfweiliadau ar y cyfryngau, gan gynrychioli profiadau pobl ifanc ar ystod eang o faterion.

Bu pobl ifanc yn mynychu gweithdy ar-lein i fwydo i mewn i'n hymateb i'r ymgynghoriad; Canllawiau fframwaith drafft ar wreiddio dull ysgol gyfan o ymdrin â iechyd meddwl a llesiant emosiynol.

Bu pobl ifanc yn mynychu'r Seminar Cyfiawnder Ieuentid flynyddol gyntaf ac yn gofyn cwestiynau ar ran ystod ehangach o bobl ifanc.

WEN Café: WEN Café y Rhwydwaith Cydraddoldeb Benywod.

Cyfarfodydd gyda'r Gweinidog Addysg, Kirsty Williams: Dwy sesiwn i bobl ifanc drafod dychwelyd i'r ysgol ac asesiadau arholiadau.

Cyfnewidfa Cenedlaethau'r Dyfodol (Future Generations Xchange) – bu pobl ifanc yn cefnogi'r Comisiynydd i roi cyflwyniad ar ganfyddiadau 'Coronafeirws a Fi'.

Arolwg Coronafeirws a Fi: bu aelodau o'n panel ymgynghorol yn rhan o'n harolwg Coronafeirws a Fi trwy awgrymu cwestiynau a phrofi'r arolwg.

Gwasanaethau cwnsela statudol: fe drefnon ni sesiwn ymgynghori ar gyfer aelodau o'n panel ymgynghorol gyda DECIPHER (Prifysgol Caerdydd), oedd yn cynnal ymgynghoriad ar ran Llywodraeth Cymru ar wasanaethau cwnsela statudol.

Bu person ifanc yn mynychu'r digwyddiad bord gron gyda DEFFO, yn trafod hawliau ac anghenion pobl ifanc sy'n fyddar.

Coleg Brenhinol y Pediatregwyr: bu rhai aelodau o'n panel ymgynghorol yn cefnogi'r Comisiynydd i roi cyflwyniad i aelodau o Goleg Brenhinol y Pediatryddion ar ganfyddiadau 'Coronafeirws a Fi'.

**Y 5 egwyddor o Dull
Hawliau Plant yw
Ymgorffori hawliau
plant, Cydraddoldeb
a Di-wahaniaethu,
Grymuso, Cyfranogiad
ac Atebolrwydd**



6.Y Ffordd Gywir

Egwyddorion y 'ffordd gywir'

1

Gwreiddio hawliau plant:

dylai hawliau plant fod yn ganolog wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

2

Cydraddoldeb a pheidio â chamwahaniaethu:

ystyr hyn yw sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i wneud yn fawr o'u bywydau a'u doniau, ac nad oes rhaid i unrhyw blentyn oddef cyfleoedd gwael mewn bywyd oherwydd camwahaniaethu.

3

Grymuso Plant:

ystyr hyn yw gwella galluoedd plant fel unigolion, fel eu bod yn medru manteisio'n well ar eu hawliau, ac ymgysylltu â'r unigolion a'r sefydliadau hynny sy'n effeithio ar eu bywydau, dylanwadu arnynt, a'u galw i gyfrif.

4

Cyfranogiad:

ystyr hyn yw gwrando ar blant a rhoi sylw ystyrlon i'w barn.

5

Atebolrwydd:

dylai awdurdodau fod yn atebol i blant am benderfyniadau a chamau gweithredu sy'n effeithio ar eu bywydau.

a. Ein cynnydd o ran y 'ffordd gywir'

1

Gwreiddio hawliau plant:

CCUHP yw'r sylfaen ar gyfer ein holl waith, ac rydyn ni'n parhau i ddylanwadu ar gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru i fabwysiadu dull gweithredu tebyg. Mae ein gwaith polisi a dylanwadu yn sicrhau bod cyfreithiau, polisiâu ac ymarfer ar draws pob lefel o'r Llywodraeth yng Nghymru yn diogelu hawliau plant.

2

Cydraddoldeb a pheidio â chamwahaniaethu:

Mae ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni'r egwyddor hon trwy helpu plant unigol a'u teuluoedd sy'n teimlo eu bod yn methu troi at neb arall. Trwy brosiectau allweddol – y mae disgwyl i bob un ohonynt gael eu cynllunio gydag asesiad effaith llawn ar gydraddoldeb – rydym yn ymdrechu i fynd i'r afael â materion cydraddoldeb a chamwahaniaethu yn uniongyrchol, er mwyn sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod.

3

Grymuso plant:

Mae ein gwaith cyfathrebu yn canolbwyntio ar gynyddu ymwybyddiaeth o hawliau plant a rôl y Comisiynydd, fel bod plant yn cael mynediad eu hunain i wybodaeth sy'n eu galluogi i ddeall ac ymarfer eu hawliau.

4

Cyfranogiad:

Mae cyfrifoldeb ar bob aelod o'n tîm o staff i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ym mhob rhan o Gymru. Ein nod yw sicrhau bod ein holl waith gyda phlant a phobl ifanc yn gynhwysol ac yn hygyrch. Barn a safbwyntiau plant sy'n llywio pob un o'n prosiectau, ac rydyn ni wedi gwrandao ar farn dros 10,000 o blant a phobl ifanc i'n helpu i lunio'r cynllun tair blynedd yma.

5

Atebolrwydd:

Mae buddsoddi mewn dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yn ein galluogi i ganolbwyntio mewn gwirionedd ar anghenion penodol plant, ac yn sicrhau ein bod yn creu llwyfan lle gall plant a phobl ifanc ein galw i gyfrif ynghylch yr hyn rydyn ni wedi addo ei gyflawni. Mae ein paneli ymgynghorol o bobl ifanc yn darparu cefnogaeth strategol i'r ac mae cynlluniau bod y Comisiynydd yn dod yn atebol i Senedd Ieuenctid Cymru, a etholwyd yn ddemocrataidd.

b. Sut rydyn ni wedi cefnogi eraill â dull gweithredu'r Ffordd Gywir

Adnoddau a chefnogaeth

Eleni fe fuon ni'n ailwampio ein **hwb** Ffordd Gywir, fel bod symud o gwmpas ynddo'n fwy hwylus, ac er mwyn arddangos enghreifftiau o gyrff cyhoeddus yng Nghymru'n cofleidio dull gweithredu'r ffordd gywir.

Y Ffordd Gywir: Gofal Cymdeithasol

Dyma'r **trydydd** mewn cyfres o ganllawiau i weithwyr proffesiynol, gyda'r nod o wreiddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yn arfer y sector cyhoeddus, a bwriad yr ychwanegiad diweddaraf hwn yw rhannu'r dulliau gweithredu cyffredin a ddefnyddir gan wasanaethau wrth roi egwyddorion dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant ar waith, ac mae'n cynnwys cyngor, adnoddau ac arweiniad gan bobl ifanc eu hunain.

Mae'r prosiect hwn yn deillio o bryderon oedd yn codi o'm Gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor, sef nad yw hawliau plant bob amser yn cael y lle blaenaf mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â gofal plant.

Datblygwyd y canllaw yn dilyn cyfres o weithdai gyda phobl ifanc a rhieni ifanc oedd â phrofiad o wasanaethau gofal cymdeithasol, a gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol. Fe glywson ni lawer o enghreifftiau o sut mae gwasanaethau'n rhoi dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant ar waith, a hynny wrth gyflwyno gwasanaethau ac mewn ymarfer unigol, yn ogystal â rhai heriau.

Mae **adran newydd** wedi cael ei hychwanegu at y wefan: Y Ffordd Gywir ar gyfer Gofal Cymdeithasol er mwyn rhannu'r adnoddau hyn a dangos enghreifftiau o arfer da ledled Cymru.

Nod arall yw cryfhau ymhellach y cyfrifoldeb sydd gan bawb sy'n cyflawni swyddogaethau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i roi sylw dyledus i hawliau plant trwy amlygu enghreifftiau o sut mae gwasanaethau'n hybu hawliau, a sut mae cyflawni'r ddyletswydd hon mewn arfer pob dydd. Lanswyd y canllaw mewn gweminar a gynhaliwyd gan y swyddfa, dan gadeiryddiaeth Prif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru, gyda bron 300 o gyfranogwyr yn bresennol, a dyma'r hyn ddywedodd un ohonyn nhw am y digwyddiad:

"Deunydd i ysbrydoli a chnoi cil arno – yn arbennig o ran beth mae angen i ni ei wneud fel sefydliad i hybu hawliau plant yn y ffordd orau, rhywbeth ddylai fod yn rhan annatod o bopeth a wnawn ac yn brif sbardun ar gyfer newid."

Mae gwaith wedi parhau i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus eraill allweddol yng Nghymru i fabwysiadu 'Y Ffordd Gywir'. Dyma ambell enghraifft:

Byrddau Iechyd: cynhaliwyd ein seminar flynyddol ar hawliau plant ym maes iechyd ym mis Mehefin 2020. Roedd holl fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd Cymru yn bresennol i adrodd ar eu cynnydd ac i rannu syniadau a dysgu.

Heddlu De Cymru: mae hyfforddiant hwb cadetiaid yr heddlu yn fodd i'w cyflwyno i rôl y Comisiynydd a CCUHP a'u cefnogi i feddwl am Y Ffordd Gywir yn eu gwaith.

Heddlu Dyfed Powys: hyfforddiant i'r heddlu sy'n cefnogi gwaith plant yn yr heddlu, fel rhan o ddatblygiad y gweithlu, gyda'r bwriad o geisio gwreiddio hyn yn fwy cynaliadwy yn hyfforddiant parhaus heddweision yn y dyfodol.

Prifysgol Casnewydd: hyfforddiant ar gyfer myfyrwyr gwaith ieuencid ynghylch rôl y comisiynydd a CCUHP.

Cyngor Sir Penfro: gweithdy gydag aelodau'r Cyngor, yn canolbwyntio ar dlodi a sut gall egwyddorion Y Ffordd Gywir gefnogi aelodau'r cyngor i ystyried plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tloedi trwy lens hawliau plant, roedd hyn yn cynnwys gweithdy ymarferol ynghylch egwyddorion ac adnodd tloedi y Comisiynydd "**Cofia Ceri**".

Chwaraeon Cymru: dal ati â'r gefnogaeth i'w helpu i ddefnyddio'r matrices hunanasesu i ganfod beth maen nhw eisoes yn ei wneud i gefnogi hawliau Plant, ac ystyried unrhyw gyfleoedd gallan nhw gymryd i barhau i fapio ffyrdd ymlaen.

Cyfoeth Naturiol Cymru: eu cynorthwyo i ystyried sut gallan nhw wreiddio'r Ffordd Gywir yn eu strwythur mewnol, myfyrio ar eu mecanweithiau cyfranogiad, a'u cefnogi i lunio fersiwn derfynol a lansio eu siarter hawliau plant gyntaf erioed: yma

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Siarter Hawliau Plant

Byddwn yn helpu i ofalu am yr aer, y tir, y dŵr, y boeddyd gwylt, y plantigion a'r pridd yng Nghymru fel y gallwch dyfu i fyny'n iach.
Erthygl 6 - Yr hawl i fywyd, i dyfu i fyny a chyflawni eich holl botensial
Erthygl 24 - Yr hawl i sef gŵn

Gallwch ofalu am fyd natur a deall sut mae'n eich helpu i dyfu i fyny'n iach.

Byddwn yn darparu manau naturiol diogel i chi chwarae ac ymlacio ynddynt.
Erthygl 31 - Yr hawl i ymuno a chwarae
Erthygl 19 - Yr hawl i gael eich cadw'n ddiogel rhag niwed

Gallwch chwarae gyda'ch ffrindiau a'ch teulu yn eich ardaloedd natur lleo.

Byddwn yn eich helpu i ddysgu am fyd natur fel y gallwch ei werthfawrogi a gofalu amdano.
Erthygl 28 - Yr hawl i ddysgu

Gallwch helpu byd natur i fod yn iach.

Byddwn yn rhoi cyfleoedd i chi ddysgu am ein gwaith a'r sgiliau sydd eu hangen i weithio yn yr amgylchedd naturiol ac ar ei gyfer.
Erthygl 29 - Yr hawl i fod y gorau y gallwch fod

Gallwch ddysgu am swyddi a gyrraedd amgylcheddol.

Byddwn yn darparu gwybodaeth y gallwch ei deall fel y gallwch ddysgu am fyd natur.
Erthygl 17 - Yr hawl i ryddid myneiant
Erthygl 17 - Yr hawl i wybodaeth

Gallwch ofalu am fyd natur.

Byddwn yn gofyn am eich barn onest, ac yn gwirando arni, ac yn parchu eich barn fel y gallwch helpu i ofalu am fyd natur.
Erthygl 12 - Yr hawl i gael rhywun i wardo amoch a'ch cymryd o ddiiffr

Gallwch siarad yn agored â ni.

Ni fyddwn yn defnyddio eich delwedd nac yn rhannu gwybodaeth amdano heb eich caniatâd chi, eich rhieni, neu'ch gofaliwr.
Erthygl 16 - Yr hawl i breswylwydd

Gallwch helpu i lenwi unrhyw waith papur sydd ei angen arnom fel y gallwch gymryd rhan mewn digwyddiad Cyfoeth Naturiol Cymru.

Hefyd fe gynhalion ni ein **seminar Cyfiawnder Ieuentid Flynyddol** gyntaf ym mis Mawrth 2021. Daeth uwch-swyddogion yr heddlu, Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, Cyfiawnder Ieuentid, y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuentid Cenedlaethol (NYAS) a Chonsortiw Comisiynu Plant Cymru (4C's) i'r seminar, ynghyd â phobl ifanc a gafodd eu cefnogi i holi'r gweithwyr proffesiynol. Cafodd y cwestiynau hyn eu hateb a'u cofnodi, a'u hanfon ymlaen at grwpiau oedd wedi gofyn cwestiynau, gan gynnwys: Tîm Cefnogi Ieuentid Ethnig (EYST), Cyngor Hil Cymru (RCC), Pobl ifanc yn unedau diogel Parc a Hillside, pobl ifanc oedd yn cynrychioli NYAS a bwrdd Ymgynghorol y Comisiynydd. Cafwyd adborth cadarnhaol gan y bobl ifanc a fu'n cymryd rhan, ac roedden nhw'n croesawu'r cyfle i gael gwrandawriad ac i gael galw'r oedolion i gyfrif.

Roedd y seminar hefyd yn gyfle i weithwyr proffesiynol rannu ac ysbrydoli arfer da; mae pob un o'r pedwar heddlu yng Nghymru yn gwneud gwaith hawliau plant. Ein bwriad yn awr yw cynnal seminar cyfiawnder ieuentid flynyddol, a pharhau i gefnogi a chryfhau'r dulliau gweithredu sy'n cael eu datblygu gan yr heddluoedd.

Gwnaeth y rhai oedd yn bresennol addunedau ynghylch y camau byddan nhw'n eu cymryd i wella arfer seiliedig ar hawliau yn eu gwasanaeth. Dyma rai enghreifftiau o'r addunedau:

'Datblygu Fforwm Iaith Gymraeg yn Werrington YOI ar gyfer plant o Gymru sy'n cael eu lleoli yno'

'Rwy'n addunedu i gael hyd i ffyrdd o gynnwys plant a phobl ifanc yn well yn ein gwaith'

'Rwy'n addunedu i barhau i wreiddio hawliau plant ym mhob agwedd ar waith ym maes Cyfiawnder Ieuentid'

'Rwy'n addunedu i gyflymu ein Siarter Plant'

**Fy null ... bob amser fu
ymateb i Lywodraeth Cymru
fel ffrind beirniadol – herio'n
gadarn yn ôl y galw, ond
croesawu a chydabod
datblygiadau positif.**



7. Ein 'cerdyn adroddiad'

Cerdyn adroddiad polisi: ein hadroddiad ar faterion polisi allweddol, ein gwaith yn y meysydd hynny, a'n hasesiad o gynnydd Llywodraeth Cymru

Ym mis Medi 2020, fe gyhoeddodd ni ein dogfen Maniffesto '**hapus, iach a diogel**' ar gyfer Etholiadau Senedd 2021. Yn y ddogfen honno roedden ni'n nodi, mewn fformat deniadol i bobl ifanc, beth roedd pobl ifanc wedi dweud wrthyn ni eu bod nhw am ei weld gan y Llywodraeth nesaf, a'r materion roedden ni'n meddwl y dylen nhw fod yn ymdrin â nhw.

Mae'r cerdyn adroddiad hwn gan y Comisiynydd yn adlewyrchu cynnydd y Llywodraeth yn erbyn rhai o'r syniadau hynny, oedd eisoes yn destun gwaith gan Weinidogion a swyddogion yn ystod pumed tymor y Senedd. Mae meysydd eraill yn y maniffesto y byddwn ni'n parhau i'w gwthio ymlaen yn ystod chweched tymor y Senedd; os nad ydyn nhw'n cael eu hadlewyrchu yn y Cerdyn Adroddiad hwn, y rheswm am hynny yw nad oedden nhw'n destun gwaith manwl yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond byddwn ni'n pwysu ar y Llywodraeth i roi sylw iddyn nhw yn ystod y tymor Senedd hwn.

AMGYLCHEDD TEULU A GOFAL AMGEN

Elw mewn gwasanaethau gofal plant

Y materion allweddol

Yn ystod y tair blynedd diwethaf, rwyf wedi galw'n gyson am gymryd camau i ddileu'r elfen o elw o wasanaethau gofal plant, ar y sail na ddylai cwmnïau preifat sy'n cynnig lleoliadau i rai o blant mwyaf bregus Cymru gael eu cymell i weithredu ar sail gwneud elw. Fel y nodwyd mewn adroddiadau blynyddol blaenorol, gall hyn olygu bod plant yn cael eu lleoli ymhell o gymuned eu cartref. Mae hefyd yn golygu bod rhai plant yn teimlo'n anghyfforddus fel rhan o system 'farchnad'.

Sut rydyn ni wedi dylanwadu

Fe wnes i alw am weithredu ar hyn gyntaf yn 2016/17 ac ers hynny rwyf wedi ategu'r neges mewn Adroddiadau Blynyddol dilynol. Rwyf wedi derbyn cefnogaeth gyffredinol i'r alwad hon ar draws y rhaniad gwleidyddol, ac mae'r galwadau wedi cael eu llywio'n uniongyrchol gan y plant a'r bobl ifanc rwyf fi wedi cwrdd â nhw, sy'n boenus o ymwybodol o'r costau sy'n gysylltiedig â'u gofal.

Rwy'n sylweddoli bod y maes hwn o ofal cymdeithasol i blant yn un cymhleth, ac y bydd angen gweithredu'n systematig yn y tymor canolig a hir i waredu gwneud elw o ofal plant yn raddol. Rhaid i ddull gweithredu o'r fath roi sefydlogrwydd i'r sector, a rhaid iddo beidio â bod yn niweidiol i blant sy'n gwneud yn dda yn eu lleoliadau ar hyn o bryd.

Er bod yr argymhelliad hwn wedi cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn 2017/18, bu'r cynnydd o ran camau i gael gwared ar elw o wasanaethau gofal plant yn araf. Serch hynny, rwy'n teimlo'n obeithiol y bydd gwaith ar y maes cymhleth hwn yn symud ymlaen. Y rheswm am hynny yw bod Llywodraeth Cymru, yng ngwanwyn 2021, wedi cyhoeddi eu Papur Gwyn ar 'Ailgydbwyso Gofal a Chymorth', sy'n cynnig datblygu Fframwaith Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol er mwyn gosod arferion comisiynu teg ar gyfer darparwyr. Cyplysir hyn ag adduned maniffesto gref gan Lafur Cymru i 'ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal' yn ystod y Tymor Senedd nesaf. (Cafodd hyn wedi ei gyhoeddi fel ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu, a gyhoeddwyd ym mis Mai, y tu hwnt i derfynau amser yr Adroddiad Blynyddol hwn).

AMGYLCHEDD TEULU A GOFAL AMGEN

Croesawir yn gynnes yr ymrwymiad mwy pendant hwn i roi sylw i'r her yma. Rhaid i hyn adeiladu ar y camau a gymerwyd i ddeall tirlun arferion comisiynu yn well, er enghraifft ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar blant â phrofiad o ofal ac astudiaeth ddiweddar yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnad ar ddarpariaeth gofal cymdeithasol plant. Fe wnes i ddarparu tystiolaeth ar gyfer y ddau ddarn yma o waith, ac maent i'w darllen yma: CMA, PAC, PFG.

Os yw Cymru i gyflawni ei huchelgais o ddod â chymhelliad elw i gwmnïau i ben mewn gwasanaethau gofal plant, rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno cynigion ar frys i symud i'r cyfeiriad hwnnw.

Argymhelliad

Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno map erbyn 1 Ebrill 2022 sy'n nodi amserlen a chamau gweithredu y byddant yn eu cymryd i ddechrau dod ag elw i ben yn y ddarpariaeth gofal cymdeithasol i blant.

Byddai hyn yn cael ei groesawu gan blant, staff a gofalwyr fel ei gilydd, a byddai'n gwreiddio ymhellach ymrwymiad Cymru i hawliau plant yn ein gwasanaethau trwy gydnabod hawliau plant i safonau byw digonol a gofal arbenigol pan fydd angen.

AMGYLCHEDD TEULU A GOFAL AMGEN

Cefnogaeth i Ymadawyr Gofal

Y materion allweddol

Ar ôl canfod yn fy mlwyddyn gyntaf fel Comisiynydd y dylai pwyntiau pontio fod yn ffocws allweddol, yn arbennig yn achos ymadawyr gofal, rwy'n awyddus i ddefnyddio'r tymor sydd ar ôl gennyf i sicrhau bod Llywodraeth newydd Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu i wella'r gefnogaeth sy'n cael ei darparu i bobl ifanc â phrofiad o ofal yng Nghymru, i'w helpu i ffynnu yn y dyfodol. .

Sut rydyn ni wedi dylanwadu

Eleni, mae fy Swyddfa wedi bod yn falch o fod ymhlith y rhai sydd wedi dylanwadu ar newid i ymadawyr gofal. Ar ôl cyhoeddi adroddiad End Youth Homelessness Cymru **'Don't Let me Fall Through the Cracks'**, cynigiodd y Grŵp nifer o fesurau ymarferol, y mae fy Swyddfa wedi bod yn rhan ohonynt, i helpu i roi sylw i ddigartrefedd ieuencid ymhlith ymadawyr gofal a'i ddileu yn y pen draw. Un o'r cynigion hyn oedd bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn symud ymlaen i **eithrio ymadawyr gofal o Gyfradd Rhannu Llety Credyd Cynhwysol**. Ar y cyd â'm cymheiriaid yn Lloegr, yr Alban, a Gogledd Iwerddon, ym mis Ionawr 2021 fe ysgrifennwyd at Ysgrifennydd Gwladol Gwaith a Phensiynau'r Deyrnas Unedig, yn galw am fynd ati i gyflwyno'r cynigion oedd wedi'u hamserlennu ar gyfer 2023 ar unwaith. Roedden ni'n falch o nodi penderfyniad dilynol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig nad yw Ymadawyr Gofal yng Nghymru a Lloegr, o fis Mehefin 2021, i gael eu cwmpasu gan y Gyfradd Llety a Rennir, a bydd hynny'n lleihau'r tebygolrwydd y bydd rhaid iddyn nhw symud, yn 21 oed, o fyw'n annibynnol i lety a rennir.

Mae fy nhîm a minnau hefyd wedi ceisio sicrhau newid rheoliadol i leihau'r defnydd o leoliadau heb eu rheoleiddio ar gyfer plant 18 oed a than hynny. Nid yw lleoliadau heb eu rheoleiddio yn cael eu harolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru, felly gall ansawdd ac addasrwydd amrywio'n fawr. Yn aml, gall y llety yma gael ei ddefnyddio i gynnig trefniadau byw 'lled-annibynnol' i bobl ifanc sy'n gadael gofal, ac er fy mod i'n ymwybodol o rai opsiynau llety arloesol sy'n defnyddio'r math yma o ddarpariaeth, rwyf hefyd yn ymwybodol o blant yn cael eu cartrefu mewn llety dros dro a gwely a brecwast, nad yw'n darparu gwarant o le diogel, saff i fyw ynddo, na sylfaen gadarn ar gyfer symud ymlaen i oedolaeth. Mae fy nhîm a minnau wedi trafod hyn gyda'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, ac rydyn ni wedi dechrau archwilio'r maes cymhleth hwn ymhellach, ochr yn ochr â phobl ifanc a gweithwyr proffesiynol.

AMGYLCHEDD TEULU A GOFAL AMGEN

Argymhelliad

Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd ati'n gyflym i gyflwyno hawliau statudol a pholisïau ar gyfer ymadawyr gofal, ar ffurf pecyn cydlynus.

Mae rhai o'r rhain wedi bod yn alwadau hirsefydlog, yn dilyn cyhoeddi fy adroddiad **Breuddwydion Cudd** yn 2017, ac fe'u derbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ar y pryd. Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol;

- Newid Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lleiant (Cymru) 2014 a'r canllawiau, er mwyn sicrhau bod gan bawb sy'n gadael gofal hawl i **Ymgynghorydd Personol** hyd at 25 oed;
- Estyn hawliau statudol cynllun trefniadau byw ôl-18 'Pan Fydda i'n Barod' i bobl ifanc sy'n gadael **gofal preswyl**, er mwyn sicrhau bod pobl ifanc sy'n gadael gofal, beth bynnag yw eu lleoliad, yn cael yr un cyfleoedd;
- Datblygu safonau cenedlaethol i roi sylw i bryderon ynghylch ansawdd, digonolrwydd ac addasrwydd **llety lled-annibynnol** i bobl ifanc â phrofiad o ofal hyd at 25 oed. Cynigiwyd hyn gan Grŵp Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Cyd Llywodraeth flaenorol Cymru, ond mae'r cynnydd wedi oedi.
- Gweithio gydag ymadawyr gofal ac awdurdodau lleol i gynhyrchu **gwybodaeth ariannol** glir sydd ar gael yn genedlaethol, i helpu pobl ifanc a'u hymgyngorwyr personol i gael mynediad i'r ystod o grantiau, budd-daliadau a phethau y dylen nhw fedru eu hawlio wrth adael gofal. Dylai hyn gynnwys meini prawf cymhwysedd/canllawiau ar gyfer Cronfa Gŵyl Ddewi, er mwyn rhoi sicrwydd i ymadawyr gofal ynghylch sut gallan nhw wneud y defnydd gorau o'r cynllun.
- Defnyddio data ynghylch defnydd cyfredol o **ofal heb ei reoleiddio** ar gyfer pobl ifanc o dan 18 oed, ystyried pa newidiadau allai fod yn angenrheidiol i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), i gryfhau arolygu a rheoleiddio darpariaeth gofal a llety ar gyfer pobl ifanc o dan 18 oed nad yw'n cael ei chwmpasu gan y Ddeddf ar hyn o bryd;

Barn plant a phobl ifanc

Mewn trafodaethau eleni roedd pobl ifanc hŷn oedd â phrofiad o ofal wedi cael profiadau amrywiol o gefnogaeth; roedd gan rai brofiad gwych o'r gwasanaethau cymdeithasol yn gwirio eu bod yn iawn: **"Cyhyd â'n bod ni'n agored rydyn ni'n cael y gefnogaeth angenrheidiol"**. (Young Voices Speak Out), tra bod eraill yn mynegi pryder ynghylch diogelwch pobl ifanc 16-18 oed oedd yn gadael gofal yn cael eu lleoli mewn llety anniogel fel Gwely a Brechwast: **"Ddylen nhw ddim bod mewn sefyllfa lle maen nhw mor agored i niwed."** (Grŵp Llysgenhadon Cymunedol) .

AMGYLCHEDD TEULU A GOFAL AMGEN

Hybu hawliau plant sy'n derbyn gofal

Y materion allweddol

Cyn mis Mawrth 2020, roedd fy Swyddfa, ynghyd â sefydliadau eraill sy'n cefnogi plant sy'n derbyn gofal, wedi cyfranogi yng nghynlluniau Llywodraeth Cymru i ddiwygio rolau Rhianta Corfforaethol Cymru. Roedd hynny'n argoeli'n gyffrous, gan ei fod yn cynnwys nifer fawr o sefydliadau cyhoeddus a phlant a phobl ifanc oedd â phrofiad o ofal, er mwyn archwilio sut gallai'r rôl gael ei chryfhau i wella system ofal Cymru yn y ffordd orau. Fodd bynnag, wedi i Bandemig y Coronafeirws ddod ar ein gwarthaf ym mis Mawrth 2020, mae'r pwysau a roddwyd ar wasanaethau cyhoeddus, gwaetha'r modd, wedi atal y gwaith pwysig hwn. Gallwch chi ddarllen mwy am sut mae'r Swyddfa wedi cefnogi plant sy'n derbyn gofal yn ystod y pandemig yn yr adroddiad **Coronafeirws a Ni**, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2021.

Sut rydyn ni wedi dylanwadu

Fel y soniwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, mae fy Swyddfa a minnau wedi parhau â'n cynllun gwaith uchelgeisiol ar gyfer y flwyddyn, ac o ganlyniad rydyn ni wedi datblygu, gyda chefnogaeth Gofal Cymdeithasol Cymru, **Y Ffordd Gywir ar gyfer Gofal Cymdeithasol**, sef fframwaith ymarferol a ddatblygwyd gyda phlant a gweithwyr proffesiynol sydd â phrofiad o'r sector gofal cymdeithasol.

Rydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu Protocol penodol i Gymru ar gyfer lleihau lefelau troseddoli ymhlith pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Yn 2016, trwy gyhoeddi Adroddiad **Y Gofal Cywir**, fe alwais i am weithredu i roi sylw i'r arfer amrywiol ar draws Cymru, sy'n aml yn golygu bod gan bobl ifanc â phrofiad o ofal lefelau uwch o rybuddion a chyhuddiadau na phlant eraill. Ni ddylai unrhyw blentyn fod yn fwy tebygol nag eraill o wynebu euogfarn troseddol, dim ond oherwydd eu bod nhw mewn gofal. Bydd y Protocol yn cael ei gyhoeddi yn 2021, ac rwy'n edrych ymlaen at weld datblygu pecyn offer ymarferol, a fydd yn helpu gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc â phrofiad o ofal i gryfhau eu hymarfer er mwyn osgoi achosion diangen o droseddoli.

AMGYLCHEDD TEULU A GOFAL AMGEN

Argymhelliad

Rhaid i Lywodraeth Cymru:

- **Gryfhau rôl rhianta corfforaethol Cymru trwy ddeddfwriaeth a chanllawiau, er mwyn sicrhau bod system ofal Cymru yn seiliedig ar hawliau ac yn galluogi plant i ffynnu mewn gofal.** Mae'n arbennig o bwysig symud y gwaith hwn ymlaen, gan fod niferoedd uchel o bobl ifanc â phrofiad o ofal wedi ymwneud â'r broses hyd yma, a bydd ganddyn nhw ddisgwyliadau bod newidiadau pwysig i'w gwneud.
- **Goruchwyllo a monitro'r broses o estyn yn eang y Protocol i Leihau Troseddoli Diangen Plant sy'n Derbyn Gofal,** gyda chefnogaeth adnoddau a hyfforddiant i gryfhau arfer cyfredol.

Barn plant a phobl ifanc

"Peidiwch â rhagdybio bod rhywun yn grac neu'n ddrwg oherwydd sut maen nhw'n ymddwyn – falle bod rhywbeth mwy yn mynd ymlaen tu ôl i ddrysau caeedig."

"Gwrandewch arnon ni, mae ein barn ni yr un mor ddilys, dyw'r ffaith ein bod ni'n ifanc ddim yn golygu ein bod ni ddim yn ddeallus."

"Mae amynedd yn hanfodol, ac mae'n bwysig peidio barnu cyn gwybod y stori i gyd."

"Peidiwch rhoi pwysau ar rywun, byddwch yn ofalgar iawn a chymryd i ystyriaeth bod rhai pobl wedi bod trwy lot, ac y gallen nhw fod angen cefnogaeth ychwanegol."

AMGYLCHEDD TEULU A GOFAL AMGEN

Diwygio Sector Cyfiawnder Ieuenctid Cymru

Y materion allweddol

Mae eleni wedi bod yn gyfle i gryfhau cysylltiadau ymhellach â'r rhai sy'n gweithio yn y sector Cyfiawnder Ieuenctid. Ar ôl cyhoeddi'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid yn 2019, fe wnaeth fy nhîm a minnau groesawu gweledigaeth newydd ar gyfer System Cyfiawnder Ieuenctid Cymru, gyda ffocws ar hawliau, ailsefydlu a lleihau lefelau troseddoli ymhlith pobl ifanc.

Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi chwarae rhan sylweddol wrth oedi cynnydd Cymru yng nghyswllt cyflawni camau tymor byrrach y Glasbrint, a dwy ddim yn teimlo'n hyderus bod cynnydd digonol wedi cael ei wneud o ran diwygio gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru.

Mae elfennau pwysig o'r weledigaeth heb eu penderfynu'n derfynol eto, er enghraifft pa ffurf a siâp fydd i leoliadau diogel Cymru, a ble byddan nhw'n cael eu lleoli. O ganlyniad, rwy'n dal i bryderu na fydd y weledigaeth o bosib yn cyd-ddigwydd â datblygiadau pwysig eraill, megis cydgomisiynu llety diogel i blant ag anghenion cymhleth, aildendro HMP Parc YOI a datblygiadau yng Nghartref Plant Diogel Hillside.

Sut rydyn ni wedi dylanwadu

Er gwaethaf y diffyg cynnydd o ran y Glasbrint, rwyf wedi croesawu ymgysylltiad parhaus Heddluoedd Cymru, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Timau Troseddau Ieuenctid, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, YCS, lleoliadau'r ddalfa yng Nghymru, Parc YOI a Chartref Plant Diogel Hillside, a hefyd sefydliadau eraill sy'n cefnogi plant ac sy'n dod i gysylltiad â gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid i ddysgu mwy am sut gall eu gwasanaethau hybu hawliau plant. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, bu fy nhîm a minnau'n gweithredu i gefnogi'r dull hwn trwy gynnal ein seminar gyntaf ar hawliau plant mewn cyfiawnder ieuenctid.

Er bod yr ymgysylltu â'r sector wedi bod yn addawol, creodd pandemig y Coronafeirws hefyd heriau sylweddol ar gyfer y rhai sy'n gweithio yn y sector, ac ar brydiau, mae plant sy'n cael eu rhoi yn y ddalfa wedi wynebu amharu sylweddol ar eu hawliau. Fe fuon ni'n gweithredu ar frys i sicrhau bod hawliau'r rhai yn y ddalfa yn cael eu diogelu yn eu lleoliadau. Gallwch chi ddarllen mwy am y camau gymeron ni yn yr adroddiad Coronafeirws a Ni.

Rwy'n falch o weld ymrwymiad lleoliadau diogel Cymru i gadw plant yn ddiogel ac wedi'u hamddiffyn rhag y feirws, ond hefyd i barhau i gynnig ystod eang o weithgareddau addysgiadol a llesiant, yn ogystal â chyfleoedd i blant gael ymweliadau rhithwir ac wyneb yn wyneb gyda'u teulu.

AMGYLCHEDD TEULU A GOFAL AMGEN

Er mai niferoedd bach iawn o blant Cymru sy'n cael eu rhoi yn y ddalfa (ffigurau sengl ar adegau eleni) ar draws Cymru a Lloegr, mae wedi bod yn anoddach sicrhau bod hawliau'r rhai a leolwyd y tu allan i Gymru yn cael eu diogelu.

Argymhelliad

Mae angen i Lywodraeth Cymru arddangos cynnydd tuag at weithredu'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid ymhellach, yn arbennig yr elfennau llety diogel.

Gan ddysgu gwersi o'r pandemig, dylai'r sectorau ystyried hefyd sut gall elfennau gorau ymarfer barhau. Dylai hyn gynnwys dulliau gweithredu ataliol a dewisiadau amgen yn lle'r ddalfa, gan sicrhau bod lleoliadau'r ddalfa yn gallu cynnig arfer gwybodus am drawma sy'n ceisio lleihau'r achosion o drais a chanolbwyntio ar ailsefydlu. Gall hyn gyfrannu at Gymru'n gwireddu ei gweledigaeth ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid.

Barn plant a phobl ifanc

Dyma sampl o gwestiynau a ofynnwyd gan bobl ifanc sy'n cael eu cadw mewn unedau diogel yn ein sesiwn bord gron agoriadol ar gyfiawnder Ieuenctid:

"Pam dyw eu stafelloedd ddim yn gallu bod yn fwy cartrefol ac yn llai fel cell?"

"Dylai plant gael eu cludo mewn ceir heddlu, nid mewn caets yng nghefn fan – all hyn newid?"

"Sut gall yr Heddlu fod yn fwy sensitif i anghenion plant – mae'n teimlo weithiau eu bod nhw'n cael eu trin fel oedolion?"

"Pam mae cyfyngu ar faint o amser sy'n cael ei ganiatáu i bobl eraill, teulu a ffrindiau, ffonio plant (h.y. cyhyd â bod digon o gredyd)?"

AMGYLCHEDD TEULU A GOFAL AMGEN

Gofalwyr Ifanc

Y materion allweddol

Mae'r pandemig wedi golygu bod plant a phobl ifanc yn wynebu llawer o heriau, ac mae'r newidiadau rydyn ni wedi'u goddef fel cymdeithas wedi effeithio'n uniongyrchol ar hawliau pobl ifanc. Yn achos llawer o blant sydd â chyfrifoldebau gofalu, rwyf wedi bod yn boenus o ymwybodol o'r pwysau ychwanegol a roddwyd arnyn nhw yn ystod y cyfnod hwn, gan fod llawer o wasanaethau a rhwydweithiau cefnogi wedi cael eu cyflwyno o bell.

Sut rydyn ni wedi dylanwadu

Ar ôl bod mewn cysylltiad â grwpiau cefnogi gofalwyr ifanc yn ystod y pandemig, rydyn ni'n ymwybodol bod llawer o ofalwyr ifanc yn debygol o fod wedi ysgwyddo cyfrifoldebau cynyddol. Mae llawer wedi cydbwyso cyfrifoldebau gofalu di-dor â gofynion gwaith, ysgol a choleg. Rydyn ni hefyd yn ymwybodol bod y gefnogaeth gan rwydweithiau megis yr ysgol, grwpiau cefnogi neu grwpiau cymdeithasol wedi bod yn rhithwir yn bennaf ar hyd y rhan fwyaf o'r flwyddyn. Adlewyrchwyd hynny'n arbennig mewn rhai ymatebion i'n harolygon Coronafeirws a Fi, fel y nodir isod.

Fel rhan o'n hymateb i COVID 19, fe greon ni le i ofalwyr ifanc gael mynediad i wybodaeth a chefnogaeth ar ein **Hwb Gwybodaeth Coronafeirws**. Datblygwyd hyn gyda chefnogaeth gan Swyddogion Llywodraeth Cymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru. Roedden ni'n pryderu bod angen i Ofalwyr Ifanc gael mynediad at wybodaeth glir, hygyrch ynghylch sut gallan nhw gael mynediad i wasanaethau, sut gallai eu cefnogaeth fod wedi newid (iddyn nhw a'r rhai maen nhw'n eu cefnogi), a bod angen cefnogaeth arnyn nhw ynghylch sut i gadw'n iach gartref.

Mae fy Swyddfa wedi cael ei chynrychioli yng ngrŵp Cynghori Weinidogol y Gofalwyr, sydd wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd yn ystod y pandemig, er mwyn parhau'n ymwybodol o anghenion Gofalwyr Cymru. Wrth i Gymru gael hyd i'w ffordd trwy Bandemig y Coronafeirws, mae'n hanfodol bod ffocws yn parhau ar gefnogi'r grŵp yma o bobl ifanc.

AMGYLCHEDD TEULU A GOFAL AMGEN

Argymhelliad

Wrth i Gymru symud ymlaen gyda'i Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl, rhaid canolbwyntio'n ddigonol ar sut gall gwasanaethau gefnogi gofalwyr ifanc yn well.

Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofalu er mwyn sicrhau bod y strategaeth Gofalwyr Di-dâl yn adlewyrchu eu hanghenion ac yn hybu eu hawliau yn ddigonol.

Wrth i waith fynd rhagddo i roi sylw i anghydraddoldebau ym myd addysg a gwaith i ofalwyr Cymru, rhaid i'r ffrydiau gwaith hyn gysylltu â dull gweithredu ysgol gyfan Cymru, fel bod modd i ofalwyr ifanc gael mynediad at gefnogaeth gyfannol trwy eu rhwydweithiau.

Barn plant a phobl ifanc

Sylwadau o'n harolwg
Coronafeirws a Fi:

"Mae mwy o risg i mam ddal covid-19 na phobl eraill, ac er bod hi'n aros yn ddiogel gartre, rwy'n cael fy anfon allan i wneud y siopa, ac rwy'n pryderu y gallwn i ddal e gan rywun arall yn y siopau a'i roi i mam."

"Rydw i'n gorfod helpu fy mrawd 9 oed, sy'n fyddar, pan fydd dad yn gweithio gartre, ac alla i ddim gwneud fy ngwaith."

"[Rwy'n pryderu] [achos mod i'n ofalwr ifanc sy'n gofalu am nain sydd â chyflyrau iechyd gwaelodol."

ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

Cwricwlwm i Gymru

Y materion allweddol

Roedd diwedd pumed tymor y Senedd yn nodi penllanw cyfnod estynedig o ddiwygio addysg, wrth i'r Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) ddod i rym.

Fe wnes i argymhellion ynghylch diwygio'r cwricwlwm ac asesiadau yn fy mhedwar Adroddiad Blynyddol diwethaf, gan alw am wreiddio addysg hawliau dynol a dysgu am hawliau plant ar draws y cwricwlwm.

Fe alwais i hefyd am roi dyletswydd sylw dyledus i CCUHP ar wyneb y ddeddfwriaeth, ac am alluogi plant a phobl ifanc i gyfranogi mewn diwygio'r cwricwlwm.

Sut rydyn ni wedi dylanwadu

Er mwyn cyflawni fy argymhellion blaenorol mae fy swyddfa wedi defnyddio dull deul: yn gyntaf, rydyn ni wedi ceisio cefnogi, datblygu a hybu dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau mewn lleoliadau addysg ledled Cymru; ac yn ail, rydyn ni wedi cynnal ymgysylltiad parhaus â'r Llywodraeth ar hyd y broses o ddatblygu'r Bil a'r canllawiau cysylltiedig. Mae'r ddau llyn yma wedi parhau yn ystod eleni, ac mae fy swyddfa wedi parhau i weithio gyda'r proffesiwn addysg ac ysgolion i alinio dulliau o ymdrin â'r cwricwlwm ag arfer hawliau, a hefyd yn ymgysylltu â'r Llywodraeth i hyrwyddo'r angen am wreiddio'r arfer hwn yn y dull gweithredu cenedlaethol.

Ar lefel genedlaethol, fe gyflwynais i ymateb ymgynghori llawn i gynigion ynghylch addysg Grefyddol, Gwerthoedd a Moeseg, a chyflwyno **tystiolaeth ysgrifenedig a llafar fanwl** yn ystod craffu Cyfnod 1 ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu. Roedd hyn yn nodi pam fod angen mesurau ychwanegol i ddiogelu hawliau plant mewn penderfyniadau o ddydd i ddydd ynghylch trefniadau'r cwricwlwm ac asesu yn eu lleoliad addysg. Roedd **Adroddiad Cyfnod 1** ar y Bil yn adleisio fy argymhellion y dylai'r bil sicrhau mwy o rôl i addysg hawliau dynol ac yn cynnwys dyletswydd sylw dyledus i CCUHP.

ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

Derbyniodd y Llywodraeth yr argymhelliad i ddiogelu addysg hawliau dynol ymhellach yn y cwricwlwm, gan nodi'r sylfaen sy'n bodoli ar gyfer hynny trwy gynnwys CCUHP ac addysg hawliau dynol yn benodol yn y canllawiau a ddatblygwyd. Fodd bynnag, gwrthododd y Llywodraeth unwaith yn rhagor yr argymhelliad ar gyfer dyletswydd sylw dyledus. Mewn ymateb, fe wnes i ysgrifennu at y Gweinidog ac at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, yn nodi pam roedd y Bil yn dal i fethu sicrhau y byddai plant yn profi eu hawliau trwy eu haddysg.

Wedi hynny, newidiwyd y Bil yng Nghyfnod 3 i gynnwys dyletswydd newydd ynghylch hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o Gonfensiynau'r CU ar hawliau plant a phobl ag anableddau. Fe wnes i ysgrifennu at holl Aelodau'r Senedd i fynegi fy nghefnogaeth i'r Bil ac i groesawu'r newid hon, gan nodi ar yr un pryd nad yw'n bodloni safonau dyletswydd sylw dyledus yn llawn.

Cynnydd

Cytunwyd ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) gan y Senedd ar 9 Mawrth 2021. Pasiwyd y Ddeddf gan gynnwys 'Dyletswydd i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o Gonfensiynau'r CU ar hawliau plant a phobl ag anableddau'. Mae'r ddyletswydd hon yn golygu bod rhaid hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ddau gonfensiwn ymhlith pawb sy'n darparu dysgu ac addysgu yng nghyswllt y cwricwlwm newydd.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwmo i gydweithio'n agos â'm swyddfa i ddatblygu pecyn cefnogi o ddysgu ac arweiniad proffesiynol fydd yn golygu bod modd cyflawni'r ddyletswydd hon.

Mae'n hanfodol bod yr holl staff a llywodraethwyr perthnasol yn derbyn hyfforddiant a chefnogaeth fel eu bod nid yn unig yn gwybod am hawliau ac yn eu deall, ond hefyd wedyn yn gallu eu rhoi ar waith ar draws polisïau a gweithdrefnau'r ysgol. Gwybod am hawliau yw'r cam cyntaf yn unig at sicrhau eu bod yn cael eu cynnal a'u diogelu, a bod plant yn profi eu hawliau mewn modd cadarnhaol ar draws amgylchedd a chymuned yr ysgol.

ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

Argymhelliad

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr holl staff addysgu a chymorth sy'n ymwneud â chyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn derbyn dysgu proffesiynol o safon uchel a chanllawiau cenedlaethol i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o CCUHP a CCUHPA.

Barn plant a phobl ifanc

Dyma feddyliau rhai o'r bobl ifanc y buon ni'n gweithio gyda nhw fel rhan o'n cyflwyniad i Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn

Ydych chi'n ymwybodol o'ch hawliau? Ydy pobl yn parchu eich hawliau?

"Mae fel bod e'n ormod o drafferth i ddweud wrthy ch. Dylen ni wybod nhw i gyd."

"Fe glywson ni fod gennym ni hawliau, ond dydyn nhw ddim yn dweud wrthy ch beth ydyn nhw – maen nhw'n disgwyl i chi wybod."

"Ydyn, mewn ffordd, trwy'r ysgol, fforymau ieuentid a'r senedd ieuentid."

"Os dywedan nhw wrthy ni, byddan nhw'n meddwl bod gennym ni fwy o reolaeth drostyn nhw."

"Dylen nhw ddweud mwy wrthy ni amdany'n nhw mewn dosbarthiadau ABCh a Sgiliau, ond dydyn nhw ddim yn gwneud llawer gyda ni ynddyn nhw."

ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Y materion allweddol

Mae pobl ifanc yng Nghymru wedi cyfleu negeseuon cyson i mi ynghylch Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar hyd fy nghyfnod fel Comisiynydd. Yn gryno, mae pobl ifanc yn teimlo bod hwn yn faes o'u haddysg sydd â diffygion difrifol, o ran dyfnder ac ehangder; byddai'r farn honno'n cael ei mynegi'n gyffredin mewn llawer o'm hymweliadau ag ysgolion a lleoliadau eraill. Roedd yr asesiad hwn yn cael ei gefnogi gan ganfyddiadau'r Panel Arbenigwyr ar Addysg Rhyw a Chydberthynas yn 2018.

Mae sicrhau hawliau cyffredinol i ddysgu am gydberthynas a rhywioldeb yn gam hanfodol at gychwyn proses y mae angen mawr amdani yng Nghymru, a fydd yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn derbyn cyfleoedd o safon uchel i ddatblygu eu dealltwriaeth o gydberthynas a rhywioldeb. Bydd hyn yn helpu i wireddu darpariaethau CCUHP, y mae gan holl blant Cymru hawl iddynt, yn ogystal â'u helpu i gael hyd i ffordd trwy'r byd y maen nhw'n byw ynddo, a'i ddeall. Mae hyn yn adlewyrchu hawliau dynol plant i dderbyn gwybodaeth gywir, i fod yn ddiogel a chael eu hamddiffyn rhag niwed, i beidio â dioddef camwahaniaethu, i gael addysg gyfannol, ac i gyfranogi'n weithredol mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywyd.

O ganlyniad, rwyf wedi croesawu ymrwymadau Llywodraeth Cymru i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (RSE): mae Deddf y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn cynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fel elfen orfodol, ac yn dileu hawl rhieni i dynnu plant a phobl ifanc allan o'r dysgu pwysig yma.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi mai deddfwriaeth yw un yn unig o'r newidiadau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod sut mae plant a phobl ifanc yn profi addysg cydberthynas a rhywioldeb yn cael ei drawsffurfio, a bod rhaid i hynny gael ei ategu gan ystod o fesurau yn ymwneud â dysgu proffesiynol, cyfranogiad pobl ifanc, a datblygiad capasiti ac arbenigedd mewn lleoliadau.

ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

Sut rydyn ni wedi dylanwadu

Bu fy swyddfa'n cyfranogi yng ngrŵp rhanddeiliaid Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb Llywodraeth Cymru o haf 2020 ymlaen, i gefnogi datblygiad y Côd a'r Canllawiau drafft.

Bydd y Côd yn ffurfio sylfaen statudol ar gyfer cyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, gyda chefnogaeth canllawiau manylach. Bu fy swyddfa'n ymwneud â gwaith estynedig ar y canllawiau hyn, gan hybu'r angen am sicrhau eu bod yn adlewyrchu dull gweithredu cyfranogol, seiliedig ar hawliau.

Mae fy swyddfa hefyd wedi cydweithio ag eraill ar draws y sector plant i hyrwyddo gwybodaeth gywir, gadarnhaol a seiliedig ar hawliau ynghylch Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wrth i Ddeddf y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 fynd trwy'r broses o ddod yn ddeddfwriaeth.

Cynnydd

Cyhoeddwyd y Côd a'r Canllawiau drafft ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn 2021, ac mae fy swyddfa wedi cyflwyno ymateb ymgynghori manwl, yn ogystal â chefnogi fy Mhanel Ymgynghorol o bobl ifanc i gyflwyno'u hymateb eu hunain.

Effeithiwyd ar y broses ddrafftio gan y cyfyngiadau a orfodwyd gan y pandemig oedd yn parhau, ac mae cyfyngiadau ar weithrediad lleoliadau addysg yng ngwanwyn 2021 wedi golygu bod sicrhau cyfranogiad pobl ifanc yn anoddach.

Nid yw argymhellion ehangach y Panel Arbenigwyr Addysg Rhyw a Chydberthynas, er enghraifft yng nghyswllt datblygu dysgu proffesiynol a rhwydwaith arbenigol, wedi cael eu symud ymlaen ochr yn ochr â datblygiad y Côd a'r canllawiau.

Rwyf hefyd yn dal i bryderu am blant a phobl ifanc sydd mewn lleoliadau ar hyn o bryd, ond na fydd ganddynt hawl i gael mynediad i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o dan ddull gweithredu'r cwricwlwm newydd oherwydd bod y Ddeddf yn dod i rym yn raddol; mae'r amserlen gyfredol yn golygu nad oes gan unrhyw blentyn sydd ym Mlwyddyn 6 neu'n uwch ar hyn o bryd hawl i dderbyn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fel yr amlinellir yn y Cwricwlwm i Gymru.

ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

Argymhelliad

Rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu ac ariannu cynnig cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol o safon uchel, fel bod modd i bob lleoliad yng Nghymru, erbyn mis Medi 2022, fod wedi elwa o'r dysgu proffesiynol hwn, a bod wedi nodi ymarferydd arweiniol arbenigol ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, sy'n gallu bwrw golwg dros ddull lleoliad cyfan o ymdrin â'r pwnc hwn sydd wedi'i integreiddio â'r cwricwlwm.

Barn plant a phobl ifanc

Dyma rai dyfyniadau gan aelodau o'n panel ymgynghorol pobl ifanc ar y pwnc:

"Fe gawson ni newid i'r cwricwlwm ar ôl i'r myfyrwyr gwyno. Fe wnaethon nhw ddysgu ni am gysyniad am y tro cyntaf yr wythnos ddiwethaf. Fe wnaethon nhw ddysgu ni, ond chawson ni ddim cyfle i drafod y peth wedyn."

"Yn bersonol rwy'n credu bod angen dysgu blynyddoedd iau am iechyd rhyw, e.e. blwyddyn saith, oherwydd yn fy ysgol i doedden ni ddim yn cael ein dysgu am hynny tan flwyddyn naw, ond erbyn hynny roedd yn rhy hwyr, achos fe glywais i sawl stori gan ffrindiau oedd wedi profi aflonyddu rhywiol, a byddai hynny wedi cael ei osgoi tasen ni'n addysgu yn y blynyddoedd ysgol iau."

"Doeddwn i ddim yn gwybod beth oedd LHDTC nes mod i'n gofyn i'm ffrindiau, ac yn fy marn i, dylai'r math yna o wybodaeth ddod oddi wrth ein hathrawon."

"Rwy'n credu bod dechrau o oed ifanc yn bwysig iawn – nid iechyd rhywiol o reidrwydd, ond parchu pawb beth bynnag yw eu rhywedd/cyfeiriadedd rhywiol. Trwy sicrhau bod plant yn clywed y trafodaethau yma'n gynnar, byddan nhw'n tyfu i fyny'n deall pwysigrwydd parch a chydysniad."

"A dweud y gwir, rydyn ni'n gwneud mwy o ddiwrnodau am ddiogelwch tân a smygu na hyn."

"Rwy hefyd yn credu bod angen i ni normaleiddio'r pwnc yma, mae llawer o bobl, yn enwedig oedolion, yn gweld e fel pwnc tabŵ."

"Yn fy ysgol i, rydyn ni'n cael un wers yn trafod rhyw a pherthnasoedd ym mlwyddyn 8 a dydych chi byth yn dysgu am bynciau felna nes bod mis LHDTC+ yn dod, a phryd hynny rydyn ni'n cael wythnos o drafod gwahanol gyfeiriadedd rhywiol. Dyw e'n bendant ddim yn cael ei drafod digon, ac rwy'n siomedig am y pethau rydyn ni'n cael ein dysgu ar y pynciau yma. Yn ddiweddar daeth fy ffrind hoyw allan, ac mae wedi ofni dod allan oherwydd galle fe wynebu atgasedd yn ein hysgol ni. Enghraifft o gasineb wynebodd e oedd bachgen yn ein blwyddyn ni, a aeth ymlaen i ddefnyddio'r gair F- yn ei erbyn a'i alw'n rhywbeth hiliol. Does neb yn ein hysgol ni byth yn cael eu dysgu mwy am LHDTC+, ac oherwydd hynny, dyw llawer o bobl yn fy ysgol ddim yn gweld mor niweidiol yw eu sylwadau, mae'n gymaint o siom."

ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

Cymwysterau

Y materion allweddol

Cafodd cyfres arholiadau 2020 ei chanslo mewn ymateb i'r pandemig, a gwnaed trefniadau amgen i ddyfarnu cymwysterau. Arweiniodd y model safoni a ddefnyddiwyd ar gyfer cymwysterau cyffredinol at anfonlonrwydd cyffredinol ac anghyfiawnder i unigolion, ac ym mis Awst 2020 gwnaed penderfyniad i ddyfarnu ar sail graddau asesu canolfannau yn lle.

Effeithiodd y pandemig ar gymwysterau galwedigaethol 2020 yn ogystal, a bu'n rhaid i rai pobl ifanc oedd yn sefyll cymwysterau galwedigaethol oddef cyfnod hir o ansicrwydd ynghylch sut byddai'r rhain yn symud ymlaen. Parhaodd hyn yn hwy, yn rhannol oherwydd bod cyrff dyfarnu yn aml wedi'u lleoli yn Lloegr, a bod myfyrwyr yng Nghymru yn syrthio rhwng dwy stôl o ran y cyfyngiadau a'r trefniadau oedd ar waith yn y ddwy wlad.

Mae'r trefniadau ar gyfer cymwysterau 2021 hefyd wedi gorfod cael eu gwneud mewn modd gwahanol. Sefydlodd y Llywodraeth y Grŵp Dylunio, Cyflwyno a Chynghori (DDAG) i archwilio trefniadau amgen, ac yn hydref 2020 cyhoeddodd y Gweinidog na fyddai cyfres o arholiadau'n cael eu cynnal fel arfer. Yn ystod y gaeaf a gwanwyn 2021 cyhoeddwyd y dull gweithredu amgen fel cam wrth iddo gael ei ddatblygu.

Er mai'r prif fater eleni fu canolbwyntio ar alluogi pobl ifanc i sicrhau cymwysterau a symud ymlaen, amlygwyd ystyriaethau tymor hwy yn ystod y flwyddyn. Un o'r rheiny yw bod modd cael dulliau amgen o ddyfarnu arholiadau, a bod manteision ac anfanteision i ddefnyddio arholiadau fel prif ddull asesu. Un arall yw'r ffaith nad yw cymwysterau galwedigaethol wedi'u datganoli a'r anghysondeb mae hynny wedi'i achosi o ran gallu i gefnogi myfyrwyr galwedigaethol yng Nghymru â gwybodaeth a chyfleoedd teg.

ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

Sut rydyn ni wedi dylanwadu

Ym mis Mai 2020 fe gyflwynais i ymateb i ymgynghoriad Cymwysterau Cymru ar y trefniadau ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020. Roedd fy ymateb yn galw am newid elfennau canolog o'r dull gweithredu, ac yn amlygu bod angen y canlynol:

- **Prosesau mwy cadarn ynghylch asesu gan ganolfannau, gyda'r angen am gymedroli mewnol ac allanol a gefnogir gan ganllawiau clir;**
- **Angen am sicrhau graddau i ymgeiswyr preifat (er enghraifft pobl ifanc sy'n cael eu haddysgu gartref) fel nad yw'r bobl ifanc hynny'n cael eu gadael ar ôl;**
- **Proses apelïadau dryloyw sy'n caniatáu sail ehangach ar gyfer apêl na'r hyn a gynigiwyd;**
- **Angen ystyried graddau a ragfynegwyd fel sylfaen werthfawr o dystiolaeth ynddynt eu hunain.**

Fe wnes i ddal ati i godi'r pryderon hyn yn ystod y cyfnod rhwng mis Mai a mis Awst, yn uniongyrchol gyda'r Gweinidog Addysg ac mewn cyfarfodydd a gohebiaeth gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a Chymwysterau Cymru. Fe benderfynais beidio â chyhoeddi unrhyw feirniadaeth ar y broses ddyfarnu cyn diwrnod y canlyniadau, er mwyn osgoi unrhyw oblygiadau a allai danseilio cyflawniadau'r bobl ifanc oedd yn derbyn canlyniadau.

Ar ddiwrnod y canlyniadau, roedd yn eglur bod y model safoni oedd yn cael ei ddefnyddio yn gadael pobl ifanc i lawr. Fe wnes i alwadau cyhoeddus mewn nifer o ddatganiadau, gan gynnwys ymddangos ar BBC Breakfast, yn galw am ddefnyddio graddau asesu'r canolfannau. Fe wnes i ddatganiadau cyhoeddus hefyd yn annerch pobl ifanc eu hunain yn uniongyrchol.

Ym mis Awst 2020, yn ogystal â chyswllt rheolaidd â'r Llywodraeth a Chymwysterau Cymru ynghylch cyfres 2020, fe wnes i gyflwyno blaenoriaethau yr oedd angen eu hystyried ar gyfer cyfres arholiadau 2021. Fe wnes i barhau â'r ymgysylltiad hwn ar hyd hydref a gaeaf 2020: rhoddodd fy swyddfa dystiolaeth i adroddiad y Panel Adolygu Annibynnol ar gymwysterau, ac roedden ni'n aelod o grwpiau rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru a Chymwysterau Cymru ar gyfer cyfres haf 2021, lle buon ni'n galw'n gyson am ddull gweithredu oedd yn rhoi blaenoriaeth i lesiant, dysgu, peidio â chamwahaniaethu, ac atebolrwydd i bobl ifanc.

ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

Bues i hefyd yn hyrwyddo hawliau pobl ifanc i fedru cyfranogi mewn penderfyniadau a derbyn gwybodaeth glir. Bu fy swyddfa yn cynghori Cymwysterau Cymru ynghylch sut i sefydlu Panel Dysgwyr Ymgynghorol, ac yn rhoi cyngor ac adborth rheolaidd ynghylch sut i wella cyfathrebu a'r negeseuon i bobl ifanc. Ar ben hynny, bu fy swyddfa'n hwyluso sesiynau holi ac ateb ynghylch cymwysterau rhwng y Gweinidog Addysg a phobl ifanc er mwyn llywio penderfyniadau cenedlaethol.

Cynnydd

Ar sail cyngor cynrychiolwyr proffesiynol trwy'r DDAG, a chan ymateb i sefyllfa newidiol y pandemig yn ystod gaeaf 2020/21, gwnaeth y Llywodraeth gyfres o gyhoeddiadau ar ddiwedd 2020 a dechrau 2021 oedd yn cyflwyno prif elfennau'r dull gweithredu ar gyfer haf 2021.

Roedd elfennau o'r cyfeiriad Gweinidogol yn cyfateb i'r egwyddorion y bu fy swyddfa'n dadlau o'u plaid ar hyd y broses. Roedd y rhain yn cynnwys: hyblygrwydd yn y dull gweithredu a gallu canolfannau i ddefnyddio ystod o dystiolaeth asesu; pwyslais ar fwyafu amser dysgu; dulliau gweithredu fyddai'n galluogi ymgeiswyr preifat (er enghraifft pobl ifanc sy'n cael eu haddysgu gartref) i gael cymwysterau; a sicrhau hawl pobl ifanc i apelio yn erbyn eu graddau.

Er bod cyhoeddiadau oedd yn cyflwyno'r cyfeiriad cyffredinol wedi digwydd yn gynnar yn y broses, daeth y manylion i ganolfannau ynghylch sut i gyflwyno'r trefniadau newydd yn ddiweddarach, ac ni chyhoeddwyd canllawiau gan Cymwysterau Cymru tan ddiwedd Mawrth 2021. Yn wyneb yr amserlen hon, cafodd llawer o ganolfannau fod rhoi ystod o ddulliau asesu ar waith yn heriol. Er nad oedden nhw'n disgwyl arholiadau, cafodd llawer o bobl ifanc amserlenni asesu tebyg i arholiadau gan eu hysgol neu eu coleg ar ddiwedd mis Mawrth.

Ddiwedd 2020 ac yn 2021 fe wnaeth y cyfathrebu â phobl ifanc ynghylch arholiadau wella, a darparwyd gwybodaeth gliriach a mwy hygyrch. Bu'r Llywodraeth a Cymwysterau Cymru hefyd yn datblygu ac ymateb i gyfleoedd cyfranogiad. Ond yng ngwanwyn 2021, roedd pobl ifanc yn dal i adrodd bod negeseuon dryslyd ac anghyson ynghylch cymwysterau yn creu pryder ac ansicrwydd.

ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

Argymhelliad

Mae angen bod gwybodaeth eglur, hygyrch yn cael ei chyfeirio at bob person ifanc, gan gynnwys y rhai sy'n sefyll cymwysterau galwedigaethol, ynghylch sut bydd eu cymwysterau'n cael eu dyfarnu yn 2022. Mae angen i'r wybodaeth hon fod ar gael cyn gynted â phosib, a dylai pobl ifanc fod yn rhan o ddatblygu'r negeseuon hyn.

Barn plant a phobl ifanc

"Ddim yn gwybod beth fydd fy ngraddau, ac alla i wneud dim i newid barn fy athro, hyd yn oed os bydda i'n anghytuno"

"Mae canslo'r arholiadau yn golygu mod i'n ddi-straen, ond flwyddyn nesa bydd rhaid i fi ganolbwyntio mwy ar fy ngwaith i gyflawni'r graddau rydw i eisiau."

"Mae dysgu ar-lein yn galw am dechnoleg mae fy nheulu'n methu ei fforddio, ac rydw i fel arfer yn ei chael yn yr ysgol. Ar ben hynny, mae'r diffyg gwybodaeth am sut bydd ein graddau yn cael eu dyfarnu, maen nhw'n gwybod bod plant yn gweithio'n galetach yn ystod gwyliau'r Pasg nag ar gyfer arholiadau ffug, a bod eu graddau'n codi un neu hyd yn oed ddwy radd"

ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

Teithio gan Ddysgwyr

Y materion allweddol

Gall teithio i leoliadau addysg fod yn destun pryder i lawer o blant, pobl ifanc a theuluoedd, gyda materion sy'n cynnwys diogelwch llwybrau cerdded, argaeledd trafndiaeth i fyfyrwyr ôl-16, ac addasrwydd trafndiaeth i blant a phobl ifanc anabl neu'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, roedd angen adolygu'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, er mwyn pennu sut gallai hyn ddiwallu anghenion teithio plant a phobl ifanc yn well, ac fe wnes i alw am hynny yn ôl yn Adroddiad Blynyddol 2015/6.

Roedd angen am yr Adolygiad hwn hefyd yng ngoleuni deddfwriaeth newydd sy'n gysylltiedig ag addysg a thrafnidiaeth: yn fwyaf nodedig gweithredu Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaethau Cyhoeddus 2000, a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thriwilydd Addysg (Cymru) 2018 ('Deddf ALNET'). Mae Deddf 2018 yn berthnasol i bobl ifanc hyd at 25 oed, ond nid yw hynny ar hyn o bryd yn cael ei gefnogi gan hawliau i dderbyn trafndiaeth: o dan Fesur 2008 nid oes ond rhwymedigaethau disgresiynol i wneud trefniadau trafndiaeth ar gyfer plant neu bobl ifanc sydd ddim o oed ysgol gorfodol.

O ganlyniad nid yw dysgwyr hyn bob amser yn gallu cael mynediad i leoliadau addysg yn hwylus, a gall hynny gael effaith anghymesur ar bobl ifanc yn mynychu, neu'n gobeithio mynychu, lleoliadau laith Gymraeg, Arbenigol neu Ffydd, a gallan nhw hefyd lesteirio mynediad pobl ifanc at hyfforddiant galwedigaethol a chymwysterau.

Sut rydyn ni wedi dylanwadu

Yn fy Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2018/19 fe wnes i amlygu diffyg hawl pobl ifanc 16+ i gael trafndiaeth i leoliad eu haddysg. O ganlyniad, fe wnes i alw ar y Llywodraeth i sicrhau dyletswydd statudol sy'n gofyn bod darpariaeth i bob plentyn a pherson ifanc sy'n cael eu cwmpasu gan Ddeddf ALNET 2018 gael trafndiaeth ddiogel i leoliad eu haddysg. Yn ystod taith Deddf 2018 at ddod yn ddeddfwriaeth, cafodd newidiadau a gynigiwyd i drafndiaeth eu gwrthod gan y Llywodraeth ar y sail bod modd diwallu'r anghenion hyn trwy ddiweddarau deddfwriaeth eilaidd ynghylch Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Roedd angen nawr i'r Llywodraeth sicrhau bod hynny'n cael ei gyflawni, ac o ganlyniad, fe wnes i argymhell bod y Llywodraeth yn ailystyried eu hymateb i'm hargymhelliad yn adroddiad blynyddol 15/16 i adolygu Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a'r darpariaethau a'r canllawiau statudol cysylltiedig.

Er i'r argymhelliad hwn gael ei wrthod yn y lle cyntaf, hysbysodd y Llywodraeth fy swyddfa wedi hynny eu bod yn cychwyn adolygiad o deithio gan ddysgwyr ôl-16. Roeddwn i'n pryderu y byddai cwmpas

ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

yr adolygiad yn annigonol i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc i deithio'n ddiogel i leoliad eu haddysg. Ar ôl hynny, ehangodd y Llywodraeth gwmpas yr adolygiad i gynnwys pobl ifanc 4-16 oed, ac i ystyried y pellterau mae angen i blant eu teithio, gan wneud ymrwymiad cyhoeddus i weithio gyda fy swyddfa i sicrhau bod yr adolygiad yn cyflawni gwelliannau i blant a phobl ifanc.

Ar ben hynny, bu fy swyddfa'n ymgysylltu am gyfnod estynedig â thîm Llywodraeth Cymru oedd yn arwain datblygiad Côd Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2021, er mwyn dadlau o blaid cynnwys trafndiaeth yn y Côd, i'r graddau yr oedd hynny'n bosibl.

Cynnydd

Cyflwynwyd Côd Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2021 gerbron y Senedd ar ddiwedd y pumed tymor, a bydd y broses o roi'r Ddeddf ar waith yn raddol yn cychwyn ym mis Medi 2021. Sicrhaodd fy swyddfa fod trafndiaeth yn cael ei chynnwys fel maes gorfodol yn y Cynllun Datblygu Unigol (CDU). Mae hynny'n golygu y bydd trafndiaeth bob amser yn cael sylw wrth gynllunio sut mae diwallu anghenion plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, er nad yw hynny ar ei ben ei hun yn creu dyletswydd statudol i ddarparu'r drafnidiaeth honno.

Roedd yr Adolygiad o Drafnidiaeth Dysgwyr, gyda'i gwmpas ehangach, i gael ei gwblhau ddiwedd Mawrth 2021, ond ni chafwyd adroddiad arno erbyn y dyddiad hwn.

Argymhelliad

Nid wyf wedi gweld copi o'r Adolygiad o Drafnidiaeth Dysgwyr gorffenedig. Er bod y cyfyngiadau cyn-etholiad o fis Mawrth 2021 wedi atal cyhoeddi o bosib, ni ellir gadael y gwaith hwn a chamau gweithredu dilynol ar ôl ym mhumed tymor y Senedd.

Rwy'n disgwyl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi eu canfyddiadau a chyflwyno'r camau a gymerir o ganlyniad i'w hadolygiad o Deithio gan Ddysgwyr. Mae modd cyhoeddi canlyniadau interim os oes angen gwneud gwaith pellach, ond mae'n rhaid cyhoeddi gwybodaeth i sicrhau tryloywder a chynnydd ar y mater hwn.

ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

Dull gweithredu ysgol gyfan

Y materion allweddol

Rwyf wedi bod yn galw am ddull ysgol gyfan o ymdrin â iechyd meddwl a llesiant mewn ysgolion yng Nghymru ers i mi gael fy mhenodi gyntaf yn 2015.

Mae dull ysgol gyfan yn cynnwys yr hyn mae plant yn ei ddysgu yn yr ysgol am iechyd meddwl a llesiant (er enghraifft ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, datblygiad yn ystod plentyndod a'r glasoed, addysg cydberthynas a rhywioldeb, celfyddydau mynegiannol a llythrennedd corfforol), a'r amgylchedd cefnogol o'u hamgylch yn yr ysgol (a ddylai gynnwys mesurau gwrthfwlio, cwmselwyr ysgol, cyfleoedd ar gyfer ymwybyddiaeth ofalgar, yoga neu weithgaredd corfforol, grwpiau cefnogi, rhaglenni ataliol ac ardaloedd meithrin ar sail tystiolaeth, yn ogystal â chefnogaeth ac arweiniad gan weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ac eraill).

Sut rydyn ni wedi dylanwadu

Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru yn awr wedi cyhoeddi **fframwaith statudol ar wreiddio dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol**. Mae fy nhim a minnau wedi bod yn aelodau annibynnol o'r grŵp Cynghori Gweinidogol ar y cyd a nifer o weithgorau cysylltiedig.

Mae'r fframwaith yn rhoi arweiniad i ysgolion ar greu cynllun gweithredu ar gyfer gwella amgylchedd yr ysgol o ran cefnogaeth iechyd meddwl a llesiant, a gwella cysylltiadau ysgolion â gwasanaethau ehangach fel rhan o fecanwaith cefnogi system gyfan.

Rwy'n croesawu'r canllawiau newydd statudol hyn, ond bydd angen cefnogaeth sylweddol ar ysgolion i gyflawni nodau'r fframwaith. Mae'n bwysig nad yw ysgolion yn cael eu gweld fel yr unig rai sy'n rhoi'r canllawiau hyn ar waith – un rhan bwysig iawn o'r darlun mwy ydyn nhw, ac mae'r darlun hwnnw'n cynnwys gwasanaethau meddwl, gwasanaethau iechyd cyhoeddus, gofal cymdeithasol, gwasanaethau ieuencid, awdurdodau lleol, byrddau partneriaeth rhanbarthol a llawer o rai eraill. Rydyn ni wedi annog Llywodraeth Cymru i gydweithio'n agos â rhanddeiliaid, ysgolion, ac yn bwysig, plant a phobl ifanc eu hunain er mwyn darparu'r adnoddau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y fframwaith hwn yn wir yn llwyddo, fel bod iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc yn cael eu gefnogi gan rwydwaith o wasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion fel mater o drefn, yn hytrach nag fel eithriad i'r rheol.

ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

Argymhelliad

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid, ysgolion a phlant a phobl ifanc eu hunain i sicrhau bod uchelgais y dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol yn cael cyfatebiaeth o ran adnoddau, capasiti a rhwydwaith cefnogi system gyfan ar draws y gwasanaethau perthnasol sy'n diwallu anghenion penodol pob ysgol.

Ble bynnag mae ysgol arni o ran dull gweithredu ysgol gyfan, dylen nhw fedru estyn allan a chael mynediad at gefnogaeth gan asiantaethau allanol perthnasol mewn modd sy'n cefnogi cynllun gweithredu penodol yr ysgol honno.

Barn plant a phobl ifanc

**"Gofyn unwaith, ddylech chi
byth gael eich troi i ffwrdd."**

(Aelod o'r Grŵp
Rhanddeiliaid Ieuentid
Cenedlaethol)

**"Sicrhau bod pobl fel athrawon,
gweithwyr cymdeithasol ac arbenigwyr
iechyd yn cydweithio'n well."**

(Aelod o'r Grŵp Rhanddeiliaid
Ieuentid Cenedlaethol)

ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

Addysgu Gartref

Y materion allweddol

Fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, canfu ein hadolygiad statudol o Lywodraeth Cymru yn 2021 nad oedd y Llywodraeth wedi rhoi sylw digonol i hawliau plant mewn perthynas â newidiadau i'r polisi addysgu gartref. Mae eu penderfyniadau ynghylch hynny wedi bod yn ddiffygiol, a bu diffyg brys neu gynnydd hyd yma.

Cynnydd

Fel mae'r adolygiad yn nodi, bu llawer o weithgaredd ynghylch y maes polisi hwn, ond ni fu unrhyw newidiadau pendant o gwbl.

Roedd yr ymgynghoriadau diweddaraf a gynhaliwyd hefyd wedi'u seilio ar fodel deddfwriaeth eilaidd gyfyngol. Bwriad hynny oedd gwneud cynnydd yn gyflym yn ystod pumed tymor y Senedd, ond yn y diwedd ni chyflawnwyd hynny. Roedden ni wedi cefnogi'r llwybr gweithredu hwn dim ond oherwydd y buasai'n golygu peth cynnydd yn y maes, ond fe wnaethon ni'n disgwyliadau'n glir droeon y dylai pob plentyn gael eu gweld, ac y dylid siarad â nhw am eu haddysg o leiaf bob blwyddyn.

Mae'r Llywodraeth wedi rhoi gwybod na fydd hyn yn bosibl o dan y model arfaethedig y buon nhw'n gweithio arno, a hynny er eu bod wedi derbyn y tri phrawf a gyflwynwyd gennym ni oedd yn cynnwys y gofyniad hwn. Nid yw hyn felly yn opsiwn addas ar gyfer symud ymlaen gyda'r ymrwymadau mae'r Llywodraeth wedi'u gwneud.

Mae gofyn bod y Llywodraeth newydd yn gweithredu ar y maes polisi hwn ar frys; mae mwy na digon o dystiolaeth o'n Hadolygiad o blaid yr achos dros newid.

Ar hyd y pandemig rydyn ni hefyd wedi cadw mewn cysylltiad â swyddogion y Llywodraeth i sicrhau bod plant sy'n cael eu haddysgu gartref yn cael mynediad i'w hawliau, gan gynnwys sicrhau mynediad at gymwysterau i ymgeiswyr preifat a phwyso am gyngor ac arweiniad ar gyfer ailagor grwpiau cymunedol i deuluoedd sy'n addysgu gartref. Rhoddir sylw i'r gwaith yma yn ein hadroddiad Coronafeirws a Ni ar gamau gweithredu cysylltiedig â'r pandemig.

ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

Argymhelliad

Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i gyflawni'n llawn ei ymrwymadau i'r tri phrawf ar gyfer y maes polisi hwn; sef bod cyfrif am bob plentyn, eu bod yn derbyn addysg briodol a'u hawliau dynol eraill, ac er mwyn sicrhau hynny, bod pob plentyn yn cael cyfle i gael eu gweld, a gwrando ar eu barn a'u profiadau.

Barn plant a phobl ifanc

"Dwy ddim wir wedi gallu cwrdd â'm ffrindiau ers mis Mawrth, mae fy holl grwpiau wedi bod ar gau, ac os bydda i yn mynd i gwrdd â ffrindiau ac mae'r heddlu'n stopio ni, mae rhaid i ni ddweud celwydd rhag ofn bod nhw ddim yn meddwl bod ein taith yn hanfodol. Rydw i'n gweld eisiau amgueddfeydd, yn enwedig Sain Ffagan, ac rydw i'n gweld eisiau bod yn rhydd, mae llawer o'r dysgu rwy'n gwneud yn digwydd tu allan, ac rydw i wrth fy modd yn gwneud mathemateg ar y traeth, hyd yn oed os yw hi'n oer, ond nawr alla i ddim gwneud hynny heb bryderu bydd mam yn mynd i drwbwl."

(Person ifanc sy'n cael addysg gartref, 9 oed, De-orllewin Cymru, o'r arolwg Coronafeirws a Ni

ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

Ysgolion Annibynnol

Y materion allweddol

Roedd yr Adolygiad Statudol hefyd yn cynnwys camau gweithredu Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag ysgolion annibynnol. Roedd achos pwysig yng ngogledd Cymru wedi datgelu gwendid yn y ddeddfwriaeth gyfredol a'r rheoliadau ynghylch ysgolion annibynnol, a dim ond Llywodraeth Cymru sydd â'r gallu i newid hyn. Fodd bynnag, mae'r ffaith nad oes gofyn bod staff ysgolion annibynnol wedi'u cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg wedi bod yn broblem hirhoedlog, y mae'r Llywodraeth wedi bod yn ymwybodol ohoni, ond heb gymryd camau digonol i'w datrys.

Cynnydd

Mae ymgynghoriadau ynghylch Gorchmynion Atal Interim, a chyflwyno'r Gorchmynion hynny wedyn yn 2021, yn gam i'w groesawu. Cydnabyddir bod Covid-19 yn un ffactor yng nghyswllt cyflwyno newidiadau i'r rheoliadau Ysgolion Annibynnol. Ond nid yw hynny'n rhoi sylw i faterion ehangach cofrestru, a bylchau yn y rheoliadau o ran arweinyddiaeth a rheolaeth ysgolion annibynnol.

Argymhelliad

Rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu mewn dau faes:

- 1. Rhoi sylw i faterion cofrestru Cyngor y Gweithlu Addysg (EWC) trwy ddeddfwriaeth newydd; mae hyn y tu allan i'r Rheoliadau perthnasol ac yn ddarn ar wahân o waith, y mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth iddo a'i weithredu ar frys; a**
- 2. Chynnal adolygiad llawn o'r rheoliadau cyfredol ar gyfer ysgolion annibynnol a chyflwyno rheoliadau diwygiedig a chryfach ar gyfer rhoi sylw i unrhyw fylchau neu ddiffygion.**

ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

Blochau Adeiladu: cynhwysiad yn y Cyfnod Sylfaen

Cyd-destun

Yn 2018 ffoniodd rhiant swyddfa Comisiynydd Plant Cymru ynghylch eu plentyn 6 oed, oedd wedi cael gwaharddiad o'r ysgol am ymddygiad corfforol ymosodol. Ar adeg yr alwad doedd y plentyn ddim yn cael mynediad i unrhyw addysg, ac roedd dadl rhwng yr ysgol a'r awdurdod lleol ynghylch a oedd yn briodol i'r plentyn ddychwelyd i'r ysgol.

Nid achos ynysig oedd yr alwad hon i Wasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor y Comisiynydd. Roedd cynnydd wedi bod yn ystod 2018-19 yn y galwadau tebyg gan deuluoedd pryderus, oedd weithiau wedi cyrraedd pen eu tennyn, ynghylch plant 8 oed a than hynny. Roedd y plant ifanc hyn yn profi gwaharddiadau neu'n cael eu haddysgu'n ynysig o oed ifanc iawn. Nid oedd rhai yn derbyn addysg o gwbl.

ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

Beth wnaethon ni

Er bod modd i dîm y Comisiynydd ymyrryd a chefnogi'r plant unigol hyn, roedd y cynnydd yn y gwaith achosion tebyg i hyn yn awgrymu y gallai hon fod yn broblem fwy cyffredinol. O ganlyniad, cynhaliodd y tîm ymchwiliad o waharddiadau mewn addysg Cyfnod Sylfaen (3-7 oed) ledled Cymru.

Roedd ein hymchwiliad yn cynnwys:

- **Dadansoddi 21 o achosion o'n gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor dros gyfnod o 18 mis oedd yn ymwneud â phlant Cyfnod Sylfaen oedd wedi profi rhyw ffurf ar waharddiad o'r ysgol. Themâu oedd yn codi o'r dadansoddiad hwn a fu'n llywio cwestiynau canolog ein gwaith ymchwil ehangach;**
- **Anfon arolwg at bob Awdurdod Lleol yng Nghymru;**
- **Adolygiad o'r llenyddiaeth, a gynhaliwyd gan Community Action Research Policy Collaborations (CARP);**
- **Grwpiau ffocws a chyfweiliadau gyda gweithwyr addysg proffesiynol;**
- **Roedd gwaith cyfranogol gyda phlant ifanc a theuluoedd wedi'i gynllunio, ond ni allai ddigwydd oherwydd cyfyngiadau'r pandemig.**

Beth oedd ein canfyddiadau

Mae **Blociau Adeiladu: Cynhwysiad yn y Cyfnod Sylfaen** yn cyflwyno canfyddiadau'r gwaith ymchwil yma, ac yn datgelu **adroddiadau am 768 o achosion o waharddiadau mewn perthynas â phlant Cyfnod Sylfaen yn 2018-9**. Mae'r ffigur gwirioneddol yn debygol o fod yn uwch, gan na wnaeth pob awdurdod lleol ddarparu data.

Datgelodd ymchwiliadau hefyd fod **naw plentyn Cyfnod Sylfaen o bob awdurdod, ar gyfartaledd, wedi cael eu gwahardd fwy nag unwaith**, a bod un plentyn wedi cael gwaharddiad 18 o weithiau mewn cyfnod o un flwyddyn.

ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

Sut rydyn ni'n cefnogi

Rydyn ni'n gwybod bod gweithwyr proffesiynol yn gweithio'n ddiflino mewn ysgolion yng Nghymru i ddatblygu'r ddarpariaeth mae ar blant ei hangen: yn newid diben manau yn yr ysgol ar gyfer meithrin; yn datblygu dulliau ysgol gyfan o ymdrin â llesiant; ac yn defnyddio dulliau gweithredu rhanbarthol a lleol i sicrhau bod ymarfer yn wybodus am drawma, yn cymryd awtistiaeth i ystyriaeth ac yn galluogi hawliau plant. Mae'n iawn bod athrawon yn rhoi blaenoriaeth uchel i'r gwaith yma wrth iddyn nhw gefnogi plant y mae'r pandemig wedi aflonyddu cymaint ar eu bywydau nhw.

I gynorthwyo â'r gwaith hwn, mae'r Comisiynydd wedi datblygu **pecyn offer ymarferol**, gydag arbenigedd gan Dîm Cymunedol Seicoleg Gwent. Mae'r pecyn hwn yn defnyddio dulliau gweithredu o bob rhan o Gymru i gyflwyno fframwaith hawliau plant ar gyfer ymarfer cynhwysol. Elfen bwysig yw bod iaith y fframwaith hon yn gadarnhaol ac yn bositif. Nid model diffygion yw hwn. Mae'n ddull gweithredu sy'n gallu cefnogi pob un plentyn i gael mynediad i'r hawliau dynol y mae ganddyn nhw hawl i'w derbyn, ac i ddatblygu eu doniau a'u sgiliau yn llawn.

Beth sydd angen newid

Fel y manylir yn yr adroddiad, mae angen newid y tu hwnt i leoliadau addysg. Nid yw'r materion mae rhai plant yn eu hwynebu yn ymwneud â'r dosbarth na'r ysgol yn unig. Gall teulu a chymuned plentyn fod yn wynebu ystod eang o heriau, ac mae angen gweithredu i atal tlodi ac i sicrhau tai addas. Mae ar deuluoedd angen cyngor a rhwydweithiau i gefnogi rhianta, ac mae angen mynediad hwylus arnyn nhw at arbenigedd iechyd, yn arbennig yng nghyswllt gwasanaethau niwroddatblygiadol.

Mae angen hefyd am gydnabod a rhoi sylw i fater gwahardd plant ifanc ar lefel genedlaethol. Nid yw canllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar waharddiadau yn cynnwys unrhyw ganllawiau na chyngor ynghylch y dull y dylid ei ddilyn yn achos plant ifanc. Nid oes ystyriaethau penodol yn y canllawiau hyn ynghylch y ffordd orau o gefnogi plant o dan 8 oed. Yn hytrach, mae disgwyl y bydd proses gwaharddiadau yr un fath ar gyfer plant yr oed yma ag ar gyfer pobl ifanc hyd at 16 oed. Mae hyn yn amlwg yn hepgoriad o ystyried nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol sy'n cael eu rhoi i blant ifanc yng Nghymru, ac o ystyried y ffaith bod rhai plant yn profi hynny droeon. Nid yw gwahardd o addysg yn ateb sy'n rhoi sylw i anghenion plant ifanc. Fel mesur ynddo'i hun, gall gwaharddiad niweidio lles plant ar unwaith, ac yn y tymor canolig a hir. Yn lle hynny, dylai fod ymgyrch genedlaethol i sicrhau cymorth cynnar ac ataliaeth sy'n golygu nad oes unrhyw blentyn ifanc yn cael gwaharddiad o addysg yn y Cyfnod Sylfaen.

ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

Argymhelliad

Rhaid i Lywodraeth Cymru bennu nod polisi clir i atal gwaharddiadau rhag cael eu rhoi i blant o dan 8 oed. Dylid newid y canllawiau statudol ar waharddiadau fel eu bod yn cynnwys ystyriaethau penodol ynghylch oed y plentyn ac yn cyflwyno dewisiadau clir yn lle gwahardd. Dylid cefnogi hyn â chynllun gweithredu ar gyfer cymorth cynnar.

SAFON DDIGONOL O FYW

Dim Drws Anghywir

Y materion allweddol

Ym mis Mehefin 2020, fe gyhoeddod ni ein hadroddiad: **Dim Drws Anghywir – dod â gwasanaethau ynghyd i ddiwallu anghenion plant**. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno argymhellion i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) yng Nghymru, ac argymhellion i Lywodraeth Cymru.

Yn achos BPRhau, roedd yr argymhellion hyn yn cynnwys:

- cynllunio a gweithredu dull ‘Dim Drws Anghywir’ o ymdrin â iechyd meddwl a llesiant, a allai gynnwys timau integredig, modelau panel a hwb neu ganolfannau galw heibio fel bod plant yn adolygu’r gefnogaeth mae arnyn nhw ei hangen pan fyddan nhw’n estyn allan amdani;
- creu cynlluniau i ymgysylltu’n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc, a gweithio gyda nhw i gydgyhyrchu gwaith y Bwrdd;
- gwella profiad pobl ifanc ag anabledau dysgu sy’n pontio i wasanaethau oedolion;
- gwneud gwaith y Bwrdd yn fwy hygyrch i blant a phobl ifanc; a
- bod yn well am weithio gyda rhanddeiliaid eraill fel y trydydd sector a chynrychiolwyr dinasyddion.

SAFON DDIGONOL O FYW

Fe wnaethon ni argymhell bod Llywodraeth Cymru yn:

- **cefnogi a gweithio gyda BPRhau i gyflawni'r argymhellion rydyn ni wedi gwneud iddyn nhw, gan gynnwys rhannu dysgu rhwng byrddau;**
- **gwneud yn siŵr eu bod yn galw BPRhau i gyfrif am eu buddsoddiad mewn plant a phobl ifanc, a'u gwaith drostyn nhw;**
- **ei gwneud yn ofynnol i iechyd a gofal cymdeithasol gyfuno eu hadnoddau yn briodol er mwyn cyflawni dull gweithredu 'dim drws anghywir';**
- **cymryd camau i ddatblygu darpariaeth breswyl newydd yng Nghymru ar gyfer plant ag anghenion cymhleth.**

Sut rydyn ni wedi dylanwadu

Mae BPRhau wedi adrodd i ni ar eu cynnydd yn dilyn yr adroddiad, ac rydyn ni'n falch eu bod nhw naill ai wedi gweithredu ar sawl un o'r argymhellion hyn, neu'n bwriadu gwneud hynny. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, sefydlu fforymau pobl ifanc, cynlluniau ar gyfer ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, a datblygu modelau 'panel', lle mae BPRhau wedi dangos eu bod wedi dysgu oddi wrth ei gilydd.

O ganlyniad i gyfres o gyfarfodydd gyda swyddogion a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, rydyn ni wedi bod yn falch o weld cynnydd ar gynlluniau ar gyfer llety newydd diogel i blant sydd ag anghenion cymhleth 'lefel uchel' lle mae angen mewnbwn gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol a iechyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi annog cynigion am arian o'r Gronfa Gofal Integredig (ICF) sy'n cynnwys y llety newydd yma, ac rydyn ni'n falch bod pob BPRh wedi cyflwyno cynigion ar gyfer darparu llety o'r fath. Y cam nesaf fydd penderfynu pa gynigion gaiff eu cymeradwyo, ond mae'r cynnydd yma'n sicr yn galonogol.

Byddwn ni'n craffu ar gynnydd pob BPRh ac yn eu herio i fodloni pob elfen o'n hargymhellion pan fyddwn ni'n cwrdd â nhw yn haf/hydref 2021.

SAFON DDIGONOL O FYW

Elfen fawr o ddull gweithredu 'dim drws anghywir' yw cydnabod yr angen, yn achos pob plentyn sy'n profi trallod dwys, ym mha ffurf bynnag, i wasanaethau ymateb mewn modd sy'n diwallu anghenion y plentyn. Yn rhy aml, mae mynediad at unrhyw gefnogaeth wedi'i seilio ar ddiagnosis. Rydyn ni'n credu bod angen gwneud mwy i gydnabod **niwroamrywiaeth**, ac er bod rhai plant heb gyflwr y mae modd rhoi diagnosis ar ei gyfer, fe allai fod angen cefnogaeth gwasanaethau niwroddatblygiadol ac eraill arnyn nhw o hyd.

Mae'r rhaglen T4CYP wedi canolbwyntio'n sylweddol ar y nodau hyn fel rhan o'i gwaith, ond ar hyn o bryd dim ond hyd at fis Mawrth 2022 y mae'r rhaglen wedi'i hariannu.

Argymhelliad

Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau â'r rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (T4CYP) er mwyn cefnogi rhoi dull gweithredu Dim Drws Anghywir ar waith, a model system gyfan NYTH, gan gynnwys y gwaith penodol o fewn y modelau hyn ar gyfer gwella cefnogaeth i blant niwroamrywiol.

Barn plant a phobl ifanc

"Mae cryn dipyn llai o straen arna i nag y byddwn i wedi teimlo yn yr ysgol, ac rwy'n teimlo bod fy llesiant cyffredinol wedi gwella'n sylweddol. Rwy'n teimlo mwy o gysylltiad â'm teulu, a hefyd nawr rwy'n teimlo bod gen i fwy o reolaeth ar fy nysgu."

(Merch, 16 oed, arolwg Coronafeirws a Ni, 2020)

SAFON DDIGONOL O FYW

Pontio mewn gwasanaethau iechyd

Y materion allweddol

Mae materion cysylltiedig â phontio o wasanaethau plant i rai oedolion (ar draws iechyd a gofal cymdeithasol) yn dal i gael eu codi'n fynych gyda'r Comisiynydd gan bobl ifanc a'u teuluoedd, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol.

Gwaetha'r modd, nid yw rhai pobl ifanc yn cael eu cefnogi'n briodol i symud ymlaen o wasanaethau iechyd plant, a gallan nhw ganfod eu hunain yn sydyn yn derbyn gwasanaeth gwahanol iawn, nad oedden nhw'n barod amdano, neu'n derbyn dim gwasanaeth o gwbl.

Rydyn ni'n falch, felly, bod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar ganllawiau newydd i Fyrddau Iechyd yng Nghymru ynghylch pontio mewn gwasanaethau iechyd (a'r berthynas â gwasanaethau eraill) mewn ymateb uniongyrchol i'n hargymhelliad yn yr Adroddiad Blynyddol blaenorol. Mae hyn yn cynnwys creu rolau newydd gweithwyr allweddol, ac arweinyddion gweithredol mewn Byrddau Iechyd.

Sut rydyn ni wedi dylanwadu

Trwy ein gwaith dylanwadu (gan gynnwys aelodaeth o'r is-grŵp canllawiau Pontio a Throsglwyddo) ac ymatebion i ymgynghoriadau gan Lywodraeth Cymru ar wahanol adegau ar hyd y gwaith, rydyn ni'n falch bod y canllawiau'n enwi dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant o dan CCUHP fel egwyddor waelodol. Mae'r canllawiau'n defnyddio ein pum egwyddor o'r Ffordd Gywir i gyflwyno egwyddorion gweithredu; yn ogystal â chyfeirio at erthyglau penodol yn CCUHP a sut mae'r rheiny'n berthnasol i'r plant y mae pontio i wasanaethau oedolion yn effeithio arnynt.

Bu oedi wrth gyhoeddi'r canllawiau. Yn ystod y cyfnod hwnnw, rydyn ni wedi tynnu sylw droeon at yr elfennau o'r canllawiau sy'n fwyaf hanfodol o ran ei lwyddiant gyda Gweinidogion, swyddogion Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno'n briodol yn y fersiwn derfynol.

SAFON DDIGONOL O FYW

Er bod croeso i'r canllawiau newydd, mae'n eglur y bydd eu gweithredu yn heriol heb gyfarwyddyd ar lefel uwch gan arweinwyr gweithredol yn Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Iechyd. Bydd ar Fyrddau Iechyd hefyd angen adnoddau ychwanegol i sicrhau bod y rolau newydd yn cael eu cyflawni gan unigolion sydd â'r gallu i'w cyflawni'n briodol, ac nad ydynt yn cael eu gweld fel 'ychwanegiad' at rôl bresennol. Bydd angen rolau gweithredol os yw arfer arloesol i gael ei feithrin er mwyn ymdrin â rhai o'r rhwystrau systemig i bontio llwyddiannus, yn arbennig yn achos pobl ifanc 16 ac 17 oed.

Bydd angen hefyd i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y canllawiau presennol ar gyfer pontio i wasanaethau oedolion ym maes iechyd meddwl yn addas at y diben, ochr yn ochr â'r canllawiau newydd i iechyd yn gyffredinol.

Argymhelliad

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau trwy'r canllawiau a gyhoeddwyd bod adnoddau digonol ar gyfer y rolau newydd arweinyddion gweithredol a gweithwyr allweddol ym mhob Bwrdd Iechyd yng Nghymru.

Dylai Byrddau Iechyd sicrhau bod mecanweithiau atebolrwydd cadarn er mwyn gweithredu'r canllawiau, gan gynnwys uwch-arweinydd gweithredol sydd ag awdurdod i wneud newid arloesol yn ôl y galw, er mwyn sicrhau cysylltiad rhagweithiol â sefydliadau eraill i wneud gwelliannau sylweddol i brofiadau plant a phobl ifanc o bontio.

SAFON DDIGONOL O FYW

Eiriolaeth cysylltiedig â lechyd

Y materion allweddol

Rwyf wedi argymhell bod eiriolaeth cysylltiedig â iechyd yn hygyrch i bob plentyn sydd angen hynny ledled Cymru mewn argymhellion dilynol ers 2016.

Dylai plant sy'n derbyn gofal gan wasanaethau iechyd fedru sicrhau bob amser bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Rydyn ni'n pryderu, yn achos y plant hynny y mae arnyn nhw angen rhywun i'w helpu i wneud hyn, nad oes gwasanaeth eiriolaeth ar gael o gwbl yn y rhan fwyaf o rannau o Gymru.

O ganlyniad, rydyn ni'n siomedig – ar ôl peth gweithgaredd gan Lywodraeth Cymru yn 2019/20 – na wnaed unrhyw gynnydd ar yr agenda hon. Wrth gwrs, rydyn ni'n deall bod y pandemig wedi arwain at beth oedi ac ailflaenoriaethu, ond nawr yw'r amser i ddychwelyd at y gwaith hwn er mwyn sicrhau bod pob Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa i gynnig gwasanaeth eiriolaeth cysylltiedig â iechyd.

Sut rydyn ni wedi dylanwadu

Cyn mis Mawrth 2021, cynullodd Llywodraeth Cymru grŵp i weithio ar egwyddorion canllawiau newydd ynghylch eiriolaeth cysylltiedig â iechyd yr oedden ni wedi'u cyflwyno o'n seminar iechyd flynyddol. Roedd cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith i 'dreialu' ehangu eiriolaeth o'r plant a'r bobl ifanc hynny sydd â hawl cyfreithiol i hynny o dan ddeddfwriaeth iechyd meddwl, i gynnig iechyd meddwl ehangach. Roedden ni'n deall bod y cam gweithredu arfaethedig hwn yn gam tuag at ehangu'r cynnig ar draws gwasanaethau iechyd. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa wedi bod ar stop byth oddi ar hynny.

Rydyn ni wedi codi droeon gyda Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru yr angen am ymgynghori ar y canllawiau hyn a'u cyhoeddi, ac fe wnaethon ni'n glir ein dymuniad bod y canllawiau hyn yn cael eu cyhoeddi erbyn diwedd tymor y Senedd (Mai 2021).

Ym mis Mai 2020, fe gysyllton ni â Llywodraeth Cymru gan nodi'r ffyrdd ymlaen roedden ni'n eu hawgrymu ar gyfer yr agenda hon. Gan fod y grŵp eiriolaeth a gynullwyd gan Lywodraeth Cymru (oedd yn cynnwys sawl darparwr eiriolaeth a phartneriaid trydydd sector eraill) wedi cytuno ar gyfres o Egwyddorion ar gyfer eiriolaeth ym maes iechyd, fe wnaethon ni awgrymu y gallai'r ddogfen honno fod yn sylfaen ar gyfer canllawiau, i'w cyhoeddi ochr yn ochr â Chylchlythyr Gweinidogol i'r holl Fyrddau Iechyd. Buon ni'n mynd ar ôl hyn eto ym mis Mehefin 2020. Aeth hi'n fis Tachwedd 2020 cyn i ni dderbyn ymateb ystyrlon yn amlinellu'r ffaith bod oedi gyda'r canllawiau oherwydd bod swyddogion wedi cael

SAFON DDIGONOL O FYW

eu hailgyfeirio ar draws y Llywodraeth mewn ymateb i'r pandemig. Rydyn ni'n deall wrth gwrs y bydd hyn yn digwydd mewn argyfwng iechyd cyhoeddus, ond rydyn ni yn teimlo y gallai ein hawgrymiadau pragmataidd fod wedi cael eu datblygu yn ystod y cyfnod, ac y dylai hynny ddigwydd nawr.

Fe ddywedwyd wrthyn ni fod swyddogion yn dal i obeithio ymgynghori a chyhoeddi cyn diwedd tymor y Senedd. Fodd bynnag, ni fu cynnydd ar y mater hwn ers mis Mawrth 2020, ac mae hynny'n dal yn wir.

Argymhelliad

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau newydd ar gyfer pob bwrdd iechyd, yn sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael mynediad at eiriolaeth annibynnol cysylltiedig â iechyd os bydd angen hynny aryn nhw. Dylai'r canllawiau hyn fod yn seiliedig ar y gwaith a wnaed hyd yma, a chael eu cyhoeddi yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22.

Barn Plant a Phobl Ifanc:

Mae'r ffigurau a welson ni gan wasanaeth eiriolaeth oedd yn cael ei ddarparu mewn un rhan o Gymru yn awgrymu bod modd darparu gwasanaeth am gost ryfeddol o isel trwy roi contract ychwanegol i ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol sydd eisoes yn bodoli.

Mae astudiaethau achos o'r gwasanaeth yn cynnwys rhoi cefnogaeth lwyddiannus i berson ifanc sy'n cael ei addysgu gartref gael mynediad at ddeintydd am y tro cyntaf; a helpu person ifanc i godi pryderon nad oedd y Meddyg Teulu'n cymryd eu hanghenion iechyd meddwl o ddifri, a arweiniodd at ymddiheuriad gan y Meddyg a sefydlu perthynas gynhyrchiol, lle cafodd y person ifanc dan sylw help gan gwnselydd a mynediad at therapi celf.

SAFON DDIGONOL O FYW

Gofal Parhaus i Blant a Phobl Ifanc

Y materion allweddol

Gall fod angen amrywiaeth o gefnogaeth iechyd bosibl ar blentyn neu berson ifanc, ar gyfer anabledau corfforol a dysgu, anghenion iechyd meddwl, anhwylder niwroddatblygiadol ac ymddygiad y bernir ei fod yn heriol. Os ceir bod y plentyn neu'r person ifanc yn gymwys i dderbyn gofal parhaus i blant a phobl ifanc (CYP CC) rhaid i asiantaethau fel iechyd, addysg a gofal cymdeithasol gydweithio i sicrhau nad oes bylchau wrth ddiwallu'r anghenion hynny a aseswyd, a sut gallai diwallu'r anghenion hynny â phecyn o ofal parhaus gydweddu â mathau eraill o gefnogaeth. Mae hyn rywfaint yn wahanol i Ofal Iechyd Parhaus i Oedolion, y darperir ar ei gyfer gan y bwrdd iechyd lleol yn unig, mewn ymateb i anghenion iechyd.

Mae Gofal Parhaus i Blant a Phobl Ifanc, felly, yn galw am waith partneriaeth cryf rhwng asiantaethau. Fodd bynnag, mae teuluoedd wedi cysylltu â'n fîm Ymchwiliadau a Chyngor ynghylch anawsterau i sicrhau CYP CC ar gyfer eu plentyn. Mae cyfathrebu yn broblem arbennig y mae teuluoedd, gwaetha'r modd, yn tynnu ein sylw ati'n rheolaidd, yn ogystal â dadleuon rhwng asiantaethau ynghylch cyllid.

Sut rydyn ni wedi dylanwadu

Yn 2019 fe fuon ni'n cyfranogi mewn gweithgor ar ddiwygiadau i'r canllawiau Gofal Parhaus i blant. Arweiniodd hynny at gyhoeddi canllawiau diwygiedig ym mis Ionawr 2020.

Ddiwedd 2020, trodd ADSS a Solace aton ni gyda phryderon ynghylch gweithrediad CYP CC, er gwaethaf y canllawiau diwygiedig. Roedd hyn yn cynnwys herio'r broses o sefydlu cymhwysedd, asesu ac ariannu. Mae'r penderfyniadau a wneir yn dal i gael eu harwain gan adnoddau yn hytrach nag angen, ac mae diffyg tryloywder yn y prosesau, gan gynnwys yng nghyswllt apeliadau. Mae cyffordd yn y system wrth gyrraedd 18 oed, pan fydd pobl ifanc yn symud i Ofal Iechyd Parhaus y GIG, a gall hynny arwain at newid cymhwysedd ac angen am ailgychwyn y broses o nodi, asesu a diwallu anghenion.

Fe wnaethon ni gwrdd â chynrychiolwyr ac wedi hynny gyflwyno ein pryderon mewn llythyr at y Gweinidog a'r Dirprwy Weiniog iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, ym mis Mawrth 2021. Fe wnaethon ni godi'r materion hynny hefyd mewn cyfarfod gyda'r Gweinidogion hynny yn ddiweddarach ym mis hwnnw, cyn yr etholiad.

SAFON DDIGONOL O FYW

Beth sydd angen digwydd nesa?

Gwaetha'r modd, mae'n eglur nad yw'r canllawiau diwygiedig wedi mynd i'r afael â phroblemau sylfaenol yn y system. Ni all Llywodraeth Cymru ddibynnu bod y canllawiau diwygiedig hyn wedi delio â phroblemau'r gorffennol, ac felly mae angen edrych ar y sefyllfa eto.

Nid oedd y papur Gwyn ar ddiwygio gofal cymdeithasol yn cynnwys llawer o fanylion ynghylch CYP CC, felly mae'n bwysig amlygu hyn fel mater sydd heb ei ddatrys eto ac y mae angen rhoi sylw pellach iddo. Gan fod bwriad i ddiwygio gofal cymdeithasol yn sylweddol, ni ddylid colli'r cyfle i sicrhau bod CYP CC yn symud ymlaen ochr yn ochr â datblygiadau eraill, er lles plant a'u teuluoedd.

Argymhelliad

Mae'r Rhaglen Lywodraethu hyd at 2026 yn cynnwys bwriadau uchelgeisiol ar gyfer diwygio gofal cymdeithasol a'i integreiddio â gofal iechyd. Rhaid i waith cynnar ar y flaenoriaeth hon roi sylw i fater hirsefydlog Gofal Parhaus, a rhaid i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd fod yn rhan o gael hyd i'r atebion hynny.

SAFON DDIGONOL O FYW

Tlodi plant

Y materion allweddol

Yn ystod 2020 fe fuon ni'n parhau i fonitro cynnydd argymhellion ein hadroddiad Siarter ar gyfer Newid, gyda Llywodraeth Cymru a chydag awdurdodau lleol ac ysgolion.

Sut rydyn ni wedi dylanwadu

Mewn perthynas â Llywodraeth Cymru, fe wnaethon ni barhau i gwrdd â'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Thai, a'i swyddogion, ynghylch cynlluniau a gyhoeddwyd i daclo tlodi plant. Roedden ni wedi argymhell bod y Llywodraeth yn cyhoeddi cynllun cyflawni, ond gwrthododd y Llywodraeth hynny. Roedd y Llywodraeth wedi cynnal ei hadolygiad mewnol ei hunain ar dlodi plant, ac wedi canfod nad oedd pawb yn cael mynediad at bopeth y gallen nhw ei hawlio, bod diffyg ymwybyddiaeth o'r hyn y gellir ei hawlio, a bod rhwystrau iaith a llythrennedd yn gwaethygu hynny, bod rhaglenni a gyfyngir yn ôl côd post/ardal yn eithrio rhai pobl mewn angen, ac nad yw hyd yn oed cynlluniau i bawb yn cyrraedd y rhai sydd eu hangen fwyaf. Fodd bynnag, penderfynodd y Llywodraeth beidio â chyhoeddi'r wybodaeth yma oherwydd dyfodiad Covid. Fe ysgrifennon ni at Brif Weinidog Cymru ym mis Awst 2020 i herio'r penderfyniad Gweinidogol hwn, gan fod cyd-destun Covid yn gwneud canfyddiadau o'r fath yn bwysicach fyth. Fe wnaethon ni amlinellu'r angen am wneud yr wybodaeth yn gyhoeddus, a chyflwyno'r camau gweithredu oedd i'w cymryd i roi sylw i'r canfyddiadau, i sicrhau tryloywder, ac atebolrwydd am y gwaith a gyflawnwyd.

Bu plant a'u teuluoedd yn cymryd rhan yn yr Adolygiad, ac mae dyletswyd ar y Llywodraeth i roi cyfrif i'r cyfranogwyr hynny ynghylch sut mae eu mewnbwn wedi cael ei glywed ac wedi bod yn destun gweithredu.

Ymateb y Llywodraeth oedd y byddai'r data yr oedden nhw wedi'i gasglu wedi ymddangos allan o'i gyd-destun oherwydd dyfodiad pandemig Covid. Fodd bynnag, cytunodd y Llywodraeth i barhau â gwaith i fwyafu incwm trwy roi cyhoeddusrwydd i wybodaeth am fudd-daliadau a grantiau y gellid eu hawlio. Mae'r swyddfa wedi parhau i gefnogi'r gwaith yma, ac rydyn ni wedi croesawu'n arbennig beilot byr yn gynnar yn 2020 a fu'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol i rannu gwybodaeth am yr hyn y gellir ei hawlio, fel bod mwy na £650,000 o arian ychwanegol yn cael ei hawlio gan bersonau a theuluoedd cymwys.

SAFON DDIGONOL O FYW

Ar ben hynny, mae'r Llywodraeth wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol trwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) i sicrhau bod pobl yn derbyn gwybodaeth yn rhagweithiol am bethau eraill y mae modd eu hawlio wrth gyflwyno hawliad, er enghraifft annog a galluogi hawlio prydau ysgol am ddim pan fydd hawliad budd-dal tai ar waith, os yw'r teulu'n gymwys. Croesawir y ffordd hon o fynd i'r afael â'r stigma canfyddedig sy'n atal rhai teuluoedd rhag hawlio'r hyn sydd ar gael iddyn nhw, yn ogystal â sicrhau bod popeth sydd ar gael yn cael ei hawlio.

Cyfeiriodd llawer o awdurdodau lleol at y gwaith parhaus hwn yn eu hymatebion i'n llythyrau dilynol yn ceisio diweddariad ar eu cynnydd yn y maes hwn. Fe gawson ni ymatebion ffurfiol gan 17 o'r 22 awdurdod lleol, ond roedd nifer o awdurdodau lleol oedd hefyd wedi mynd ati'n rhagweithiol i rannu gwybodaeth gyda ni mewn ffyrdd eraill, er enghraifft trwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Roedd y llythyron eu hunain yn ysgogiad i rai awdurdodau lleol symud ymlaen gyda'u cynlluniau mewn perthynas â materion tlodi yn yr ysgol. Roedd y llythyr yn atgoffa awdurdodau lleol am ein hargymhellion ynghylch mynediad at frecwast yn yr ysgol, cynlluniau ailgylchu gwisg ysgol a chofrestru'n awtomatig ar gyfer budd-daliadau a grantiau cymwys. Yn ogystal ag ymateb ynghylch eu cynnydd ar yr argymhellion hyn, fodd bynnag, fe glywsom ni hefyd am nifer o enghreifftiau o ymarfer cadarnhaol.

Mewn un awdurdod lleol maen nhw wedi cyflwyno cynllun prydau bwyd 'dros ben' mewn ysgolion uwchradd, lle mae modd casglu bwyd sydd dros ben ar ddiwedd y dydd. Roedd yr awdurdod lleol hwn hefyd wedi cynnal eu hymgyrch eu hunain mewn perthynas â manteisio ar y ddarpariaeth prydau ysgol am ddim, gan arwain at gynnydd o fwy na 10%. Mae un arall wedi canolbwyntio'n bendant ar dlodi mislif, gan weithio ar y cyd â'u Cyngor Ieuencid. Mae un awdurdod lleol yn archwilio ffyrdd o ganiatáu 'trosglwyddo' unrhyw lwfans sydd heb ei ddefnyddio ar gerdyn prydau o ddiwrnodau blaenorol. Mae o leiaf dau awdurdod lleol wedi gwneud ein Siarter ar gyfer Newid yn flaenoriaeth ar gyfer eu hysgolion a gwasanaethau eraill, ac maen nhw wedi cymryd camau ar draws y sir i wreiddio'r gwaith yma.

Dylid cydnabod yn y fan hon bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau cadarnhaol iawn mewn ymateb i'r pandemig, gan symud yn gyflym i gynnig darpariaeth amgen yn lle prydau ysgol am ddim pan oedd adeiladau ysgol ar gau i'r mwyafrif, ac estyn yr hawl i'r ddarpariaeth i gwmpasu cyfnodau gwyliau'r ysgol, hyd at fis Ebrill 2022. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd yn gymharol gynnar yng nghyd-destun y Deyrnas Unedig yn dosbarthu dyfeisiau digidol a data i'r niferoedd mawr o blant oedd angen hynny.

SAFON DDIGONOL O FYW

Beth sydd angen digwydd nesa?

Ar ôl penodi'r Llywodraeth newydd, dylid gwneud ymdrech o'r newydd i edrych eto ar y camau oedd yn cael eu symud ymlaen ar ddiwedd pumed tymor y Senedd a'u hadnewyddu.

Nododd maniffesto'r blaid Lafur yn 2021 ymrwymiad i ddarparu brecwast am ddim i bob disgybl ysgol gynradd, i adeiladu ar y Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol, ac i barhau i ymateb i'r cynnydd yn y galw am Brydau Ysgol am ddim yn sgîl y pandemig, ac adolygu'r meini prawf cymhwysedd, gan estyn hawl i'w derbyn gymaint ag y mae adnoddau'n caniatáu.

Yn arbennig, yng ngoleuni ein canfyddiadau, ac effaith pandemig Covid, mae angen symud cynlluniau ar gyfer adolygu'r ddarpariaeth hon ymlaen ar frys. Mae'r ymrwymiad i ddarparu brecwast am ddim i bob disgybl ysgol gynradd i'w groesawu, gan fod ymatebion awdurdodau lleol yn dangos nad yw rhai plant sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn manteisio ar y ddarpariaeth hon, a bod rhai plant ar restrau aros am y ddarpariaeth.

Argymhelliad

Rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal eu hadolygiad o'r bwyd y gellir ei hawlio mewn ysgolion heb oedi, i gynnwys cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim, a sicrhau bod brecwast ysgol yn cyrraedd cynifer o blant â phosibl, gan gynnwys y rhai sydd angen y ddarpariaeth hon fwyaf.

Barn plant a phobl ifanc

"Rwy'n gwybod bod mam ddim yn bwyta'n iawn, achos mae hi'n rhoi beth sydd ganddi hi i fi. Dyw nhad ddim yn sylwi achos mae e mewn hwyliau gwael, ond rydw i'n sylwi..."

(cymerwyd o'r arolwg Coronafeirws a Ni)

AMDDIFFYN RHAG ECSBLOETIO A THRAIS

Ecsbloetio plant yn rhywiol

Y materion allweddol

Mewn adroddiadau blynyddol blaenorol rydyn ni wedi nodi'r angen am gasglu data cyson ynghylch ecsbloetio plant yn rhywiol er mwyn sicrhau bod cefnogaeth a gweithredu priodol yn digwydd i ymdrin ag anghenion ledled Cymru. Mae hyn wedi amlygu'r angen am roi canllawiau statudol yn eu lle i sicrhau bod hwn yn ymarferiad cyson a rheolaidd ym mhob ardal awdurdod lleol.

Sut rydyn ni wedi dylanwadu

Roedd Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynnal adolygiad, ond cafwyd oedi yn y gwaith hwn ar y cychwyn pan gychwynnodd pandemig Covid-19.

Fodd bynnag, rwy'n falch o ddweud bod Llywodraeth Cymru, ym mis Mawrth 2021, wedi cyflwyno canllawiau statudol newydd o dan Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac Adran 28 o Ddeddf Plant 2004. Mae'r canllawiau'n cyflwyno disgwyliadau Llywodraeth Cymru ynghylch sut dylai asiantaethau ac ymarferwyr gydweithio i ddiogelu plant rhag perygl ecsbloetio rhywiol, mewn cydweithrediad â Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Chanllawiau Ymarfer cysylltiedig Cymru Gyfan.

AMDDIFFYN RHAG ECSBLOETIO A THRAIS

Mae'r canllawiau'n cyflwyno ystod o ofynion deddfwriaethol a diffiniadau cytunedig. Mae'n cyflwyno'r hyn sy'n hysbys ar sail ymchwil ac ymarfer, er mwyn cynorthwyo eraill i ganfod ac ymdrin ag unrhyw bryderon posibl, yn ogystal ag atal cam-drin ac ecsbloetio lle bynnag bo modd. Mae'n amlygu pwysigrwydd rolau ar draws y sector cyhoeddus o ran sylwi ar arwyddion a gweithredu ar sail unrhyw bryderon neu dueddiadau sy'n destun pryder y gallai gweithwyr proffesiynol sylwi arnynt. Mae'r canllawiau'n sicrhau bod pob gwybodaeth yn cael ei chyflwyno, er mwyn sicrhau bod unrhyw bryderon yn derbyn sylw priodol, neu'n cael eu symud i lefel uwch yn ôl y galw.

Yn bwysicaf oll, mae'n cyflwyno barn a sylwadau plant sydd wedi profi cam-drin ac ecsbloetio, a'r pethau roedden nhw'n cael eu bod fwyaf o gymorth neu'n fwyaf pwysig i'w cefnogi trwy eu profiadau.

Mae ein swyddfa'n dal i gadeirio bord gron bob chwe mis lle mae cynrychiolwyr uwch o'r heddlu, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, a lleoliadau iechyd a thrydydd sector yn dod ynghyd i fonitro cynnydd o ran amddiffyn plant rhag cam-drin rhywiol ac ecsbloetio, ac annog rhannu arfer gorau a rhwystrau i gynnydd. Byddwn ni'n derbyn adroddiadau gan Lywodraeth Cymru ac asiantaethau partner, yn adlewyrchu eu gwaith o dan y canllawiau statudol newydd hyn. Bydd pob aelod o'r grŵp yn gallu craffu ar y gwaith hwn, a byddwn ni'n sicrhau bod hynny'n parhau'n rhan o agenda'r ford gron.

**Crynodeb o'r
argymhellion a
chynllun gwaith y
flwyddyn nesaf**



8. Crynodeb o argymhellion

Mewn ymateb i'r materion yr adroddwyd amdanynt yn yr adroddiad blynyddol hwn, rwyf yma'n cyfuno'r argymhellion i Lywodraeth Cymru. Mae ein hasesiad o gynnydd Llywodraeth Cymru yn erbyn argymhellion y llynedd ar gael ar ein gwefan [yma](#). Rydyn ni'n diweddarau'r asesiad hwn bob chwarter, cyn cyfarfodydd y Comisiynydd gyda Gweinidogion.

Amgylchedd teulu a gofal amgen

1.

Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno map erbyn 1 Ebrill 2022 sy'n nodi amserlen a chamau gweithredu y byddant yn eu cymryd i ddechrau dod ag elw i ben yn y ddarpariaeth gofal cymdeithasol i blant.

Byddai hyn yn cael ei groesawu gan blant, staff a gofalwyr fel ei gilydd, a byddai'n gwreiddio ymhellach ymrwymiad Cymru i hawliau plant yn ein gwasanaethau trwy gydnabod hawliau plant i safonau byw digonol a gofal arbenigol pan fydd angen.

2.

Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd ati'n gyflym i gyflwyno hawliau statudol a pholisïau ar gyfer ymadawyr gofal, ar ffurf pecyn cydlynus.

- Newid Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lleiant (Cymru) 2014 a'r canllawiau, er mwyn sicrhau bod gan bawb sy'n gadael gofal hawl i **Ymgynghorydd Personol** hyd at 25 oed;
- Estyn hawliau statudol cynllun trefniadau byw ôl-18 'Pan Fydda i'n Barod' i bobl ifanc sy'n gadael **gofal preswyl**, er mwyn sicrhau bod pobl ifanc sy'n gadael gofal, beth bynnag yw eu lleoliad, yn cael yr un cyfleoedd;
- Datblygu safonau cenedlaethol i roi sylw i bryderon ynghylch ansawdd, digonolrwydd ac addasrwydd **llety lled-annibynnol** i bobl ifanc â phrofiad o ofal hyd at 25 oed. Cynigiwyd hyn gan Grŵp Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Cyd Llywodraeth flaenorol Cymru, ond mae'r cynnydd wedi oedi.
- Gweithio gydag ymadawyr gofal ac awdurdodau lleol i gynhyrchu **gwybodaeth ariannol** glir sydd ar gael yn genedlaethol, i helpu pobl ifanc a'u hymgynghorwyr personol i gael mynediad i'r ystod o grantiau, budd-daliadau a phethau y dylen nhw fedru eu hawlio wrth adael gofal. Dylai hyn gynnwys meini prawf cymhwysedd/canllawiau ar gyfer Cronfa Gŵyl Ddewi, er mwyn rhoi sicrwydd i ymadawyr gofal ynghylch sut gallan nhw wneud y defnydd gorau o'r cynllun.

- Gan ddefnyddio data am ddefnydd presennol o ofal anrheoleiddiedig, rhaid ystyried pa welliannau fyddai angen ar Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i gryfhau archwilio a rheoleiddio gofal a darpariaeth llety i reiny sydd

3.

Rhaid i Lywodraeth Cymru:

- a. **Gryfhau rôl rhianta corfforaethol Cymru trwy ddeddfwriaeth a chanllawiau, er mwyn sicrhau bod system ofal Cymru yn seiliedig ar hawliau ac yn galluogi plant i ffynnu mewn gofal.** Mae'n arbennig o bwysig symud y gwaith hwn ymlaen, gan fod niferoedd uchel o bobl ifanc â phrofiad o ofal wedi ymwneud â'r broses hyd yma, a bydd ganddyn nhw ddisgwyliadau bod newidiadau pwysig i'w gwneud.
- b. **Goruchwyllo a monitro'r broses o estyn yn eang y Protocol i Leihau Troseddoli Diangen Plant sy'n Derbyn Gofal,** gyda chefnogaeth adnoddau a hyfforddiant i gryfhau arfer cyfredol.

4.

Mae angen i Lywodraeth Cymru **arddangos cynnydd** tuag at weithredu'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuencid ymhellach, yn arbennig yr elfennau llety diogel.

5.

Dylai Llywodraeth Cymru **ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc** sydd â phrofiad o ofalu er mwyn sicrhau bod y strategaeth Gofalwyr Di-dâl yn adlewyrchu eu hanghenion ac yn hybu eu hawliau yn ddigonol.

Addysg, dinasyddiaeth a gweithgareddau diwylliannol

6. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr **holl staff addysgu a chymorth sy'n ymwneud â chyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn derbyn dysgu proffesiynol o safon uchel** a chanllawiau cenedlaethol i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o CCUHP a CCUHPA.

7. Rhaid i Lywodraeth Cymru **ddatblygu ac ariannu cynnig cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol o safon uchel**, fel bod modd i bob lleoliad yng Nghymru, erbyn mis Medi 2022, fod wedi elwa o'r dysgu proffesiynol hwn, a bod wedi nodi ymarferydd arweiniol arbenigol ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, sy'n gallu bwrw golwg dros ddull lleoliad cyfan o ymdrin â'r pwnc hwn sydd wedi'i integreiddio â'r cwricwlwm.

8. Mae angen bod **gwybodaeth eglur, hygyrch yn cael ei chyfeirio at bob person ifanc, gan gynnwys y rhai sy'n sefyll cymwysterau galwedigaethol**, ynghylch sut bydd eu cymwysterau'n cael eu dyfarnu yn 2022. Mae angen i'r wybodaeth hon fod ar gael cyn gynted â phosib, a dylai pobl ifanc fod yn rhan o ddatblygu'r negeseuon hyn.

9. Nid wyf wedi gweld copi o'r Adolygiad o Deithio gan Ddysgwyr gorffenedig. Er bod y cyfyngiadau cyn-etholiad o fis Mawrth 2021 wedi atal cyhoeddi o bosib, ni ellir gadael y gwaith hwn a chamau gweithredu dilynol ar ôl ym mhumed tymor y Senedd.

Rwy'n disgwyl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi eu canfyddiadau a chyflwyno'r camau a gymerir o ganlyniad i'w hadolygiad o Deithio gan Ddysgwyr. Mae modd cyhoeddi canlyniadau interim os oes angen gwneud gwaith pellach, ond mae'n rhaid cyhoeddi gwybodaeth i sicrhau tryloywder a chynnydd ar y mater hwn.

10.

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid, ysgolion a phlant a phobl ifanc eu hunain i sicrhau bod uchelgais y **dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol** yn cael cyfatebiaeth o ran adnoddau, capasiti a rhwydwaith cefnogi system gyfan ar draws y gwasanaethau perthnasol sy'n diwallu anghenion penodol pob ysgol.

11.

Addysgu o adref: Rhaid i Lywodraeth Cymru **gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i gyflawni'n llawn eu hymrwymiaidau i'r tri phrawf ar gyfer y maes polisi hwn**; sef bod cyfrif am bob plentyn, eu bod yn derbyn addysg briodol a'u hawliau dynol eraill, ac er mwyn sicrhau hynny, bod pob plentyn yn cael cyfle i gael eu gweld, a gwranddo ar eu barn a'u profiadau.

12.

Rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu mewn dau faes:

- a. Rhoi sylw i faterion cofrestru Cyngor y Gweithlu Addysg (EWC) trwy ddeddfwriaeth newydd; mae hyn y tu allan i'r Rheoliadau perthnasol ac yn ddarn ar wahân o waith, y mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth iddo a'i weithredu ar frys; a
- b. Chynnal adolygiad llawn o'r rheoliadau cyfredol ar gyfer ysgolion annibynnol a chyflwyno rheoliadau diwygiedig a chryfach ar gyfer rhoi sylw i unrhyw fylchau neu ddiffygion.

13.

Rhaid i Lywodraeth Cymru **bennu nod polisi clir i atal gwaharddiadau rhag cael eu rhoi i blant o dan 8 oed**. Dylid newid y canllawiau statudol ar waharddiadau fel eu bod yn cynnwys ystyriaethau penodol ynghylch oed y plentyn ac yn cyflwyno dewisiadau clir yn lle gwahardd. Dylid cefnogi hyn â chynllun gweithredu ar gyfer cymorth cynnar.

Safon ddigonol o fyw

14. Rhaid i Lywodraeth Cymru **barhau â'r rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (T4CYP)** er mwyn cefnogi rhoi dull gweithredu Dim Drws Anghywir ar waith, a model system gyfan NYTH, gan gynnwys y gwaith penodol o fewn y modelau hyn ar gyfer gwella cefnogaeth i blant niwroamrywiol.

15. **(Canllaw pontio)** Rhaid i Lywodraeth Cymru **sicrhau trwy'r canllawiau a gyhoeddwyd bod adnoddau digonol ar gyfer y rolau newydd arweinyddion gweithredol a gweithwyr allweddol ym mhob Bwrdd Iechyd yng Nghymru.**

16. Dylai Llywodraeth Cymru **gyhoeddi canllawiau newydd ar gyfer pob bwrdd iechyd**, yn sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael mynediad at eiriolaeth annibynnol cysylltiedig â iechyd os bydd angen hynny arnyn nhw. Dylai'r canllawiau hyn fod yn seiliedig ar y gwaith a wnaed hyd yma, a chael eu cyhoeddi yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22.

17. Mae'r **Rhaglen Lywodraethu hyd at 2026 yn cynnwys bwriadau uchelgeisiol ar gyfer diwygio gofal cymdeithasol a'i integreiddio â gofal iechyd. Rhaid i waith cynnar ar y flaenoriaeth hon roi sylw i fater hirsefydlog Gofal Parhaus**, a rhaid i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd fod yn rhan o gael hyd i'r atebion hynny.

18. Rhaid i Lywodraeth Cymru **gynnal ei adolygiad o'r bwyd y gellir ei hawlio mewn ysgolion heb oedi**, i gynnwys cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim, a sicrhau bod brechwast ysgol yn cyrraedd cynifer o blant â phosibl, gan gynnwys y rhai sydd angen y ddarpariaeth hon fwyaf.

Cynllun gwaith y flwyddyn nesaf

Yn 2021/22, fe fyddwn ni'n gweithio ar brosiectau yn y meysydd canlynol:

ENYA

Prosiect blynyddol yng ngofal ENOC (Rhwydwaith Ewropeaidd Ombwdsmyr Plant) yw ENYA, ac mae'n gyfle i bobl ifanc o bob rhan o Ewrop gydweithio ar argymhellion ar gyfer comisiynwyr plant a llywodraethau ar draws y cyfandir.

Effeithiolrwydd cyngorau ysgol

Mae **ein gwaith ymchwil** yn dangos bod pobl ifanc mewn ysgolion uwchradd yn teimlo'n llai abl i gyfranogi mewn penderfyniadau na phobl ifanc mewn ysgolion eraill. Nod y prosiect hwn yw gwella cyfranogiad mewn ysgolion uwchradd fel bod holl bobl ifanc Cymru yn profi eu hawl i gael lleisio barn.

Gwerthuso ein heffaith

Eleni, byddwn ni'n myfyrio ar ein llwyddiant i gyflawni ein **Cynllun Strategol Tair Blynedd 2019-22** a sut mae hynny wedi helpu i ddylanwadu ar newid i blant ledled Cymru.

Adrodd i Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn

Yn dilyn ein **hadroddiad** ym mis Rhagfyr 2020 i Bwyllgor y CU ynghylch perfformiad Cymru/y Deyrnas Unedig ar hawliau plant, byddwn ni'n gweithio eto gyda Chomisiynwyr Plant eraill y Deyrnas Unedig, i ymateb i asesiad y Llywodraethau Datganoledig a Llywodraeth y Deyrnas Unedig o'u cynnydd ar hawliau plant.

Coronafeirws a Ni

Bydd y gwaith yma'n sicrhau ein bod ni'n gallu ymateb yn barhaus i faterion sy'n ymwneud â'r pandemig. Nod allweddol fydd sicrhau bod Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yn rhoi sylw dyledus i hawliau plant wrth ffurfio a gweithredu cynlluniau adferiad.

Haf o Hwyl

Byddwn ni'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner eraill, i gefnogi a datblygu cyfleoedd newydd i blant a phobl ifanc ymwneud â chwaraeon, chwarae, hamdden a/neu weithgareddau diwylliannol yn haf 2021 ac wedi hynny.

Y Ffordd Gywir

Byddwn ni'n treulio eleni yn parhau i hybu ac annog defnydd o'n canllaw ar weithredu dull seiliedig ar hawliau plant, **Y Ffordd Gywir** ar gyfer ystod o leoliadau, gan gynnwys addysg, byrddau iechyd, gofal cymdeithasol a chyfiawnder ieuencid. Fe fyddwn ni hefyd yn gwerthuso effaith canllawiau'r Ffordd Gywir yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Dull gweithredu 'Dim drws anghywir'

Mi fydd y Comisiynydd yn cwrdd eto ag arweinwyr iechyd a gofal cymdeithasol, ac eraill, ym mhob rhanbarth o Gymru i ofyn beth maen nhw'n ei wneud i helpu plant ag anghenion cymhleth i dderbyn gwasanaeth cydlynus sy'n diwallu eu hanghenion iechyd meddwl, llesiant emosiynol a materion 'ymddygiad'.

Y Prosiect Pleidleisio

Am y tro cyntaf erioed yng Nghymru, fe fyddwn ni'n cynnal etholiadau paralel mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru, i gyd-fynd ag etholiad 2021 i'r Senedd, ar 6 o Fai 2021.

Cynllunio ar gyfer Comisiynydd newydd

Bydd cyfnod Sally Holland fel Comisiynydd Plant Cymru yn dod i ben ym mis Ebrill 2022. Er bod y broses recriwtio yn cael ei harwain gan Lywodraeth Cymru, ein ffocws eleni fydd sicrhau pontio llyfn a chyflawni ein rhaglen waith uchelgeisiol.

Y Prosiect Llety

Bydd swyddfa Comisiynydd Plant Cymru yn symud i leoliad newydd yn 2021. Mae gennym ni dîm prosiect ar draws y sefydliad sy'n cydweithio i sicrhau bod y sefydliad yn sicrhau gwell gwerth am arian, yn lleihau ei effaith ar ein planed a'n hinsawdd, ac yn caniatáu ffyrdd mwy hyblyg o weithio i'r staff.

Mae mwy o fanlyion am ein gwaith presennol ar ein gwefan [yma](#).


**Prosesau
sefydliadol**



9. Prosesau sefydliadol

Fel swyddfa gyhoeddus sy'n derbyn arian cyhoeddus, mae'r Comisiynydd yn ymroddedig i roi systemau atebolrwydd a phenderfyniadau trylwyr a thryloyw ar waith. Lluniwyd ein fframwaith gwerthuso i roi trosolwg o gyflwyno ein gwaith craidd a'r prosesau mewnol yn y sefydliad. Mae'n canolbwyntio ar bedair elfen: pobl y Comisiynydd, prosesau sefydliadol y Comisiynydd, cynaliadwyedd ariannol y Comisiynydd a gwerth am arian, a phlant a phobl ifanc Cymru. Byddwch chi'n gallu darllen am ddwy o'r pedair elfen – ein gwaith gyda phlant a phobl ifanc a chynaliadwyedd ariannol – mewn manau eraill yn yr adroddiad, ac isod rydyn ni wedi cynnwys uchafbwyntiau mewn perthynas â phobl y Comisiynydd a phrosesau sefydliadol. Mae ein Datganiad Llywodraethu ein adran Cyfrifon hefyd yn cyffwrdd ag elfennau o'r cylch gwerthuso hwn.

Prosesau sefydliadol



Pobl y Comisiynydd

Salwch

- Roedd yr absenoldeb tymor byr 79 diwrnod yn llai nag yn 19/20. Dyma'r drydedd flwyddyn yn olynol i absenoldeb tymor byr ostwng, a hynny er gwaethaf y pandemig byd-eang y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r absenoldeb tymor byr wedi bod o gwmpas 2.5% - 3.5% yn gyson yn ystod y cyfnod diwethaf o 8 mlynedd, ac ar lefel o lai nag 1%, ffigur eleni yw'r isaf a gofnodwyd ers 2010.
- Roedd yr absenoldeb tymor hir 85 diwrnod yn llai nag yn 2019-20.

Proffil y gweithlu a phroffil cyflog cyfartal

Rydyn ni'n annog aelodau ein Tîm fel mater o drefn i wneud datganiadau amrywiaeth mewn perthynas â'r holl nodweddion gwarchoddedig sy'n cael eu cwmpasu gan y Ddeddf Cydraddoldeb, oherwydd bod yr ystadegau hynny'n ein helpu i nodi camau cadarnhaol ar gyfer gwella natur gynhwysol ein gweithle. Ar gyfartaledd, mae rhwng 1 a 5 o bobl bob blwyddyn yn dewis yr opsiwn 'dewis peidio dweud' ar gyfer pob nodwedd cydraddoldeb, felly does gennym ni ddim darlun cyflawn. Serch hynny, mae'n amlwg bod ein Tîm presennol yn gyfangwbl ag ethnigrwydd gwyn, gyda'r mwyafrif yn fenywod gwahanrywiol, yn byw heb anabledd, i raddau helaeth heb grefydd na chred, gyda chyfran uchel o sgiliau iaith Gymraeg. Ceir dadansoddiad pellach a mwy manwl isod.

Mae rhai pethau i'w dathlu o safbwynt cydraddoldeb ynghylch cyfansoddiad ein Tîm cyfredol, o safbwynt cydraddoldeb rhywedd a diwylliant yr iaith Gymraeg, ond mae yna rai profiadau bywyd pwysig ar goll o'n staff presennol. Mae profiadau bywyd amrywiol aelodau o'n paneli ymgynghorol yn gwneud cyfraniad hollbwysig, ond rydyn ni'n cydnabod bod gennym ragor i'w wneud yn y maes yma. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi rhoi blaenoriaeth i weithredu mewn perthynas â nifer o nodweddion cydraddoldeb trwy ein Grŵp Gweithredu ar Gydraddoldeb sydd newydd ei ffurfio i'r staff, a'n Cynllun Gweithredu blynyddol ar Gydraddoldeb. Mae'r camau hyn yn cynnwys cyflwyno cynllun gwarant cyfwelliad a chynnal sesiynau gwybodaeth recriwtio. Rydyn ni'n bwriadu parhau â'n polisi o hysbysebu ein holl swyddi parhaol yn allanol. Rydyn ni hefyd wedi cychwyn prosiect cilyddol gyda sefydliad trydydd sector sy'n arbenigo mewn cefnogi ieuenctid o leiafrifoedd ethnig, lle byddwn ni'n rhannu arbenigedd ac adnoddau trwy gyfres o fentrau ar y cyd. Rydyn ni'n gobeithio y byddwn ni, trwy gymryd y camau hyn, yn gwella cymhwysedd ac amrywiaeth diwylliannol ein sefydliad, ac ar yr un pryd yn rhoi rhywbeth yn ôl i sefydliad partner trwy rannu ein harbenigedd ninnau mewn meysydd eraill.

Rydyn ni hefyd wedi cytuno y byddwn, mewn blynyddoedd i ddod, yn ogystal â rhoi sylw gofalus i nodweddion gwarchoddedig, hefyd yn canolbwyntio ar ddeall a dathlu ein hunaniaethau lluosog a phrofiadau bywyd cymhleth ein Tîm.

Amrywiaeth cyffredinol y gweithlu

Ar 31 Mawrth 2021, roedden ni'n cyflogi 26 o bobl, yr oedd 8 ohonynt ar gontractau rhan amser ac un ar leoliad gyda ni o Gynllun Carlam y Gwasanaeth Sifil. Rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, gadawodd pump o bobl y Tîm, a chafwyd 3 phenodiad newydd, pawb ohonynt yn staff dros dro neu'n staff ar leoliad/secondiad.

At ei gilydd, fe gawson ni flwyddyn sefydlog iawn o ran ystadegau'r gweithlu er gwaethaf y pandemig a chyflwyno newidiadau sylweddol i'n harferion gweithio gartref. Roedd y newidiadau a ddigwyddodd wedi cael eu rhagweld oherwydd eu bod yn gysylltiedig â dod â chontractau dros dro i ben, a chanlyniadau gweithlu parhaol sefydlog yn mynd yn hŷn.

I grynhoi ar 31 Mawrth 2021:

- Ar 31 Mawrth 2021 roedd 11.5 % o'n gweithlu wedi'u penodi ar sail dros dro, cyfnod penodol neu secondiad uwchrif. Mae hyn yr un fath â'r llynedd.
- Mae 69% o gydweithwyr yn gweithio oriau amser llawn, a 31% yn gweithio oriau rhan amser. Mae hyn yn debyg iawn i'r llynedd pan oedd 65% yn gweithio'n llawn amser. Dim ond 12.5% (1 allan o 8) o'r gweithwyr rhan amser sy'n wryw. Mae hyn yr un fath â'r llynedd.
- Roedd 81% o'n gweithlu yn fenywod; mae hyn yr un fath â'r llynedd.
- Ni ddatgelodd neb yn y Tîm gyfeiriadedd lesbiaidd, hoyw na deurywiol, a dywedodd 73% o'r ymatebwyr gwirfoddol eu bod yn wahanrywiol.
- Ni ddatgelodd neb yn y Tîm hunaniaeth drawsrywedd, ddeurywedd na rhywedd hyblyg yn ystod y cyfnod hwn.
- Mae 34.5% o'n cydweithwyr yn y cyfnod hwn o dan 35 oed; mae hyn yn drawiadol lai na'r llynedd, pan oedd 45% o'n gweithlu o dan 35 oed. Mae 25% o'r grŵp oed yma yn gweithio'n rhan amser.
- Mae 19% o'n cydweithwyr dros 55 oed, y llynedd roedd y ffigur hwn yn 12%; mae 40% o'r grŵp oed yma'n gweithio'n rhan amser.

- Ar hyn o bryd dydyn ni ddim yn cyflogi neb dros 65.
- Mae 8% o'n gweithlu yn disgrifio'u hunain fel rhai sy'n byw gydag anabledd; o gymharu â 22.5% o weithlu cyfan Cymru.
- Roedd gan 100% o'n gweithlu ar 31 Mawrth 2021 ethnigrwydd gwyn; gyda 54% yn disgrifio'u hunain fel Gwyn Cymreig.
- Mae 69% o gyflogeion yn disgrifio'u sgiliau iaith Gymraeg fel rhugl neu lefel uwch.
- Dim ond 34% o'n gweithlu oedd yn datgan ymrwymiad i grefydd neu gred benodol.
- Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, rydyn ni wedi cefnogi un person trwy absenoldeb beichiogrwydd a mamolaeth.
- Cafodd cynrychiolwyr o bob rhywedd, a'r rhan fwyaf o raddau a mathau o gontract fynediad at gyfleoedd dysgu a datblygu eleni, er gwaethaf cyfyngiadau gweithio o bell yn ystod pandemig. Yn ogystal â cheisiadau dysgu unigol, parhaodd rhaglen ddatblygu ein tîm cyfan ar lefel lai, ond roedd yn dal yn galluogi gweithwyr rhan amser, gweithwyr dros dro a gweithwyr â nodweddion gwarchodedig i gael mynediad cyfartal at gyfleoedd dysgu a datblygu.

Differynnau Rhywedd a Chyflog

Mae'r System Gwerthuso a Graddio Swyddi sy'n sylfaen ar gyfer y system gyflogau i ni yn dyrannu band i swyddi unigol ar sail saith ffactor gwaith gwahanol: ymreolaeth, datrys problemau, effaith, rheoli adnoddau, cysylltiadau a chyfathrebu, gwybodaeth a sgiliau. Mae'r system hon yn sicrhau bod y gwahaniaethau mewn cyflogau ar gyfer swyddi yn gysylltiedig â gofynion penodol y swydd, ac mae'n cyfrannu at ein hymrwymiad i ddileu bias yn y broses recriwtio.

O'r 21 o staff benyw oedd yn eu swyddi ar 31 Mawrth 2021, cyflogir 4 aelod o staff benyw, neu 14% o'r gweithlu benyw, yn y tri band cyflog uchaf; o gymharu â 2 aelod gwryw o staff, neu 40% o'r gweithlu gwryw.

Er bod y nifer llai o gyflogeion gwryw yn llenwi nifer anghymesur o rolau uwch yn y gweithlu yn gyffredinol, mae cydbwysedd rhywedd y Tîm Rheoli yn pwysu at aelodau benyw o staff, gyda 4 o gyfranogwyr benyw a 2 wryw.

Mae'r rhan fwyaf o'n gweithlu yn dal yn staff benyw, ond cyflog cyfartalog gweithiwr benyw ar 31 Mawrth 2021 oedd £34,314 a chyflog cyfartalog gweithiwr gwryw oedd £40,569. Mae gwahaniaeth o £6254 eleni, yn debyg i'r llynedd.

Dim ond aelodau staff benyw sydd ar y band cyflog isaf yma, ac mae hynny, ar ben y ffaith bod mwyafrif y gweithwyr rhan amser yn fenywod, yn cyfrannu at y differyn cyflog cyfartalog.

O'r 21 o fenywod oedd yn cael eu cyflogi ar 31 Mawrth 2021, mae un o bob tri o'r gweithwyr yn llenwi rolau rhan amser (33% o'r gweithlu benyw neu 7 o bobl) o gymharu ag un gweithiwr gwryw yn unig (20% o'r gweithlu gwryw).

Ein Prosesau

Ein gwaith ar weithredu Safonau'r Gymraeg

Deddf yr Iaith Gymraeg

Mae'r wybodaeth ganlynol yn darparu manylion ynghylch sut mae Comisiynydd Plant Cymru wedi cydymffurfio ag adran 44 o Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011, sy'n gofyn ei bod hi'n cadw at gyfres o safonau'r Gymraeg a bennwyd ar gyfer ein swyddfa gan Gomisiynydd y Gymraeg yn 2016.

Rydyn ni'n falch o'n hamgylchedd gwaith dwyieithog cefnogol, lle defnyddir y Gymraeg bob dydd gan ein staff dwyieithog a dysgwyr. Mae pedwar aelod o'n tîm presennol sydd wedi dysgu Cymraeg fel ail iaith, gan gynnwys y Comisiynydd, wedi cael eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau nes eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus mewn cyfarfodydd a digwyddiadau mewnol ac allanol.

Sut rydyn ni wedi cydymffurfio â'r Ddeddf

Yn ystod y cyfnod adrodd cyfredol mae'r swyddfa wedi:

- Parhau i fonitro a sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg mewn cyfarfodydd tîm rheoli misol, a darparu cyfleoedd dysgu i'r staff ddatblygu eu Cymraeg yn ôl lefel eu sgiliau.
- Ymateb i ymgynghoriad ar gôd ymarfer Safonau'r Gymraeg.
- Cyflwyno menter newydd i helpu i gefnogi'r staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Mae'r "addewid y Gymraeg" yn annog staff fel rhan o'u proses arfarnu flynyddol i ymrwymo i addo defnyddio neu ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn ôl eu rhuglder presennol yn y Gymraeg. Gall staff ymrwymo i wneud hyd at bedair addewid, a amlinellir mewn dogfen gefnogi. Elfen allweddol o'r addewidion a wneir yw eu bod yn dibynnu ar staff sy'n rhugl neu'n fwy medrus yn y Gymraeg yn cefnogi eu cydweithwyr i ddatblygu eu sgiliau. Trwy'r fenter hon, ein nod yw hybu a diogelu'r Gymraeg, a bod yn gynhwysol, yn gefnogol ac yn amyneddgar at bob dysgwr. Rydyn ni'n cydnabod bod dysgu yn broses gefnogol a fydd yn llwyddo pan fydd y dysgwyr yn deall manteision y dysgu, yn hytrach nag ymarferiad ticio blychau.

Nifer y cyflogeion sydd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw (Safon 145) – Ar 31 Mawrth 2021 roedd 26 aelod o staff yn cael eu cyflogi yn swyddfa'r Comisiynydd. O'r 26 o bobl oedd yn cael eu cyflogi yn ystod y cyfnod hwnnw:

Mae 9 yn disgrifio'u hunain fel rhai sy'n rhugl yn y Gymraeg.

Mae 5 yn disgrifio'u hunain fel rhai sydd â sgiliau lefel uwch yn y Gymraeg.

Mae 4 yn disgrifio'u hunain fel rhai sydd â sgiliau lefel ganolraddol yn y Gymraeg.

Mae 0 yn disgrifio'u hunain fel rhai sydd â sgiliau lefel sylfaenol yn y Gymraeg.

Mae 8 yn disgrifio'u hunain fel rhai sy'n methu siarad Cymraeg/sydd â Chymraeg lefel mynediad.

Nifer y cyflogeion a fu'n mynychu cyrsiau hyfforddi a gynigiwyd yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn (Safon 146) –

Er mwyn helpu'r staff i wella'u sgiliau Cymraeg, fe wnaethon ni gomisiynu cyrsiau hyfforddiant Cymraeg wedi'u teilwra yn ystod y cyfnod hwn.

Nifer y swyddi newydd a gwag y buon ni'n eu hysbysebu yn ystod y flwyddyn a gafodd eu categoreiddio fel swyddi lle roedd:

- **Sgiliau Cymraeg yn hanfodol** – Dwy swydd; un swydd Swyddog Cyfathrebu dros dro ac un swydd Swyddog Gweinyddol yn ystod absenoldeb mamolaeth.
- **Angen dysgu sgiliau Cymraeg wrth benodi i'r swydd** – Dim.
- **Sgiliau Cymraeg yn ddymunol** – Un swydd; secondiad llwybr carlam cyfnod penodol o'r Gwasanaeth Sifil.
- **Sgiliau Cymraeg yn ddiangen** – Dim.
- **Nifer y cwynion a ddaeth i law yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â chydymffurfio â'r safonau gweithredu yr oedd dyletswydd arnon ni i gydymffurfio â nhw** – Ni ddaeth unrhyw gwynion i law mewn perthynas â chydymffurfio â'r safonau gweithredu.

Ein gwaith ar weithredu'r Ddyletswydd Cydraddoldeb

Sefydlwyd y prosiect cydraddoldeb ym mis Hydref 2020 mewn ymateb i symudiad Mae Bywydau Du o Bwys (BLM), ac mewn ymateb i gymryd camau at amrywio ein sefydliad a'n cwmpas. Mae'r prosiect hwn, sy'n cynnwys staff o bob rhan o'r sefydliad, yn cwrdd ddwywaith y mis ac maen nhw wedi datblygu cynllun gweithredu yn amlinellu camau pendant a fydd yn helpu'r swyddfa i ddarparu tystiolaeth o gamau tuag at fod yn sefydliad mwy amrywiol. Mae fîm y prosiect yn gweithio mewn partneriaeth ag EYST (fîm cefnogi Lleiafrifoedd Ethnig a Ieuencid), sy'n gweithredu fel ymgynghorydd a ffrind beirniadol wrth symud y darn hwn o waith yn ei flaen.

Ein gwaith ar weithredu'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth

Mae Adran 6 o Ran 1 o Ddeddf Amgylchedd (Cymru) yn sefydlu Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau ar gyfer awdurdodau cyhoeddus. Mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus, sy'n ein cynnwys ninnau, geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth, a thrwy wneud hynny, hybu gwydnwch ecosystemau.

Ym mis Rhagfyr 2019 fe gyhoeddod ni ein **Cynllun Bioamrywiaeth**.

Mae wedi bod yn anodd gwneud cynnydd o ran y pwyntiau gweithredu cysylltiedig â'r swyddfa yn ein Cynllun Bioamrywiaeth, gan fod y swyddfa wedi bod ar gau i raddau helaeth ers mis Mawrth 2020. Serch hynny, y mae cynnydd i sôn amdano:

- Mae prosesau swyddfa ar bapur wedi dod i ben.
- Nid yw deunyddiau hyrwyddo ar ffurf 'Rhoddion Rhad' yn cael eu prynu ond os ydyn nhw'n bodloni safonau amgylcheddol, gan gynnwys – wedi'u hailgylchu/yn gallu cael eu hailgylchu/yn fioddiraddadwy.
- Contractiwyd cyflenwr trydan gwyrdd i gyflenwi'r swyddfa o fis Chwefror 2021.
- Roedd ystyriaethau amgylcheddol yn feini prawf canolog wrth chwilio'n llwyddiannus am safle newydd – agosrwydd at drafnidiaeth gyhoeddus a graddau eco.
- Bydd gwaith parhaus ar ffyrdd newydd o weithio wedi'r pandemig yn lleihau ein hól troed carbon – gyda llawer llai o staff yn cymudo mewn car, prosesau swyddfa electronig yn hytrach na rhai papur, a chyfle i fod mewn swyddfa fodern, gydag inswleiddio da a phwyntiau gwefru i geir trydan.
- Rydyn ni wedi cydweithio'n fanwl â Cyfoeth Naturiol Cymru ar ddull gweithredu seiliedig ar hawliau plant, gan eu cefnogi i gyfathrebu ac ymgysylltu â phlant ar faterion amgylcheddol.
- Rydyn ni wedi ychwanegu ystyriaethau bioamrywiaeth at ein proses o gynllunio prosiectau.

Dyma sut i gysylltu gyda ni:

Comisiynydd Plant Cymru
Tŷ Llewellyn
Parc Busnes Glan Yr Harbwr
Heol Yr Harbwr, Port Talbot
SA13 1SB

0808 801 1000 /
post@complantcymru.org.uk

[@complantcymru](https://www.complantcymru.org.uk)
[complantcymru.org.uk](https://www.complantcymru.org.uk)



**Comisiynydd
Plant Cymru**

Children's
Commissioner
for Wales